Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017/18

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


Rhagair y Cadeirydd ........ 3
Adroddiad Perfformiad ........ 4
Trosolwg ........ 4
Dadansoddi perfformiad ........ 8
Adroddiad Atebolrwydd ........ 30
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ........ 30
Adroddiad y Cyfarwyddwyr ........ 30
Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ........ 37
Datganiad llywodraethu ........ 38
Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio) ........ 47
Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio) ........ 57
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru .. 58
Datganiadau Ariannol ........ 67
Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol ........ 102
Crynodeb o berfformiad ........ 103

# Rhagair y Cadeirydd

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18. Yma rydym wedi ceisio cofnodi rhai o gyflawniadau gwych ein staff ymroddedig yn Cyfoeth Naturiol Cymru – yn wir, mae llawer inni ymfalchïo ynddo.


Yn gyntaf ac yn bwysicaf, hoffwn ddiolch i'n holl bobl ni am yr hyn maent wedi'n cynorthwyo ni i'w gyflawni ar gyfer yr amgylchedd a Chymru. Mae eu hymroddiad, ar adeg pan fyddant wedi profi cymaint o newidiadau, yn rhywbeth mae'r Bwrdd a minnau'n gwerthfawrogi'n enfawr.

Yn ystod y pum mlynedd gyntaf, rydym wedi sefydlu sylfaen gref inni adeiladu arni ar gyfer y dyfodol. Cafodd y cyfnod ffurfiannol hwn ei arwain gan Dr Emyr Roberts, a hoffem ddiolch iddo am y gwaith hwn. Hoffwn hefyd ddweud pa mor ddiolchgar ydwyf i Kevin Ingram, a fu'n gweithredu fel ein Prif Swyddog Gweithredol dros dro, wrth inni recriwtio Prif Weithredwr newydd, Clare Pillman, y bu inni ei chroesawu i Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynnar yn 2018.

Yn ystod yr ychydig o fisoedd mae Clare wedi bod yn y swydd, yn gyflym iawn mae hi wedi gweld y potensial o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwireddu'r potensial hwnnw: cyfleoedd ar gyfer rheoli tir mewn modd cynaliadwy a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac i'r amgylchedd naturiol a'r gwaith o'i reoli mewn modd cynaliadwy gael eu llawn gydnabod am y manteision mae'n eu darparu ar gyfer pobl yng Nghymru, a'r heriau wrth wneud ecosystemau'n fwy cydnerth, mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig ac amaethyddol, a chefnogi ein staff trwy newid sefydliadol. Rwy'n credu ein bod eisoes yn gweld effaith gadarnhaol a fydd yn mynd â ni yn ein blaenau i gyflawni ein Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol hyd 2022.

Fodd bynnag, bu heriau y mae'n rhaid eu llawn cydnabod yn yr Adroddiad Blynyddol hwn. Mae'r problemau llywodraethu sydd wedi parhau mewn perthynas â gosod contractau gwerthu pren wedi bod yn destun siom a phryder mawr imi. Bydd y Bwrdd a minnau'n derbyn canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfangwbl ac rydym wedi ymroddi'n llawn i sicrhau bod y rhain yn derbyn sylw fel mater o frys. Dyma un o'r blaenoriaethau uchaf inni a'n Prif Weithredwr newydd, sydd eisoes yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau hyn.

Rwy'n credu, o dan arweiniad Clare, y gall Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn lle gwell i'n pobl gweithio ynddo, ac y byddant, ynghyd â'n partneriaid, yn gwneud pob ymdrech i wella cyflwr ein hadnoddau naturiol. Fel y mae pob un ohonom yn cydnabod, mae'r amgylchedd rydym yn pryderu cymaint yn ei gylch yn wynebu heriau a phwysau difrifol. Ond, trwy ofalu am ein hamgylchedd ac amddiffyn yr adnoddau hynny sy'n sail i'n hiechyd a'n llesiant, rydym yn gallu chwarae ein rhan wrth greu lle gwell yn yr oes sydd ohoni ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.



Diane McCrea MBE
Cadeirydd

# Adroddiad Perfformiad

## Trosolwg

Ar y tudalennau nesaf, rydym yn cynnig safbwynt ein Prif Weithredwr ar ein perfformiad eleni ac yn amlinellu diben ein sefydliad, ein prif rolau a dyletswyddau, yn ogystal ag esbonio'r ffordd rydym wedi rheoli'r gwaith o gyflawni ein hamcanion eleni.

## Datganiad y Prif Weithredwr

Testun llawer o falchder imi yw cyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf dros Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ers ymuno â Cyfoeth Naturiol Cymru, rwyf wedi teimlo mor ffodus wrth imi gwrdd â'm tîm newydd, a threulio amser gyda nhw a dysgu llawer am y gwaith sydd mor bwysig iddynt. Maent yn ymroddedig iawn, yn wybodus, ac yn frwd iawn dros Gymru – ei hamgylchedd, ei chymunedau a'i llesiant. Mewn cyn lleied o amser, rwyf wedi gweld sefydliad a chanddo lawer o botensial. Mae cyfleoedd y mae angen inni eu harchwilio, a heriau y mae'n rhaid inni eu hwynebu, ond rwyf wedi ymroddi i wneud Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad y gall ein staff a Chymru ymfalchïo ynddo.

O'r adborth rwyf wedi'i dderbyn gan staff, rwy'n gwybod y bydd angen llawer o waith i gyflawni hynny. Mae hyn yn cael ei yrru gan eu huchelgais i Cyfoeth Naturiol Cymru fod y fath o sefydliad maent yn credu y gall fod. Mae'r uchelgais hon yn rhywbeth rwy'n ei rhannu â nhw a, gyda'n gilydd, gallwn ni newid pethau er gwell.

Mae teimladau cryf ein staff ynghylch yr amgylchedd yn cael eu rhannu gan bobl Cymru – a chywir hyn. Gellir gweld hyn o'r cynnydd yn y gefnogaeth i fynd i'r afael â phlastig yn ein moroedd, a phryderon mwy lleol ynghylch coed yn cael eu cwympo, llygredd yn ein hafonydd, neu gyfleusterau diwydiannol yn cael eu hadeiladu yn agos i'r lle maent yn byw. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd a heriau inni wrth egluro'r hyn rydym yn ei wneud yn well, pam rydym yn ei wneud, a sut mae'n effeithio arnyn nhw.

Mae hefyd heriau mwy dybryd imi o fewn yr adroddiad hwn. Mae'n amlwg nad yw popeth rydym wedi'i wneud wedi bod yn llwyddiannus. Mae ein gwaith llywodraethu mewn perthynas â chontractau pren a'n harchwiliad Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig ar gyfer 2017 wedi peri llawer o bryder imi. Mae'n flaenoriaeth gennyf weithio gyda'n Bwrdd a'n staff i sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o'r problemau hyn a sicrhau nad ydynt yn codi eto. Mae adroddiadau blynyddol yn rhoi cyfle inni edrych yn ôl a nodi'r pethau hynny y mae'n rhaid inni eu gwella, ond hefyd i deimlo'n falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni ac i'n gyrru ymlaen i bethau gwell.

Mae'r ffaith fod eu gwaith, yr amgylchedd a'r cymunedau maent yn eu hamddiffyn mor bwysig i'n staff ni yn sylfaen wych i adeiladu arni. Mae gennym gyfreithiau newydd sy'n cydnabod bod yr amgylchedd yn hanfodol bwysig i Gymru – ei llesiant, ei bywyd gwyllt a'i llwyddiant economaidd.

Mae'n fraint imi fod yn rhan o'r sefydliad hwn ac i adeiladu ar gyfer y dyfodol. Rydym yma i hyrwyddo'r amgylchedd a'i amddiffyn ac i sicrhau y gall chwarae ei ran mewn dyfodol gwell ar gyfer Cymru.



Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu          Dyddiad 13 Gorffennaf 2018

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Ein diben yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a chymhwyso egwyddorion y gwaith hwn fel y'u hamlinellir yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**. Cymru yw gwlad gyntaf y byd i greu sefydliad sengl sy'n dod â llawer o'r offerynnau sydd eu hangen i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cydgysylltiedig ac integredig at ei gilydd.

Mae ein rolau a'n cyfrifoldebau'n cynnwys y canlynol:

**Cynghorydd** i Lywodraeth Cymru a diwydiant, tirfeddianwyr/rheolwyr tir, y cyhoedd ehangach a'r sector gwirfoddol

**Rheoleiddiwr** ar gyfer safleoedd diwydiannol a gwastraff, y môr a choedwigoedd, a safleoedd dynodedig, er enghraifft, gan amddiffyn pobl a'r amgylchedd naturiol

**Dynodwr** ar gyfer Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEoedd), Parciau Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)

**Ymatebwr** i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol yr adroddir amdanynt bob blwyddyn fel ymatebwr Categori 1 mewn argyfwng

**Ymgynghorai statudol** ar tua 9,000 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn

**Rheolwr** 7% o arwynebedd tir Cymru, gan gynnwys Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol ac amddiffynfeydd llifogydd, a rhedeg cyfleusterau hamdden a labordy

**Partner, addysgwr a galluogwr,** gan gefnogi a hwyluso gwaith sefydliadau eraill a helpu pobl i ddysgu yn yr amgylchedd naturiol ac amdano


**Casglwr tystiolaeth** sy'n monitro'r amgylchedd, yn comisiynu a gwneud ymchwil, yn datblygu a rhannu gwybodaeth, ac yn cadw cofnodion cyhoeddus

**Cyflogwr** tua 1,900 aelod o staff, yn ogystal â chontractwyr a gwirfoddolwyr

Wrth inni wneud ein gwaith, rhaid inni hefyd gynyddu ein cyfraniad at y saith nod llesiant a amlinellir yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a'i phum ffordd o weithio.

Yn yr un modd â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, rydym wedi datblygu set o Amcanion Llesiant i'n helpu ni i wneud hyn.

Wedi'u cyflwyno yn ein **Datganiad Llesiant** yn 2017 ac wedi'u hadolygu wrth inni ddatblygu'r datganiad hwn i greu ein **Cynllun Corfforaethol hyd 2022**, dyma ein hamcanion sefydliadol lefel uchaf, hirdymor ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a chawsant eu datblygu gyda staff a rhanddeiliaid. Mae rhagor o fanylion ynghylch ein Hamcanion Llesiant ar gael yn ein Cynllun Corfforaethol.




Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol hyd 2022 ym mis Mawrth 2018. Cafodd ei lansio yn y Senedd gan ein Cadeirydd Diane McCrea a'n Prif Weithredwr newydd Clare Pillman, a chafodd ei noddi gan Mike Hedges AC, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Bu i fideos staff ddangos enghreifftiau o'n gwaith ni, a thynnodd Lawrence Conway, Cadeirydd Chwaraeon Cymru, sylw at bwysigrwydd cydweithio gyda'n gilydd yn yr oes sydd ohoni ac yn y dyfodol.

Mae nifer o feysydd allweddol rydym yn cydnabod eu bod yn **risgiau a phroblemau** mae angen eu rheoli i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gyflawni:

- **Llesiant, iechyd a diogelwch ein staff:** oherwydd natur amrywiol a chymhleth ein gwaith gweithredol, mae hon yn risg barhaus sy'n effeithio ar staff ac eraill sy'n gweithio inni yn ogystal ag ar y gwaith o gyflawni ein Hamcanion Llesiant. Rydym yn darparu hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff ac mae angen inni sicrhau bod hyn yn cael ei wella'n barhaus. Rydym yn gwybod bod morâl staff isel a'r awydd am gyfnod o sefydlogrwydd yn faterion pwysig y mae angen inni fynd i'r afael â nhw. Er y bydd y gwaith i weithredu ein prosiect Cynllun y Sefydliad er mwyn ailstrwythuro CNC yn 2018/19 yn peri aflonyddwch yn y tymor byr, bydd y strwythur newydd, a fydd yn seiliedig ar dimau lleol, yn darparu rhagor o sefydlogrwydd a'n helpu ni i weithio yn y ffordd a fwriedir gan ddeddfwriaeth newydd Cymru.

- **Llywodraethu mewnol:** yn benodol mewn perthynas â rheoli gwerthiannau a chontractau. Rydym wedi cynyddu ein ffocws ar lywodraethu mewnol er mwyn amddiffyn ein hadnoddau a sicrhau gwerth am arian ar gyfer trethdalwyr Cymru.

- **Gadael yr Undeb Ewropeaidd:** mae llawer o'n gwaith yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn dilyn y datblygiadau yn nhrafodaethau Brexit yn agos, gan ein bod yn ymwybodol y gallai eu canlyniadau gael effaith sylweddol ar ein gweithgareddau craidd a ffynonellau cyllid allanol posibl. Rydym yn chwarae rôl allweddol yng ngrwpiau cynghorol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r amgylchedd, a byddwn yn chwarae rhan gyflawn pan fydd angen cymryd camau wrth ymateb i benderfyniadau yn San Steffan.

- **Ein setliad ariannol blynyddol:** mae natur tymor byr ein sefyllfa ariannol yn peri ansicrwydd i'n hymroddiad i gynlluniau a phrosiectau tymor hwy. Mae angen inni fod yn ochelgar yn ein tybiaethau yn y dyfodol ac, wrth wynebu her llymder parhaus yn y sector cyhoeddus, gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddeall a rheoli ein sefyllfa ariannol.

- **Seiberddiogelwch:** rydym yn cydnabod bod ein system technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sy'n seiliedig ar y cwmwl yn agored i ymosodiadau. Rydym yn asesu ein mesurau amddiffyn yn barhaus i sicrhau eu bod yn gyfatebol i debygolrwydd a maint y bygythiad rydym yn ei wynebu. Rydym yn parhau i ddatblygu a gwella hyfforddiant ac ymwybyddiaeth staff i hyrwyddo diwylliant o ddiwydrwydd wrth ddefnyddio offer a gwasanaethau TGCh, sy'n ein helpu i reoli'r risgiau canlyniadol.

## Crynodeb o berfformiad

Rydym yn gofalu am adnoddau naturiol Cymru a'r hyn y maent yn ei ddarparu ar ein cyfer, gan sicrhau bod y tir a'r dŵr rydym yn gofalu amdanynt yn uniongyrchol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy ac yn annog a chefnogi pobl eraill i wneud yr un peth: fel y mae ein Hamcan Llesiant cyntaf yn dweud – hyrwyddo amgylchedd naturiol Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi rhoi cyfle gwych inni chwyldroi'r ffordd rydym yn rheoli'r amgylchedd naturiol yng Nghymru ac i wireddu ein nod i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Rydym yn canolbwyntio ar drawsffurfio ein sefydliad i gyflawni ein gwaith yn fwy effeithiol, gan newid ein strwythurau a'n ffyrdd o weithio a sicrhau ein bod yn cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i bopeth rydym yn ei wneud – er lles Cymru yn yr oes sydd ohoni ac yn y dyfodol. Mae gennym ragor o newidiadau yn yr arfaeth, gan y byddwn yn gweithredu ein prosiect Cynllun y Sefydliad yn 2018/19, a fydd yn ailstrwythuro ein sefydliad i'n helpu ni i ddarparu rhagor o wasanaethau lleol, wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau cyrff cyhoeddus eraill a phartneriaid.

Yn ystod y newidiadau hyn, rydym wedi parhau i gyflawni ein gweithgareddau craidd: rheoli coedwigoedd a gwarchodfeydd natur; ymateb i lifogydd ac achosion o lygredd; adeiladu a chynnal a chadw cynlluniau lliniaru llifogydd a chefnogi cymunedau trwy waith i godi ymwybyddiaeth o lifogydd; amddiffyn a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau; darparu cyngor ac arweiniad ar gyfer datblygwyr a rheolwyr tir; rhoi caniatadau, trwyddedau a chydsyniadau a sicrhau cydymffurfiaeth â'u hamodau, gan annog busnesau i weithredu mewn modd cynaliadwy; datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy; a darparu a choladu tystiolaeth wyddonol.

Rydym wedi gweld amrediad eang o lwyddiannau arwyddocaol yn ystod 2017/18, gan weithio mewn partneriaeth gyda llawer o sefydliadau: Fferm Wynt Pen y Cymoedd ar ben Cwm Rhondda a Chwm Nedd yn agor yn swyddogol; dechrau ein prosiect cyforgorsydd a ariannwyd gan EU-LIFE, gan amddiffyn ac adfer y cynefin a storfa garbon werthfawr hon; a gwaith sydd wedi ennill sawl gwobr ar y cyd ag ymddiriedolaethau archeolegol Cymru, ac wrth sefydlu gwarchodfa natur yn gyfagos i ddatblygiad tai ym Mwcle, gogledd-ddwyrain Cymru, yn ogystal â gwaith arloesol yn mynd i'r afael â llygredd mwyngloddiau metal a gwaith gyda Fforwm Rheoli Tir Cymru i dreialu dulliau newydd ar gyfer mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig ac amaethyddol. Rydym yn arwain y ffordd i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 trwy ein prosiect Carbon Bositif. Rydym hefyd yn falch o'n mewnbwn i'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru fel un o'u haelodau statudol, gan ddangos sut y gall yr amgylchedd naturiol gyfrannu at y gwaith o ymdrin ag amrediad eang o faterion lleol – o ddiogelwch cymunedol a mynediad, i ordewdra ac iechyd meddwl. Gallwch ddarllen am rai enghreifftiau o'n gwaith ni ar y tudalennau canlynol.

Yn aml, mae'n rhaid inni ymdrin â materion anodd a chynhennus – dyna union natur ein gwaith. Mae safle biomas y Barri, ein cynllun llifogydd yn y Rhath yng Nghaerdydd a chynigion ar gyfer coridor yr M4, er enghraifft, yn faterion cymhleth a chynhyrfiol lle mae angen cydbwyso gofynion deddfwriaethol â dymuniadau rhanddeiliaid, a seilio ein penderfyniadau ac argymhellion ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Mewn achosion o'r fath, yn aml mae safbwyntiau cryf ar bob ochr ac ni fydd ein penderfyniadau'n rhyngu bodd pawb. Rydym yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail tystiolaeth, gan weithio o fewn cyfundrefn reoleiddiol a deddfwriaeth gymhleth nad ydynt bob amser yn hawdd eu deall. Rydym yn awyddus iawn i ddysgu sut y gallwn weithio'n well gyda'n cwsmeriaid a'r cyhoedd yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer y safleoedd hynny sy'n denu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd, lle mae egluro'r sail resymegol y tu ôl i'n penderfyniadau a'n hargymhellion yn enwedig o bwysig.

Yn y dyfodol, byddwn yn wynebu rhagor o heriau, yn ein gweithgareddau craidd ac wrth inni ad-drefnu a rhoi ein strwythur sefydliadol newydd ar waith. Gwyddom fod angen inni sicrhau bod ecosystemau'n ddigon cydnerth i barhau i ddarparu'r manteision a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom.  Mae angen inni hefyd annog busnesau i fabwysiadu'r safonau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol uchaf, gan gyflawni twf gwyrdd a gwneud Cymru yn gystadleuol, yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy. Bydd arwain trwy esiampl, cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac annog eraill i wneud yr un peth, yn ogystal â defnyddio'r pum ffordd o weithio, yn ein helpu ni i wireddu ein potensial a, gyda'n partneriaid, gweithio tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant.

### Dadansoddi perfformiad

Mae ein dadansoddiad perfformiad yn disgrifio'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn craffu ar ein fframwaith perfformiad ac yn darparu gwybodaeth am ein mesurau a'n targedau allweddol, ac enghreifftiau manylach o sut rydym yn gweithio tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant.

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ein prif rôl yw cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a chyflawni’r nodau a bennir inni gan Weinidogion Cymru. Mae ein dyletswyddau allweddol yn cael eu gosod trwy ddull hirdymor sy'n seiliedig ar ganlyniadau (ein Hamcanion Llesiant) a llythyr cylch gwaith blynyddol i bennu ein meysydd gwaith sy'n mynnu ffocws penodol. Mae'r rhain yn cael eu hymgorffori yn ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes blynyddol.

Bydd ein fframwaith perfformiad yn datblygu dros flynyddoedd y dyfodol i ddangos cynnydd tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant, rhannu sut rydym yn defnyddio naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein gwaith, a disgrifio'r ffordd y byddwn yn rhoi sylw i’r blaenoriaethau sydd ym Mholisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac Amcanion Llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

O'r 34 mesur ar ddangosfwrdd ein Cynllun Busnes:
Bu i 22 gyrraedd y targed a bennwyd
Roedd 9 o fewn 10% o'r targed a bennwyd
Nid oedd 2 lle roeddem yn dymuno iddynt fod
Ni chafodd un ei asesu

Mae **ein cynnydd** yn cael ei fonitro gan ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru ac yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan tair gwaith y flwyddyn. O 2018/19, bydd ein perfformiad ar gael yn chwarterol.

Mae tudalennau canlynol yr adroddiad hwn yn amlinellu enghreifftiau o sut rydym yn gweithio i gyflawni ein Hamcanion Llesiant yn ogystal â gwybodaeth allweddol am ein

perfformiad eleni. Maent hefyd yn dangos y ffordd rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud.

Mae pob pennod yn ymdrin ag Amcan Llesiant gwahanol: mae'n cynnwys beth yw ein rôl, pa fesurau rydym yn eu defnyddio i wybod a ydym yn cyrraedd ein targedau, a sut rydym wedi perfformio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym hefyd wedi cynnwys astudiaethau achos ar ddiwedd pob adran sy'n helpu i ddod â'n gwaith yn fyw – wrth reswm, yn aml mae'r rhain yn cyfrannu at fwy nag un o'n Hamcanion Llesiant. Maent hefyd yn dangos ein hymroddiad i'r pum ffordd o weithio a'r cyfraniad rydym yn ei wneud at y saith Nod Llesiant.

## Amcan Llesiant 1 – Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

Rydym yn ceisio hyrwyddo'r amgylchedd naturiol ym mhopeth rydym yn ei wneud – yn y wybodaeth rydym yn ei darparu, wrth gefnogi'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a rhoi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith ar draws ein holl waith – i helpu pobl i wneud y gorau o'r manteision mae'n eu cynnig yn ogystal â'i werthfawrogi er ei fwyn ei hun, yn yr oes sydd ohoni ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

| **Ein mesurau** |
|---|
| • Cwblhau datganiadau ardal erbyn mis Rhagfyr 2019<br>• Darparu arbenigedd amgylcheddol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Sefydlu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy trwy newid sefydliadol<br>• Cyrraedd ein targed i ostwng carbon o 5% a chwblhau ein prosiect Carbon Bositif<br>• Creu 230 hectar o gynefinoedd erbyn mis Mawrth 2018 |

| **Canlyniadau 2017/18** |
|---|
| • Rydym wedi nodi 'Meysydd Cychwynnol i Ganolbwyntio Arnynt' ar gyfer ein datganiadau ardal yn seiliedig ar y blaenoriaethau yn y Polisi Adnoddau Naturiol a gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid.<br>• Rydym wedi darparu arbenigedd amgylcheddol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), ac yn parhau i wneud hynny, gan sicrhau bod y dystiolaeth a'r data rydym yn eu darparu'n bodloni eu hanghenion.<br>• Rydym wedi hyfforddi dros 500 o staff, gan roi dealltwriaeth sylfaenol iddynt o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'u hannog i gymhwyso ei egwyddorion yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Cynhelir rhagor o hyfforddiant yn 2018/19.<br>• Rydym ar ein ffordd i gyrraedd ein targed ar gyfer allyriadau carbon yn seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael, a bydd ein prosiect Carbon Bositif yn parhau i 2018/19.<br>• Nid ydym wedi cyrraedd ein targed i greu 230 hectar o gynefinoedd erbyn mis Mawrth 2018. Y bwriad oedd gwneud hyn trwy adfer mawndiroedd, ond yn anffodus ni dderbyniodd y cynlluniau perthnasol y cyllid a oedd ei angen. Fodd bynnag, rydym wedi achub ar y cyfle i gynnal adolygiad o'n cynlluniau ar gyfer creu cynefinoedd. Mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19 yn cynnwys y ffordd y byddwn yn gweithio i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau drwy adfer, creu a gwella cyflwr cynefinoedd. |

### Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2017/18:

### Datblygu datganiadau ardal

Rydym yn cydgynhyrchu saith datganiad ardal fel un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan weithio gydag amrediad eang o randdeiliaid. Maent yn cwmpasu chwe ardal ddaearyddol ledled Cymru a'r amgylchedd morol. Gan ddarparu sail dystiolaeth ar gyfer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac eraill, bydd y datganiadau ardal yn helpu i nodi cyfleoedd a heriau lle y gall yr amgylchedd naturiol lleol fynd i'r afael ag amrediad eang o broblemau, neu eu hatal rhag gwaethygu neu ddigwydd yn y lle cyntaf.

Bydd datganiadau ardal yn helpu aelodau'r BGC ac eraill i ystyried y tymor hir, canolbwyntio ar atal, a nodi cyfleoedd i gydweithio ac integreiddio eu gwaith, gan gynnwys

eraill megis y cymunedau lleol y mae'r BGC yn eu gwasanaethu, yn ogystal â gweld yr amgylchedd naturiol fel 'rhan o'r ateb'.

### Grŵp rhannu cyrff cenedlaethol

Rydym yn rhan o grŵp rhannu cyrff cenedlaethol – grŵp o gyrff cyhoeddus sy'n gweithio gyda'i gilydd ar lefel genedlaethol gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i rannu dysgu am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymarferol. Rydym yn edrych ar sut y gallwn fesur cynnydd a dangos ein bod yn defnyddio'r pum ffordd o weithio; sut y gallwn gydweithio ac integreiddio ein gwaith, gan gynnwys eraill; sut y gallwn ddatblygu amcanion llesiant a rennir yn y dyfodol pan fydd hynny'n briodol; a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd yn y tymor hir, gan atal problemau cyfredol rhag gwaethygu. Mae partneriaid yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a Llywodraeth Cymru.

### Mae Gwobr y Sefydliad Tirwedd ar gyfer Gwarchodfeydd Natur yn dangos sut y gall yr amgylchedd naturiol ddarparu amrediad eang o fanteision.

Mae prosiect ar y cyd â Phartneriaeth yr Amgylchedd, Redrow Homes, Cyngor Sir y Fflint ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd-ddwyrain Cymru i adennill tir er mwyn creu cynefin gwlyptir newydd wedi ennill gwobr gan y Sefydliad Tirwedd. Mae'r prosiect wedi creu gwarchodfa natur ym Mwcle, gogledd Cymru, fel rhan o ddatblygiad tai mawr.

Roedd y Prosiect Rhostiroedd yn cynnwys creu cynefin gwlyptir newydd o dir wedi'i adennill o fewn ac yn gyfagos i Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod y Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle ar bwys 300 cartref teulu newydd.



Yn wreiddiol, roedd y tir yn bwll clai segur gyda lagŵn peryglus ac iddo ochrau serth. Roedd rhaid llenwi'r lagŵn hwn i greu lle agored ar gyfer y tai newydd, a chafodd dros 50 pwll eu creu fel rhan o'r cynefin newydd.

Cafodd 35,000 o amffibiaid eu hadleoli fel rhan o'r cynllun, a bydd y pyllau newydd yn cynnal amrediad eang o rywogaethau yn yr ardal, gan gynnwys madfallod dŵr cribog. Nid yn unig y bydd y gwlyptiroedd newydd yn darparu lle ar gyfer bywyd gwyllt, ond byddant hefyd yn darparu draenio cynaliadwy ar gyfer yr ystad tai arfaethedig, yn ogystal â llawer o hectarau o le cyhoeddus.

Bydd gan y datblygiad gynllun rheoli a monitro hirdymor i sicrhau llwyddiant ecolegol y gwaith adfer, gyda rhan o'r tir yn cael ei ddynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal Cadwraeth Arben.

## Amcan Llesiant 2 – Sicrhau bod tir a dŵr Cymru yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig

Gall dull gweithredu llawn integredig ar gyfer rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy yng Nghymru arwain at fanteision amryfal ar draws yr holl sectorau – ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd trefol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Rydym yn bwriadu rhoi'r dull hwn ar waith ar gyfer y tir a'r dŵr rydym ni ein hunain yn eu rheoli ac annog holl reolwyr tir a dŵr i fabwysiadu dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

| Ein mesurau |
|---|
| • Bod yn eofn ac yn arloesol wrth ddefnyddio ein pwerau arbrofol i roi cynnig ar ddulliau newydd<br>• Cwblhau 100% o'n gwiriadau dŵr ymdrochi<br>• Galluogi gweithredu ein Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan sefydlu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ein prosesau<br>• Ailstocio 1,000 hectar o goetir erbyn mis Mawrth 2018<br>• Rhoi cyngor i gwmnïau dŵr ynghylch eu cynlluniau hirdymor erbyn mis Mawrth 2018<br>• Penderfynu 90% o geisiadau am drwydded o fewn amserlenni y cytunir arnynt a pharhau i wella'r broses drwyddedu |

| Canlyniadau 2017/18 |
|---|
| • Rydym yn gwneud cynnydd da ar ein prosiect marchnad werdd, gan gynnwys ymchwilio i'r potensial ar gyfer platfform masnachu posibl ar gyfer darparwyr gwasanaeth<br>• Bu inni gwblhau ein holl samplau dŵr ymdrochi statudol ar gyfer pob un o'r 104 safle dynodedig<br>• Rydym yn parhau i weithio ar Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru gyda disgwyliad y bydd hwn yn cael ei fabwysiadu yn 2019<br>• Er inni gyrraedd ein targed ar gyfer ailstocio coetir, trwy ailstocio dros 1,250 hectar (yr oedd bron hanner ohonynt yn ardaloedd a gafodd eu cwympo oherwydd haint gan *Phytopthora ramorum*), yn anffodus mae arwynebedd ein banc tir yn uwch na'r targed, sy'n golygu bod gennym statws melyn ar gyfer y mesur hwn<br>• Cyflwynodd y cwmnïau dŵr eu cynlluniau drafft 25 mlynedd i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Rydym yn parhau i weithio gyda'r cwmnïau dŵr i'w helpu i fodloni eu gofynion amgylcheddol statudol a chyhoeddi cynlluniau terfynol erbyn hydref 2018<br>• Gwnaethom benderfynu 96% o geisiadau am drwyddedau o fewn yr amserlenni y cytunir arnynt |

### Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2017/18:

### Bu i'r prosiect Gwastadeddau Byw ennill cyllid gan y Loteri

Fel y gwnaethom adrodd y llynedd, mae Partneriaeth Tirwedd y Gwastadeddau Byw (PTGB) yn ceisio adfer, gwella a dathlu Gwastadeddau Gwent trwy ailgysylltu pobl â'r lle unigryw hwn. Mae rhaglen o 26 o brosiectau rhyng-gysylltiedig yn ceisio gwarchod ac adfer treftadaeth naturiol nodweddion pwysig yr ardal, er mwyn creu gwerthfawrogiad gwell o werth y dirwedd trwy wella dehongli, hyrwyddo a mynediad ac i ysbrydoli pobl i ddysgu am dreftadaeth Gwastadeddau Gwent a chyfranogi ynddi.

Arweinir y bartneriaeth gan yr RSPB ac rydym ni yn bartner craidd, yn arwain ar ddau brosiect i fynd i'r afael â rhywogaethau goresgynnol a thipio anghyfreithlon, ac yn cyfrannu at lawer o brosiectau eraill, gan gynnwys prosiect £500,000 a fydd yn adfer cynefinoedd ffosydd ar SoDdGAau. Ar ddiwedd 2017, ar ôl cyfnod datblygu o 18 mis, dyfarnwyd grant o £2.5 miliwn i Bartneriaeth Tirwedd y Gwastadeddau Byw gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a fydd yn helpu i sicrhau cyfanswm o £4 miliwn o gyllid bron. Dechreuodd y cyfnod cyflawni yn ffurfiol ym mis Chwefror 2018 a bydd y cynllun yn cael ei gyflawni dros y tair blynedd a hanner nesaf.

### Rheoli dalgylch dŵr yn gynaliadwy a chydweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Mewn cydweithrediad â nifer o sefydliadau a chymunedau (gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cynghorwyr lleol, Cyngor Cymuned Cwm Garw, Sustrans, Cymdeithas Rheilffordd Cwm Garw, Parc Gwledig Bryngarw, Cadwch Gymru'n Daclus a Groundwork), rydym yn hyrwyddo rheoli dalgylch dŵr mewn modd cynaliadwy yng Nghwm Garw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Bydd ein cydlyniad o weithredoedd i gynnal, adfer a chreu cynefinoedd gwlyptir â blaenoriaeth yn helpu i arafu dŵr wyneb ffo. Bydd hyn yn helpu i leihau brigau llifogydd ac yn lleihau'r gwaddod sy'n rhedeg i'r cwrs dŵr cymaint ag y bo modd, gan wneud y gwaith o reoli'r dalgylch dŵr hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Rydym hefyd wedi helpu i ddatblygu gweithgor lleol sy'n helpu i reoli llwybr cymunedol ar hyd coridor y cwm. Trwy'r grŵp hwn, byddwn hefyd yn ceisio cynnwys cymunedau ac ysgolion lleol yn y gwaith o reoli'r llwybr, gan gynyddu gwerth y llwybr at ddiben gweithgareddau hamdden ac fel coridor ar gyfer bywyd gwyllt, a gwella cysylltedd (ar gyfer bioamrywiaeth a phobl) ar hyd y cwm. Trwy weithio gyda chymunedau a sefydliadau lleol, rydym yn gobeithio atal arferion rheoli gwael/anghynaliadwy ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn y tymor hir, rydym yn gobeithio hyrwyddo'r llwybr yn fwy helaeth fel llwybr treftadaeth a phrosiect cymunedol.

### Prosiect Coetir Ysbryd y Llynfi




Mae **Ysbryd y Llynfi** yn brosiect coetir cymunedol wedi'i ddatblygu ar hen safle Glofa Coegnant. Roedd eisoes wedi cael ei nodi fel lleoliad delfrydol ar gyfer plannu coetir newydd, ac yn 2014 gwnaethom gais llwyddiannus am gyllid gan Gyllid Natur Llywodraeth Cymru i'w drawsnewid yn goetir cymunedol a rheoli'r tir mewn ffordd wahanol, gan roi amrediad eang o fanteision.

Ar yr un pryd, cafodd Cwm Llynfi Uchaf ei nodi fel un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran iechyd yng Nghymru gan y GIG. Pan wnaethom ddechrau ar y prosiect, buom yn ymgynghori'n helaeth â phobl leol i sicrhau bod y coetir yn adlewyrchu anghenion y gymuned.

Rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Mawrth 2016, cafodd 60,000 o goed eu plannu ar y safle, gan gynnwys 7,500 yn cael eu plannu gan ysgolion lleol a gwirfoddolwyr o'r gymuned. Roeddent yn cynnwys amrediad eang o rywogaethau llydanddail brodorol

ynghyd â choed ffrwythau perllannau. Y nod oedd cynyddu bioamrywiaeth y safle yn ogystal â chreu cefndir deniadol ar gyfer y cwm.

Mae'r safle wedi parhau i ffynnu gydag amrediad eang o brosiectau newydd, a oedd yn aml yn cael eu gweithredu gan Grŵp Coetir y Llynfi – pobl leol sy'n frwd dros yr amgylchedd.

## Amcan Llesiant 3 – Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau

Mae ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016 wedi nodi na fydd llawer o ecosystemau'n ddigon addasadwy i ymdopi â newid yn yr hinsawdd a llawer o bwysau eraill yn y dyfodol, ac o ganlyniad mae'n bosibl na fyddant yn gallu darparu'r gwasanaeth sydd eu hangen arnom – megis aer a dŵr glân. Rydym yn dynodi safleoedd arbennig – Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol neu SoDdGAau, er enghraifft. Ond mae ein gwaith yn ehangach o lawer na hyn – rydym yn ceisio ystyried bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau wrth inni gyflawni ein holl swyddogaethau, gweithgareddau a phenderfyniadau, ac yn helpu cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth.

| Ein mesurau |
|---|
| • Rhoi mewnbwn arbenigol i gynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Datblygu dull strategol yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn gweithio a chydweithio i helpu i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur<br>• Cwblhau neu ddechrau 80% o weithredoedd ar safleoedd dynodedig erbyn mis Mawrth 2018<br>• Cynnal asesiadau o iechyd coed a chyflwyno hysbysiadau iechyd planhigion ar amser<br>• Clirio 715 hectar o goed ar ein hystad i reoli clefyd llarwydd (*Phytophthora ramorum*) |

| Canlyniadau 2017/18 |
|---|
| • Mae cynlluniau llesiant pob un o'r BGC wedi cael eu cymeradwyo gan Fwrdd CNC (rhai gydag amodau)<br>• Rydym wedi cynhyrchu cyfeiriad strategol ar gyfer bioamrywiaeth a'i gyflwyno i'n Bwrdd ni<br>• Mae 67% o weithredoedd ar safleoedd dynodedig wedi'u cwblhau neu eu dechrau – nid ydym wedi cyrraedd ein targed o 80%. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys nifer o lwyddiannau megis ein prosiectau cyforgorsydd<br>• Ar gais Llywodraeth Cymru, rydym wedi peidio â chyflwyno hysbysiadau iechyd coed er mwyn adolygu ehangder y clefyd<br>• Mae 949 hectar o goed wedi cael eu cwympo o ganlyniad i'r gwaith o waredu ar haint *Phytophthora ramorum*, dros ein targed arfaethedig |

### Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2017/18:

### Datblygu dull cydweithiol strategol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Rydym am gyflawni newid sylweddol yn y ffordd rydym yn gweithio, i gynnwys y gwaith o gynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth yn ein holl swyddogaethau, er mwyn ystyried y rhain yn gynnar yn y broses o wneud penderfyniadau, cynllunio a chyflawni prosiectau.  Cafodd ein dogfen ddrafft – 'Natur Hanfodol: Gwneud y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a'r bobl a'r lleoedd yng Nghymru. Cyfeiriad strategol CNC ar gyfer bioamrywiaeth hyd at 2022' ei chyflwyno i Fwrdd CNC ym mis Mawrth 2018.

Rydym yn ceisio pwysleisio'r manteision amryfal a'r gwasanaethau ecosystemau y gellir eu cael o fioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth, megis peillio, gwasanaethau diwylliannol (megis tirwedd, gweithgareddau hamdden a mynediad i'r awyr agored), lleihau llygredd a rheoli dŵr. Mae hefyd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer

bioamrywiaeth, gan fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau a chymryd mesurau ataliol trwy gymhwyso naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

### Prosiect Cyforgorsydd yn dechrau

Mae ein Prosiect Cyforgorsydd a ariennir gan EU-LIFE bellach wedi dechrau. Mae cyforgorsydd yn rhan bwysig o'n hecosystem ni ac yn werthfawr iawn ar gyfer atafael carbon. Nod y prosiect yw gwella statws cadwraeth cyforgorsydd gweithredol a chyforgorsydd diraddiedig yng Nghymru, trwy fynd i'r afael ag achosion cyflwr gwael yn uniongyrchol. Yn bennaf, mae hyn yn ymwneud ag effeithiau draeniau ar gyfer amaethyddiaeth, torri mawn yn y gorffennol, darnio cyrff mawn, a cholli morffoleg a pharthau cynefin nodweddiadol cyforgorsydd, yn ogystal â rhywogaethau goresgynnol yn cytrefu. Bydd y prosiect yn cynnwys saith o'r wyth Ardal Cadwraeth Arbennig lle mae cyforgorsydd yng Nghymru.

### Gwarchodfa Natur Genedlaethol y Goedwig Law Geltaidd yn cael ei hestyn

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Ceunant Llennyrch wedi cael ei hestyn yn sylweddol, gan helpu i warchod llawer mwy o'r ardal arbennig hon. Rydym ni'n rheoli gwarchodfa 12 hectar – ond mae Coed Cadw yn rheoli 300 hectar o dir sydd bellach wedi derbyn statws GNG hefyd.

Cyfeirir ati fel coedwig law Geltaidd oherwydd ei hamodau llaith, a bydd yr holl ardal (maint 400 cae pêl-droed) yn cael ei rheoli i adfer ac estyn y coetir brodorol ac i adfer cynefinoedd ucheldir eraill i gyflwr da.

Mae hefyd yn darparu cyfle i wella mynediad cyhoeddus fel bod rhagor o bobl yn gallu mwynhau'r safle arbennig hwn. Mae ei choetir ceunant yn cynnwys mwy na 200 o rywogaethau o fwsoglau a llysiau'r afu, gyda rhai ohonynt wedi'u cofnodi ar nifer fach o safleoedd yn unig yn fyd-eang. Mae mwy na 200 o rywogaethau o gennau'n byw yn y coed.  Mae hefyd yn gartref i dingochion a thelorion y coed, dyfrgwn ac ystlumod pedol lleiaf prin.

### Llygod y dŵr yn ffynnu yng Nghymru



Mae poblogaeth llygod y dŵr yng Nghymru wedi cynyddu yn dilyn rhaglen fridio deng mlynedd o hyd. Ers y 1970au, roedd niferoedd llygod y dŵr wedi gostwng o bron 90% ac roeddent ymhlith y rhywogaethau o famaliaid yn y DU yn y perygl mwyaf. Mae newidiadau i dechnegau rheoli glannau afon ac arferion defnyddio tir yn y DU, ynghyd â chyflwyno mincod Gogledd America ar gyfer ffermio ffwr, wedi cael effaith ddinistriol ar eu niferoedd.

Yn y deng mlynedd ers inni ddechrau rhaglen fridio mewn caethiwed, mae dros 1,000 o lygod y dŵr wedi cael eu magu a'u rhyddhau i'r gwyllt, gan helpu i roi hwb i'r boblogaeth.

Gan weithio gyda phartneriaid lleol, rydym wedi sefydlu pedair cytref fridio yn ne, canolbarth a gorllewin Cymru. Fel arfer, mae llygod y dŵr yn cynhyrchu chwe thorllwyth rhwng mis Mawrth ac yn hwyr ym mis Medi, gyda rhwng pedwar a chwe anifail ifanc ym mhob un. Mae'r epil wedyn yn cael eu rhyddhau yn ystod yr haf, i safleoedd dethol o dan reolaeth sydd â chysylltedd da rhwng cynefinoedd, fel eu bod yn gallu cytrefu'r dirwedd ehangach.

### Coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd

Mae gan Lywodraeth Cymru gynigion ar gyfer rhan newydd o draffordd – coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd (M4CaN). Rydym wedi darparu sylwadau manwl ar amrediad o faterion, gan gynnwys perygl llifogydd, draenio, cynaliadwyedd, rhywogaethau gwarchodedig, tirweddau hanesyddol, ecoleg a chadwraeth, ac ansawdd aer a dŵr – rhai o’r sylwadau hynny mewn ymchwiliad cyhoeddus yn ddiweddar. Yn rhinwedd ein rôl fel cynghorydd i Lywodraeth Cymru, rydym wedi gwrthwynebu'r cynigion fel y maent, ar sail pedwar prif fater:

- **Perygl llifogydd** – rydym o'r farn nad yw'r asesiad canlyniadau llifogydd yn llawn ddangos y gellir rheoli/lliniaru canlyniadau llifogydd mewn modd derbyniol dros oes y prosiect.
- **Safleoedd dynodedig** – rydym yn ystyried bod maint y golled barhaol i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Ngwastadeddau Gwent yn ddigynsail, ac y byddai'n groes i ddyletswyddau statudol Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- **Rhywogaethau gwarchodedig** (ystlumod) – rydym wedi codi gwrthwynebiad i ganiatáu'r gorchmynion ffyrdd oherwydd effeithiau datgysylltu a darnio cynefinoedd, a'r farwolaeth sy'n gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu a gweithredu'r ffordd.
- **Tirwedd hanesyddol** – byddai'r darn newydd o draffordd yn arwain at effeithiau andwyol sylweddol ar dirwedd hanesyddol Gwastadeddau Gwent na fyddai'n bosibl eu lliniaru'n effeithiol.

Nawr mae'r ymchwiliad wedi dod i ben, mae arolygwyr yn terfynu eu hadroddiad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd gweinidogion wedyn yn gwneud eu penderfyniad ynghylch ei gymeradwyo.

## Amcan Llesiant 4 – Lleihau'r risgiau i bobl a chymunedau gan beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd

Rydym yn darogan, monitro a rhoi cyngor ynglŷn â'r tebygolrwydd o lifogydd ac, yn ogystal â datblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd, yn cynorthwyo cymunedau lleol i leihau eu risgiau. Yn yr un modd, rydym yn rheoleiddio safleoedd diwydiannol a safleoedd gwastraff a rhoi cyngor iddynt, i leihau'r tebygolrwydd y bydd llygredd yn cyrraedd yr amgylchedd naturiol ehangach – ac, wrth gwrs, rydym yn ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol sy'n digwydd er gwaethaf ein hymdrechion gorau. Gan geisio bod yn gadarn ond yn deg, byddwn yn ymchwilio i ddigwyddiadau a defnyddio ein holl amrediad o bwerau i fynd i'r afael â throseddau amgylcheddol pan fydd angen.

| Ein mesurau |
|---|
| • Cyflawni gwasanaeth effeithiol a chydgysylltiedig ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau erbyn mis Mawrth 2018<br>• Cynnal 99% o'r asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol risg uchel yn eu cyflwr targed<br>• Adeiladu cynlluniau lliniaru llifogydd er mwyn lleihau'r risg i 500 adeilad<br>• Datblygu dull a system fonitro newydd ar gyfer gorfodi erbyn mis Mawrth 2018<br>• Lleihau nifer ac effeithiau'r safleoedd gwastraff a safleoedd diwydiannol sydd â'r perfformiad gwaethaf |

| Canlyniadau 2017/18 |
|---|
| • Nid oeddem yn gallu asesu ein gwasanaeth ymateb i ddigwyddiadau eleni, ond rydym wedi sefydlu set o dargedau ar gyfer gwella i'w cyrraedd erbyn mis Ebrill 2019<br>• Ni wnaethom gyrraedd ein targed i gynnal 99% o asedau rheoli perygl llifogydd yn eu cyflwr targed – gan gyrraedd 97.5%<br>• Rydym wedi gweld gwelliannau i gynlluniau lliniaru llifogydd – gan wella amddiffynfeydd rhag llifogydd ar gyfer 1,282 adeilad yn erbyn targed o 500<br>• Mae ein dull newydd ar gyfer monitro gorfodi wedi gwneud cynnydd da, er nad ydym wedi cyrraedd rhai o'n targedau sefydledig ar ddiwedd y flwyddyn<br>• Mae safleoedd sy'n perfformio'n wael wedi gwella unwaith eto ers 2016 – gyda thri yn llai yn y sector diwydiant a phedwar yn llai yn y sector gwastraff |

### Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2017/18:

### Trothwyon ansawdd aer newydd i gyfyngu llygredd aer

Erbyn hyn, Cymru yw cynhyrchydd mwyaf wyau maes yn yr Undeb Ewropeaidd: bellach mae dwy iâr i bob unigolyn yng Nghymru. Er bod hyn yn dda ar gyfer yr economi, gall gael effaith andwyol ar ansawdd aer a bywyd gwyllt oherwydd y lefelau uchel o amonia y gall unedau da byw dwys eu cynhyrchu. Mae amonia yn wenwynig: gall gadael iddo gronni arwain at golli rhywogaethau a pheri difrod sylweddol i gynefinoedd.

Rydym yn rhoi trwyddedau ar gyfer unedau dofednod mwy ac rydym yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hystyried gan awdurdodau lleol. Er bod allyriadau amonia wedi sefydlogi ledled y DU yn gyffredinol, maent wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru i raddau helaeth o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y dofednod. Oherwydd hyn, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn asiantaethau eraill y DU i

archwilio a meintioli effaith y llygredd aer o unedau da byw. O ganlyniad i'r gwaith hwn, byddwn yn sefydlu trothwyon ansawdd aer newydd ac yn defnyddio'r rhain yn sail i'n rôl drwyddedu ac i ategu ein cyngor ynghylch ceisiadau cynllunio.

### Effaith ddinistriol Storm Emma ar Farina Caergybi

Yn ystod Storm Emma ym mis Mawrth 2018, cafodd tua 80 cwch hwylio a 15 llong fasnachol eu difetha ym Marina Caergybi wrth i'w hangorfeydd pontŵn arnofiol gael eu rhwygo o'u hangorau a phontynau'r marina, a oedd yn arnofio ar bolystyren, gael eu torri'n ddarnau. Erbyn y bore, roedd graddfa ddinistriol y difrod yn amlwg – yn ogystal â chregyn llongau wedi'u torri, roedd meintiau sylweddol o bolystyren a malurion eraill o fewn y porthladd.

Bu inni chwarae rôl allweddol wrth roi cyngor ar y gwaith glanhau. Gwnaethom asesu'r effeithiau posibl ar yr amgylchedd gan lygryddion, a rhoi cyngor ynglŷn ag ysbwriel morol a chael gwared arno, ac ar rywogaethau morol goresgynnol. Gwnaethom weithio'n agos ac yn gyson gyda'n hasiantaethau partner i leihau niwed posibl cymaint ag y bo modd, ar rydym wedi bod ar y safle'n rheolaidd yn darparu cyngor ac arweiniad i Awdurdod Porthladd Caergybi, Cyngor Sir Ynys Môn a pherchnogion y marina.

Roedd casglu'r polystyren yn yr achos hwn yn fwy na mater o leihau ysbwriel morol yn unig. Roedd yn bosibl y gallai unigolion o’r rhywogaeth oresgynnol y chwistrelliad môr carped (*Didemnum vexillum*), a oedd wedi cytrefu isadeiledd y marina yng Nghaergybi, fod wedi lledaenu o'r marina ar ddarnau o'r gorchudd rwber o gwmpas yr arnofion polystyren a oedd wedi cael eu dryllio. Mae gan yr anifail morol goresgynnol hwn y potensial i beri llawer o ddifrod i lawer o fuddiannau morol, yn enwedig y pysgodfeydd pysgod cragen sy'n gweithredu yn yr ardal. Gwnaethom roi'r cyngor hwn yn gynnar ac yn eglur i sicrhau bod camau gweithredu i reoli’r chwistrelliad môr carped yn cael eu hintegreiddio i'r gwaith o arolygu a chasglu'r polystyren yn dilyn y digwyddiad.



Ymwelodd y Prif Weinidog Carwyn Jones â'r safle yn ddiweddar, a dweud y byddai hyd at £30,000 yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i helpu gyda'r costau glanhau, yn ogystal ag arian ychwanegol ar gyfer busnesau lleol wedi'u heffeithio.

Byddwn yn cynnal gwaith monitro yn hwyrach eleni i chwilio am bresenoldeb y chwistrelliad môr carped y tu allan i'r porthladd.

### Cynllun Llifogydd y Rhath, Caerdydd

Fel rhan o'n gwaith rheoli perygl llifogydd, rydym yn ceisio gwella'r amddiffynfeydd ar gyfer 500 rhagor o adeiladau bob blwyddyn, ac er ein bod yn cyrraedd y targed hwn yn gyson, mae rhai o'n cynlluniau wedi cael eu gwrthwynebu gan drigolion lleol. Un o'r rhain yw Cynllun Llifogydd y Rhath – bydd y prosiect yn lleihau'r perygl o lifogydd ar gyfer 405 adeilad (360 cartref a 45 busnes). Mae grŵp ymgyrch wedi cael ei sefydlu sy'n gwrthwynebu rhan benodol o'r cynllun hwn – cwympo coed yng Ngherddi Melin y Rhath a Gerddi Nant y Rhath – sy'n ceisio amddiffyn tua 60 adeilad. Mae'r grŵp hwn yn credu nad

yw'r risg yn real, ein bod wedi gor-ddweud maint y risg, a bod opsiynau eraill ar gael. Maent yn credu y byddai colli'r coed yn difetha'r amgylchedd lleol.

Er ein bod yn credu inni ymgynghori'n helaeth â'r gymuned leol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r cynllun, ac wedi derbyn caniatâd cynllunio, bu nifer o brotestiadau ar ôl i'r gwaith ddechrau, gan gynnwys pobl yn dringo coed i'w hatal rhag cael eu cwympo. Arweiniodd hyn at oediadau i'r prosiect, yn enwedig am fod angen inni sicrhau diogelwch pawb ar y safle cyn inni allu ailddechrau ar y gwaith. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r grŵp ymgyrch a'r gymuned leol, ac wedi rhoi sicrwydd iddynt y byddwn yn ailblannu'r coed mewn modd cydymdeimlol i leihau'r effeithiau byrdymor ar yr amgylchedd lleol a bywyd gwyllt. Mae dau gyfnod cyntaf y cynllun cyffredinol wedi mynd yn eu blaenau a byddant yn cael eu cwblhau yn hwyr yn yr haf: byddant yn amddiffyn tua 350 o gartrefi a busnesau yn yr ardal.

### Atal trwydded safle tirlenwi

Rydym wedi cymryd camau yn erbyn gweithredwr safle tirlenwi yng nghanolbarth Cymru oherwydd y risg o lygredd roedd yn ei pheri. Gwnaeth swyddogion atal trwydded y gweithredwr ar ôl i dystiolaeth ddangos bod y safle'n dal llawer mwy o wastraff nag y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Bu inni hefyd amcangyfrif bod llawer mwy o wastraff yn cael ei storio ar y safle nag a ganiateir. Mae'r ddau fater yn torri amodau trwydded amgylcheddol y gweithredwr. Mae angen trwydded amgylcheddol ar bob safle i weithredu, sy'n rhoi manylion y ffordd y bydd y gweithredwr yn rheoli'r safle i leihau'r effaith ar aer, tir a dŵr yn yr ardal.

O ganlyniad, ni chaniateir i'r gweithredwyr dipio rhagor o wastraff ar y safle tirlenwi, ac rydym wedi gofyn i'r cwmni archwilio'r risg bosibl y mae'r gwastraff hwn yn ei pheri. Y llynedd, bu inni roi mesurau cyfreithiol eraill ar waith megis cyflwyno hysbysiadau cyfreithiol i'r gweithredwr i sicrhau bod y safle'n cydymffurfio ag amodau'r drwydded. Fodd bynnag, bellach bu angen inni atal y drwydded.

### Sancsiynau sifil yn helpu ysgolion a grwpiau cymunedol



Rydym wedi defnyddio dull gwahanol gyda chwmni a achosodd lygredd i Afon Taf ym mis Mai a mis Medi 2016. Yn dilyn yr adroddiadau, canfuwyd bod gwastraff o safle yn Nhrefforest wedi cyrraedd yr afon trwy gwlfer nad oedd ar fap. Er na laddwyd unrhyw bysgod, bu i'r llygredd ladd infertebratau dyfrol sy'n ffynhonnell bwyd bwysig i bysgod megis brithyllod ac eogiaid. Yn hytrach nag erlyn, gwnaethom dderbyn cynnig gan y cwmni i ddefnyddio sancsiynau sifil.

Cytunodd y cwmni i dalu £40,000 i Ŵyl Taf, prosiect lleol sy'n cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru. Mae'r prosiect yn annog ysgolion a grwpiau cymunedol i fwynhau Afon Taf mewn modd cadarnhaol ac iach, a bydd yn darparu manteision tymor hwy ar gyfer pobl a'r amgylchedd. Mae costau ymchwiliol o £12,000

hefyd wedi cael eu talu i Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn cyfrannu at waith swyddogion wrth iddynt nodi mannau lle mae'r perygl o lygredd gwasgaredig yn uchel.

## Deddf Enillion Troseddau

Eleni rydym wedi gweld dau orchymyn atafaelu sylweddol yn cael eu gwneud o dan y Ddeddf Enillion Troseddau. Mae’r Ddeddf Enillion Troseddau yn ddarn o ddeddfwriaeth sy'n caniatáu inni orfodi rhywun i ad-dalu unrhyw arian y maent wedi'i wneud trwy eu gweithgareddau anghyfreithlon, gan helpu i amddiffyn yr amgylchedd wrth hefyd helpu i sicrhau sefyllfa deg ar gyfer busnesau cyfreithlon.

Rydym wedi cydweithio gyda Heddlu Dyfed–Powys, eu cynghorwyr ariannol achrededig a chyfrifyddion fforensig i ymchwilio i iard sgrap anghyfreithlon yng ngorllewin Cymru. Cymerodd yr ymchwiliad fisoedd lawer o waith caled, ond yn y pen draw arweiniodd at orchymyn atafaelu o £289,000, gyda'r gweithredwr yn derbyn dedfryd yn y carchar.

Mae ffermwr o dde Cymru hefyd wedi cael ei orchymyn i ad-dalu £226,000 am ddefnyddio ei dir i waredu gwastraff yn anghyfreithlon.

## Erlyniad am gwympo coed yn anghyfreithlon

Gweithiodd ein Swyddogion Coetir Rheoleiddiol, ein Tîm Troseddau Amgylcheddol a'n Hadran Gyfreithiol gyda'i gilydd i ddod â'r achos i'r llys pan gafodd 200 o goed ffawydd hynod mewn gwrychoedd eu cwympo'n anghyfreithlon yn ne Cymru.

Cafodd dystiolaeth ei chasglu ac achos ar gyfer erlyn ei baratoi. Fel rhan o'n hachos, roedd yn rhaid inni gyfrifo gwerth cywir ar gyfer y coed a oedd wedi cael eu cwympo. Fel arfer, rydym yn defnyddio gwerth masnachol y pren, ond yn yr achos hwn gwnaethom hefyd ddefnyddio ‘System Helliwell’, sy'n cael ei defnyddio i gyfrifo gwerth gweledol ac amwynder coed a choetir. Gwnaethom gyfrifo bod hwn dros £50,000. Ni fyddem wedi rhoi trwydded i ganiatáu i'r coed hyn gael eu cwympo. Ym mis Medi, derbyniodd y diffynnydd ddirwy o dros £100,000, ac fe'i gorchmynnwyd i dalu costau o £7,000 bron, yn ogystal â gordal dioddefwr o £170 – dyma'r ddirwy uchaf posibl ar gyfer trosedd o'r fath.

## Amcan Llesiant 5 – Helpu pobl i fyw bywydau mwy iach a bodlon

Yn ogystal â darparu amrediad eang o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden ar y tir rydym ni ein hunain yn ei reoli, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i annog pobl i ddefnyddio'r awyr agored ledled Cymru a gwella eu hiechyd a'u llesiant. Rydym yn cefnogi prosiectau cymunedol ac yn helpu pobl i ddysgu am werth yr amgylchedd naturiol, ei bwysigrwydd mewn bywyd o ddydd i ddydd, a'i ran yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

| Ein mesurau |
| --- |
| • Hyrwyddo defnyddio'r awyr agored i fod yn gorfforol egnïol a gwella llesiant<br>• Cynyddu cyfleoedd ar gyfer mynediad lleol sy'n dod â chymunedau at ei gilydd<br>• Dehongli data ar agweddau at yr amgylchedd naturiol a gasglwyd yn ystod Arolwg Cenedlaethol Cymru erbyn mis Mawrth 2018<br>• Adolygu a chynnal a chadw ein cyfleusterau hamdden erbyn mis Mawrth 2018 |

| Canlyniadau 2017/18 |
| --- |
| • Rydym wedi hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol yn llwyddiannus ac wedi cynnal gwefan 'Lleoedd i ymweld â nhw' CNC<br>• Mae ein cynllun Cyfle, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a gwirfoddoli, yn parhau i gael ei ddatblygu, gyda'r lleoliadau newydd yn cael eu rheoli gan dimau erbyn mis Ebrill 2019<br>• Bu i newidiadau i amserlenni olygu nad oeddem yn comisiynu dadansoddiadau data ychwanegol, ond gwnaethom gyhoeddi pedwar bwletin a oedd yn dehongli data mewn perthynas ag agweddau pobl at wahanol agweddau ar yr amgylchedd naturiol<br>• Rydym wedi cwblhau adolygiad o'n cyfleusterau hamdden ac wedi parhau i'w cynnal a chadw trwy gydol y flwyddyn |

### Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2017/18

### Temtiwr – digwyddiad beicio mynydd i fenywod

Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal 'Temtiwr', digwyddiad i annog rhagor o fenywod i roi cynnig ar feicio mynydd, yn ein Parc Coedwig Coed y Brenin. Wedi'i drefnu mewn cydweithrediad â Beics Brenin, Beicio Cymru, Dyfi Events ac Infinite Exposures, roedd yn cynnig y cyfle i 60 o fenywod wella eu sgiliau beicio mynydd, dysgu am gynnal a chadw beiciau, a chymdeithasu â beicwyr eraill.

Gwnaeth Tracy Moseley, cyn-bencampwr lawr mynydd a Gravity Enduro, gynnal sesiwn holi ac ateb yn y digwyddiad, ac roedd gweithgareddau'r penwythnos hefyd yn cynnwys hyfforddiant sgiliau beicio mynydd, gweithdai, teithiau beiciau a dywysir, ioga, a dangos ffilm.



Mae gan Goed y Brenin sawl llwybr beicio mynydd pwrpasol, o lwybrau ffordd yn y goedwig ar gyfer dechreuwyr i lwybrau gradd ddu ar gyfer beicwyr profiadol. Roedd yr adborth ar gyfer Temtiwr yn gadarnhaol iawn a gobeithir y bydd yn dod yn ddigwyddiad blynyddol

## 'Trwy Bob Dull Rhesymol'



Mae **Trwy Bob Dull Rhesymol: Mynediad Lleiaf Rhwystrol i'r Awyr Agored** wedi cael ei ddatblygu i ddarparu arweiniad ar gyfer tirfeddianwyr i helpu i sicrhau bod mynediad i'r cefn gwlad a mannau agored ar gael i bawb i'r un graddau ni waeth beth fo eu hoedran, eu hamgylchiadau a'u cefndir.

Cysyniad allweddol yn yr arweiniad hwn yw sicrhau bod yr egwyddor mynediad lleiaf rhwystrol yn cael ei defnyddio wrth gynllunio ar gyfer mynediad yn yr awyr agored. Mae bwlch yn darparu'r mynediad lleiaf rhwystrol, wedyn giât ac, os nad yw hynny'n bosibl, camfa. Ond nid yw'n ymwneud â nodweddion ffisegol yn unig – mae hefyd yn ymwneud â sut mae pobl yn penderfynu ymweld â safle, defnyddioldeb y wybodaeth maent yn ei derbyn, a'u profiad unwaith maent wedi cyrraedd. Gall wybodaeth dda helpu i oresgyn llawer o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag ymweld â safle yn y lle cyntaf.

Nod yr arweiniad yw rhoi dull realistig, ymarferol ac effeithiol i wella mynediad, gan greu rhagor o fannau hygyrch ar gyfer rhagor o bobl. Mae'n annog rheolwyr tir i nodi'r technegau hynny sydd fwyaf priodol ar gyfer eu sefyllfa benodol a helpu rhagor o bobl i fwynhau'r awyr agored.

## Gwarbaciau darganfod

Yr hydref diwethaf, roedd ein canolfannau ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin yn cynnig 'gwarbac darganfod' i blant a oedd yn ymweld â'r canolfannau i'w helpu i archwilio'r awyr agored. Roedd y gwarbaciau yn cynnwys binocwlars, chwyddwydr, pot pryfed a chardiau ar gyfer adnabod natur, ynghyd â chanllaw a oedd yn egluro sut i'w defnyddio. Roeddent hefyd yn cynnwys rhai heriau cychwynnol i helpu'r plant i ddechrau mwynhau – o adnabod coed ac adar i wneud rhwbiadau rhisgl a chwilio am fwystfilod bach.

## Teithiau cwch yn Aber Afon Dyfrdwy

Rydym wedi gweithio gyda Meistr Porthladd Aber Afon Dyfrdwy i gefnogi grŵp lleol a adwaenir fel Cymdeithas Cychwyr y Cei i helpu i ddatblygu teithiau cwch hamdden diogel a hygyrch ar hyd Aber Afon Dyfrdwy, wedi'u hariannu gan amryw grantiau ac elusennau. Mae dau o gychod Cymdeithas Cychwyr y Cei yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ac maent yn galluogi pobl i ddatblygu cysylltiad gwell â'r aber.

## Amcan Llesiant 6 – Hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu difrodi

Rydym am i Gymru gael ei gweld fel lle gwych i wneud busnes, gan groesawu twf gwyrdd, sectorau newydd, ymchwil ac arloesedd. Yn ogystal ag ein gweithgareddau masnachol ein hunain, rydym am annog busnesau i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a gweithio tuag at economi gylchol. Rydym yn defnyddio ein pwerau rheoleiddiol – trwyddedu a monitro i wirio cydymffurfiaeth a gorfodi – i amddiffyn yr amgylchedd naturiol ac i sicrhau nad yw busnesau cyfreithiol yn cael eu tanseilio.

| Ein mesurau |
|---|
| • Gwella effaith ac ansawdd ein cyngor erbyn mis Rhagfyr 2017<br>• Symud i fodel cyllido i'r tu allan (grantiau) a arweinir gan gomisiynu erbyn mis Ebrill 2018<br>• Gwerthu 700,000 metr ciwbig o bren ar y farchnad erbyn mis Mawrth 2018<br>• Cyflawni ein rhaglen ynni adnewyddadwy<br>• Ymateb i ymgynghoriadau cynllunio o fewn amserlenni y cytunir arnynt |

| Canlyniadau 2017/18 |
|---|
| • Cawsom sgôr o bedwar o bump pan wnaethom ofyn am adborth ynghylch effeithiolrwydd ein cyngor, gyda defnyddwyr a holwyd yn dweud eu bod naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod ein cyngor wedi cael effaith ar eu penderfyniadau<br>• Bu inni dderbyn 200 mynegiant o ddiddordeb mewn grantiau, a gwnaethom ddewis 80 i fynd yn eu blaenau, gyda chyngor ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a oedd yn symud ymlaen i'r cam nesaf<br>• Rydym wedi gwerthu 744,000 metr ciwbig o bren ar y farchnad yn 2017/18<br>• Agorodd y Prif Weinidog Fferm Wynt Pen y Cymoedd ym mis Medi 2017; cwblhawyd cynllun Cwm Saebren, cynllun a arweiniwyd gan y gymuned, ym mis Chwefror 2018. Cwblhawyd y gwaith o adeiladu Cynllun Ynni Dŵr Garwnant ym mis Chwefror 2018, ac rydym yn parhau i ddarparu mynediad at brosiectau ynni adnewyddadwy yn gyfagos i dir a reolir gan CNC<br>• Roedd 97% o ymatebion i ymgynghoriadau cynllunio o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt (roedd 6,747 o ymatebion mewn pryd) |

### Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2017/2018:

### Agoriad swyddogol fferm wynt fwyaf ar y tir yng Nghymru gan y Prif Weinidog

Mae Fferm Wynt Pen y Cymoedd, ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ben Cwm Rhondda a Chwm Nedd, bellach wedi cael ei datblygu gan Vattenfall, ac mae'n cynnwys 76 tyrbin sy'n cynhyrchu digon o drydan bob blwyddyn i roi pŵer i gyfateb i 188,000 o gartrefi neu 15 y cant o gartrefi Cymru. Mae ein Tîm Rhaglen Cyflenwi Ynni wedi gweithio'n agos gyda Vattenfall ers 2005 i wireddu'r prosiect ynni adnewyddadwy 228 megawat hwn.



Dyma un o'r prosiectau cyntaf o dan Bortffolio Datblygu Ynni ein Cynllun Menter i gael ei gwblhau, ac mae wedi dod â manteision economaidd sylweddol i Gymru, gyda 52% o'r buddsoddiad o £400 miliwn i adeiladu'r prosiect yn mynd i fusnesau Cymru, gan sicrhau gwaith ar gyfer dros 1,000 o weithwyr Cymru dros y tair blynedd diwethaf.

Mae wedi bod yn weithredol ers gwanwyn 2017, a bydd y prosiect yn parhau i gynhyrchu trydan nad yw'n dibynnu ar danwydd ffosil tan o leiaf 2037. Nid yn unig mae ein cydweithio â Vattenfall i gyflawni'r prosiect hwn yn symbylu newid economaidd cadarnhaol ar gyfer Cymru, ond mae hefyd yn rhoi CNC ar flaen rhaglenni economi carbon isel, newid yn yr hinsawdd a thwf gwyrdd Llywodraeth Cymru – i gyd yn cyd-fynd â’n diben o reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.

### Pysgodfa Gocos Afon Dyfrdwy

Mae Pysgodfa Gocos Afon Dyfrdwy newydd gwblhau ei degfed tymor agored yn olynol. Mae Gorchymyn Rheoleiddio, a ddaeth i rym yn 2008, wedi ein galluogi i reoli'r gwely cocos yn gynaliadwy. Mae bellach yn bysgodfa sy'n werth miliynau o bunnoedd, wedi'i hachredu gan y Cyngor Stiwardiaeth Forol fel pysgodfa a reolir yn gynaliadwy. Mae'n rhoi incwm rheolaidd i ddeiliaid trwydded, yn bwydo adar o bwys rhyngwladol sy'n bwrw'r gaeaf, ac yn cyfrannu at yr economi aberol ehangach.

### Safle Biomas y Barri

Gwnaethom roi trwydded amgylcheddol i Biomass UK No. 2 Limited ym mis Chwefror 2018 i weithredu safle nwyeiddio gwastraff pren yn y Barri. Mae'r safle yn fater cynhennus yn y gymuned leol, gyda gwrthwynebiad cryf i'r cynnig gan y cyhoedd a gwleidyddion lleol. Gwnaed ein penderfyniad yn dilyn asesiad helaeth o gynlluniau'r cwmni a nifer o ymgynghoriadau â phobl leol a chyrff proffesiynol, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, ac rydym wedi gweithio'n galed iawn i ymgysylltu â thrigolion lleol, eu hysbysu, gwrando arnynt ac ymgynghori â nhw.

Mae angen cyfleusterau fel hyn ar Gymru i brosesu gwastraffau anodd eu trin, nad ydynt yn addas ar gyfer ailgylchu, ac i liniaru'r risgiau y bydd safleoedd storio pren yn mynd ar dân. Mae angen caniatâd cynllunio a thrwydded amgylcheddol arnynt. Penderfynir ar eu lleoliad trwy'r broses gynllunio leol. Mae'r drwydded yn ystyried a yw cyfleuster yn gallu gweithredu mewn modd diogel, effeithlon ac effeithiol. Os ydym yn penderfynu y gall y safle weithredu o fewn y safonau amgylcheddol, technolegol ac iechyd gofynnol, yna nid oes gennym reswm y gellir ei amddiffyn dros beidio â rhoi'r drwydded – nid ydym yn gallu gwrthod ar sail deiseb a gwrthwynebiad swnllyd, ond mae’n rhaid inni weithio o fewn canllawiau ein cylch gwaith.

Mae'r amodau rydym wedi'u gosod yn y drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r safle weithredu i'r Technegau Gorau sydd ar Gael, a byddwn yn monitro gweithgareddau ar y safle i sicrhau ei fod yn parhau i weithredu o fewn yr amodau cytunedig yn ei drwydded.

Mae gwastraff a sut rydym yn ymdrin ag ef yn rhan annatod o sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac mae ein gweithgareddau rheoleiddio gwastraff yn rhan hanfodol o helpu i amddiffyn ein hamgylchedd a sicrhau sefyllfa deg ar gyfer gweithredwyr cyfreithlon.

### Cynigion ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd

Mae Horizon Nuclear Power yn cynnig adeiladu a gweithredu gorsaf bŵer niwclear newydd yn **Wylfa Newydd** ar Ynys Môn – dau adweithydd dŵr berw uwch sy'n cynhyrchu hyd at 3,100 megawat o drydan – digon o bŵer ar gyfer tua phum miliwn o gartrefi. Mae gennym rôl hanfodol wrth benderfynu ynghylch nifer o drwyddedau amgylcheddol yn ogystal â darparu cyngor arbenigol ar gyfer sefydliadau eraill ar y penderfyniad y mae'n rhaid iddynt ei wneud – bydd y penderfyniad ynglŷn â'r orsaf bŵer newydd yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi darparu llawer o gyngor ac arweiniad ar gyfer y datblygwr. Gwnaethom dderbyn y cyntaf o'r prif geisiadau ym mis Hydref 2017 gyda phedwar arall ar 1 Mehefin 2018. Mae'r ceisiadau'n cynnwys trwyddedau ar gyfer gollwng dŵr adeiladu a dŵr oeri, gwaith morol, gosod gweithfeydd llosgi, sylweddau ymbelydrol, ac, yn hwyrach yn 2018, tynnu dŵr.

Rydym wedi ymroddi i fod yn agored ac yn dryloyw yn ystod y gwaith hwn ac i sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfleoedd i gyfrannu at y broses. Byddwn yn cynnal dau ymgynghoriad ar gyfer ein proses drwyddedu – ar y ceisiadau a dderbyniwyd ac wedyn ar ein penderfyniad drafft.

## Amcan Llesiant 7 – Datblygu CNC yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf

Rydym am fod y sefydliad gorau y gallwn fod ar gyfer ein staff, ein cwsmeriaid a'r amgylchedd naturiol. Mae hyn yn golygu ein bod wedi mynd trwy newidiadau sylweddol fel sefydliad, ond yn dilyn yr ailstrwythuro staff a fydd yn cael ei gynnal yn 2018/19, bydd cyflymder y newidiadau hyn yn lleihau'n sylweddol.

| Ein mesurau |
|---|
| • Ansawdd ein cydweithio â chwsmeriaid a sefydliadau eraill<br>• Cwblhau ein Cynllun y Sefydliad erbyn 2018<br>• Cyflawni ein Rhaglen Ffocws ar Gwsmeriaid<br>• Gweithredu ein Strategaeth Pobl a Thimau |

| Canlyniadau 2017/18 |
|---|
| • CNC ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru oedd enillwyr y Wobr am Gydweithio yn Seremoni Wobrwyo'r Sefydliad dros Welliannau Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus, am ein gwaith ar y cyd mewn amgylcheddau naturiol a hanesyddol<br>• Lluniwyd ein strwythur drafft terfynol ar gyfer ein Cynllun y Sefydliad ym mis Mai 2018 yn hytrach na mis Mawrth fel roeddem wedi bwriadu<br>• Gwnaethom gwblhau arolwg o gwsmeriaid mewnol ac allanol ym mis Mawrth. Byddwn yn defnyddio'r canlyniadau i helpu i ddatblygu ein dull gyda chwsmeriaid ac ein cydweithio â phartneriaid<br>• Bu inni gynnal ein harolwg pobl ym mis Ionawr a mis Chwefror ac, ar hyn o bryd, rydym yn dadansoddi'r canlyniadau – bydd y rhain yn cael eu darparu gan reolwyr ym mis Ebrill a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar ein mewnrwyd |

### Enghreifftiau o'n gwaith ni yn ystod 2017/18:

### Gwella gwasanaethau cwsmeriaid yn CNC

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Gwasanaethau Cwsmeriaid ac, yn ddiweddar, wedi cwblhau arolwg o gwsmeriaid mewnol ac allanol i'n helpu ni i ddeall anghenion cwsmeriaid a sicrhau ein bod yn darparu lefel uchel o wasanaeth yn gyson.

Mae gwella profiad ein holl gwsmeriaid yn ganolog i'n Rhaglen Ffocws ar Gwsmeriaid. Ym mis Mai 2017, cafodd **Datganiad Cyfoeth Naturiol Cymru i Gwsmeriaid** ei lansio ar ein gwefan, yn dilyn adolygiad o'r wybodaeth gyfredol am wasanaethau sydd ar gael i gwsmeriaid. Mae'r datganiad yn egluro sut y gall cwsmeriaid gael mynediad at wasanaethau a'r hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn cysylltu â ni. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys dolenni i feysydd eraill o waith i helpu cwsmeriaid i ddod ar draws yr hyn sydd ei angen arnynt yn hawdd.

### Gwobr gydweithio

Cynhaliodd y Sefydliad dros Welliannau Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus ei Seremoni Wobrwyo y DU 2018 yn Amgueddfa Leeds ar 14 Mawrth, ac roedd yn dda iawn gennym gael ein gwahodd. Roedd CNC a phedair o Ymddiriedolaethau Archeolegol

Cymru – Clwyd–Powys, Dyfed, Morgannwg–Gwent a Gwynedd – wedi cyflwyno ein gwaith ar y cyd yn yr amgylcheddau naturiol a hanesyddol ar gyfer y wobr gydweithio; mae ein gwaith yn cael ei grynhoi mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Nid yn unig y cafodd ein cyflwyniad ei enwebu, ond ni a enillodd y categori cydweithio: mae'r dwylo sy'n cydio yn ei gilydd ar y tlws gwydr yn adlewyrchiad priodol o ethos ein gwaith. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddangos ein gwaith, rhannu arferion da, a chodi ymwybyddiaeth o werth y Sefydliad dros Welliannau Parhaus mewn Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r wobr yn cydnabod ein newid diwylliant i un lle y gwneir gwelliannau yn barhaus. Mae hyn wedi bod o les i bob llofnodwr, sefydliad partner, a sectorau'r amgylchedd naturiol a hanesyddol – a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth oedd y sbardun.

Mae cydweithio wedi dod ag undod, diben a chryfder ar draws ein sefydliadau ar bob lefel, ac mae wedi'n galluogi ni i adeiladu capasiti a datblygu arbenigedd mewn meysydd arbenigol, cynnal digwyddiadau hyfforddi ar y cyd, lleihau dyblygu a gwella cysondeb. Trwy weithio gyda'n gilydd mewn modd cadarnhaol, mae wedi cynnwys sefydliadau eraill, gan greu effaith donnog sy'n arwain at gydweithio gwell. Mae llawer o fanteision i weithio yn y ffordd hon, ac maent yn cyfrannu at hyfywedd economaidd a chymdeithasol Cymru.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant CNC

Rydym yn ystyried ein hymroddiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fater difrifol iawn ac rydym wedi gweld nifer o lwyddiannau yn ystod 2017/18:

- **Safle gwell ar Raddfa Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall:** Gwnaethom godi 52 safle ar raddfa Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall i'r 15fed cyflogwr gorau yng Nghymru ar gyfer Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a mwy a 132ain gorau yn y DU.

- **Diwrnod Gweladwyedd Pobl Drawsrywiol:** Eleni, bu'r Rhwydwaith Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol yn gweithio'n galed iawn i fod yn fwy gweladwy nag o'r blaen. Un enghraifft o hyn fu ein dathlu Diwrnod Rhyngwladol Gweledwyedd Pobl Drawsrywiol. Gwnaethom ddefnyddio'r diwrnod yn gyfle i hyrwyddo ein Huwch-gynghorydd Cydraddoldeb, Samantha Carpenter, fel delfryd ymddwyn gadarnhaol sy'n agored ynghylch bod yn drawsrywiol.

- **Gweithio tuag at achrediad Cyfeillion Dementia:** Mae bellach gan ein Rhwydwaith Cyfeillion Dementia dros 200 o gyfeillion ar draws ein sefydliad, sydd wedi codi dros £1,500 ar gyfer ymchwil i ddementia dros y flwyddyn ddiwethaf. Bellach rydym wedi dechrau gweithio tuag at achrediad Cyfeillion Dementia llawn.

- **Cyflogwr MS y Flwyddyn:** Ym mis Mai 2017, enillodd Cyfoeth Naturiol Cymru Wobr Cyflogwr Sglerosis Ymledol y Flwyddyn am gefnogi un o'n cyflogeion, gan helpu i gadw aelod gwerthfawr o staff yn y swydd mae'n dwlu arni.

Mae'r amrediad eang o astudiaethau achos rydym wedi'u dangos yma yn dangos ehangder ein gwaith ac, yn ogystal â chyfrannu at fwy nag un o'n Hamcanion Llesiant ein hunain, mae pob un ohonynt hefyd yn cyfrannu at nifer o'r Nodau Llesiant.



**Clare Pillman**
**Prif Weithredwr Dyddiad:** 13 Gorffennaf 2018

# Adroddiad Atebolrwydd

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd yn amlinellu'r prif nodweddion o sut rydym yn rheoli ein sefydliad. Yn y tudalennau canlynol, bydd ein Hadroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn egluro pwy yw ein Bwrdd a'n tîm uwch-reoli, sut maen nhw'n gweithio, a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli a'u goruchwylio'n effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Mae ein Hadroddiad Cyflogau a Staff yn disgrifio sut rydym yn ymdrin â chyflogau uwch-reolwyr ac aelodau'r Bwrdd, yn ogystal â darparu trosolwg o gyfansoddiad niferoedd ein staff.

Mae ein Hadroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol yn dwyn ynghyd gofynion ychwanegol y gofynnir amdanynt i ddangos ein hatebolrwydd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, rheoleidd-dra gwariant, a'r farn derfynol gan ein harchwilydd.

## Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr


Gwnaethom gyflogi pum cyfarwyddwr gweithredol a dau gyfarwyddwr, a'r rhain, ynghyd â'r Prif Weithredwr, oedd ein Tîm Gweithredol yn ystod 2017/18.

| Swydd | Deiliad y swydd | Hyd gwasanaeth |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr | Emyr Roberts | 1 Tachwedd 2012 – 31 Hydref 2017 |
| Prif Weithredwr | Clare Pillman | 26 Chwefror 2018 – presennol |
| Prif Weithredwr dros dro | Kevin Ingram | 1 Tachwedd 2017 – 25 Chwefror 2018 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Kevin Ingram | 1 Ebrill 2013 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu | Ceri Davies | 1 Ebrill 2013 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol dros dro Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Niall Reynolds | 1 Tachwedd 2017 – 25 Chwefror 2018 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (Gogledd a'r Canolbarth) | Tim Jones | 1 Ebrill 2013 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau (De) | Gareth O'Shea | 27 Ebrill 2015 – presennol |
| Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ddatblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl | Ashleigh Dunn | 17 Tachwedd 2014 – presennol |
| Cyfarwyddwr Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Gwybodaeth | Catherine Love (Smith gynt) | 22 Ebrill 2014 – presennol |
| Cyfarwyddwr y Portffolio Trawsnewid | Niall Reynolds | 1 Ebrill 2013 – presennol |


Mae Cofrestr Buddiannau ein Tîm Gweithredol ar gael yma.

## Rheoli ein harian


**Cyllid**
Cyfanswm ein hincwm ar gyfer y flwyddyn oedd £67 miliwn (nodyn 6 ar dudalen 80). Yn ogystal, darparodd Llywodraeth Cymru £118 miliwn o gymorth grant a grantiau eraill (Datganiad o Newidiadau Ecwiti Trethdalwyr ar dudalen 67) tuag at amrediad o ganlyniadau, a chafodd £38 miliwn o hyn ei ddyrannu i reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Yn y datganiadau ariannol, caiff cymorth grant ei ystyried yn gyfraniad gan awdurdod â rheolaeth ac nid yn ffynhonnell o incwm. Mae'r siart isod yn dangos sut y dyrannwyd cyfanswm ein cyllid.




Yn ystod 2017/18, cynyddodd ein cyllid o £174 miliwn i £185 miliwn, ac o grantiau Llywodraeth Cymru ddaeth y cynnydd mwyaf (£7 miliwn). Parhaodd ein cyllid grant craidd ar yr un lefel â'r flwyddyn ariannol flaenorol, ond rydym wedi derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau newydd ac ar gyfer y rhaglen gyfalaf ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Roedd angen cynyddu'r taliadau cyffredinol (£2 filiwn) er mwyn ariannu gwaith cyfalaf penodol ar gronfeydd dŵr trwy'r tâl tynnu dŵr – fel arall, maent wedi'u cadw ar yr un lefel arian â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Gwnaeth incwm masnachol ac incymau eraill gynyddu £3 miliwn y llynedd hefyd, yn bennaf oherwydd y farchnad bren fywiog. Dangosir hyn yn y graff isod.





**Sut y gwnaethom wario ein harian**
Cyfanswm ein gwariant oedd £192 miliwn. Gellir gweld y dadansoddiad manwl yn ôl categori gwariant yn y datganiadau ariannol, a chaiff hefyd ei ddangos isod.





Yn ystod 2017/18, cynyddodd ein gwariant o £182 miliwn i £192 miliwn. Nid gweithgareddau craidd sy'n gyfrifol am hyn. Yn hytrach, daw yn sgil gweithredu'r cynllun gwerthuso swyddi, buddsoddi mewn blaenoriaethau newydd a ariannwyd gan grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ac adeiladu cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Dangosir hyn yn y graff isod.

## Gwariant yn ôl Blwyddyn Ariannol




Mae'r graff isod yn dangos sut y gwariwyd yr arian yn ôl cyfarwyddiaeth. Cafodd 49% o'n gwariant ei wario yn ein timau gweithredu, a chafodd 21% arall ei wario yn ein timau amgylchedd, trwyddedu a chynllunio. Mae 8% ohono wedi'i gategoreiddio fel arian a reolir yn ganolog, sy'n ymwneud â symudiadau anariannol fel dibrisiad. Cafodd y 22% arall ei wario ar draws ein hadrannau gwasanaeth corfforaethol amrywiol, sydd wedi'u meincnodi yn erbyn cyrff eraill yn y sector cyhoeddus.


## Gwariant yn ôl Cyfarwyddiaeth




**Rheoli ein harian**
Yn ystod 2017/18, roedd ein cyllid gan Lywodraeth Cymru ar yr un lefel arian ag yr oedd yn ystod 2016/17. Gwnaethom hefyd ddefnyddio ein taliadau a'n hincwm masnachol wrth gyflawni ein gweithgareddau. Gwnaethom dderbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion fel lledaeniad y clefyd iechyd coed ac ymwreiddio rheolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol. Cafodd yr holl ddyraniadau i gyllidebau eu craffu a'u cymeradwyo gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Rydym hefyd wedi elwa ar farchnad fywiog tu hwnt, a chynhyrchodd ein gwerthiannau pren fwy na £19 miliwn am y tro cyntaf yn CNC.

**Edrych i'r dyfodol**
Gwnaethom lansio ein Cynllun Corfforaethol hyd at 2022, ac rydym hefyd ar fin lansio ein Strategaeth Ariannol. Cafodd hon ei llunio ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol, ac mae'n dwyn ynghyd yr holl ffactorau hysbys sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol a chynaliadwyedd Cyfoeth Naturiol Cymru hyd at 2022. Nid ydym yn tanbrisio'r cyd-destun cyffredinol yr ydym yn gweithredu o'i fewn – mae heriau sylweddol yn wynebu'r amgylchedd naturiol a ni fel sefydliad o ran sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Mae gennym amgylchedd ariannol heriol hefyd – cafodd ein cyllideb cymorth grant ar gyfer refeniw nad yw'n ymwneud â llifogydd ei leihau 5% yn ystod 2018/19, ac mae 5% arall o ostyngiad yn debygol yn ystod 2019/20.

Mae'r tabl isod yn dangos y bwlch rhwng incwm (gan gynnwys cyllid gan Lywodraeth Cymru) a gwariant cyn i ni gymryd camau i lenwi'r bwlch hwnnw.




**Asedau sefydlog**
Roedd ein hasedau sefydlog yn werth £949 miliwn ar 31 Mawrth 2018, 6% (£57 miliwn) yn fwy o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Y gydran fwyaf arwyddocaol yw gwerth yr ystad goedwigaeth ac asedau biolegol, sy'n cyfri am £784 miliwn o'r cyfanswm. Mae'n ofynnol i ni gynnal ailbrisiad annibynnol o dir rhydd-ddaliad, adeiladau a'r ystad goedwigaeth bob pum mlynedd, a bydd hwn yn cael ei gynnal nesaf yn 2020/21. Yn y blynyddoedd rhwng yr ailbrisiadau hyn, bydd ein hasedau sefydlog, pan fyddant yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, yn cael eu hailbrisio trwy'r mynegeion priodol.

**Taliadau masnachol a thaliadau eraill**
Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod, ac rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i'r targed hwn pan fo'n bosibl. 97% oedd y perfformiad ar gyfer y flwyddyn gyfan, ac roedd hyn yn welliant mawr ar y flwyddyn ariannol flaenorol (91%). Mae hyn yn helpu i leddfu llif arian busnesau yn yr hinsawdd economaidd heriol sydd ohoni.

**Perfformiad dyledwyr**
Mae ein rheolaeth effeithiol barhaus o ddyled fasnachol wedi ein galluogi i wella'r ddyled fasnachol ymhellach. Dangosir hyn trwy'r gwelliant yn nifer cyffredinol y diwrnodau yr oedd cwsmeriaid yn eu cymryd i dalu – 11 o ddiwrnodau o'i gymharu â 36 o ddiwrnodau yn ystod 2016/17. Mae ein rheolaeth o ddyled reoleiddiol hefyd wedi arwain at welliant o ran casglu dyledion – o 3.7% o’r taliadau a godwyd yn ystod 2016/17 i 2.4% yn ystod 2017/18.

Roedd gennym £226,000 o ddyled wael o ran dyledion rheoleiddiol ar 31 Mawrth 2018. Roedd hyn yn ymwneud â 45 o gwsmeriaid, gydag un cwsmer yn gyfrifol am £105,000 ohoni.

**Busnes hyfyw**
Mae'r datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018 yn dangos ecwiti trethdalwyr cadarnhaol o £911 miliwn. Bydd ein rhwymedigaethau yn y dyfodol yn cael eu hariannu gan gymorth grant Llywodraeth Cymru a chymhwysiad incwm yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth am gyllid ar gyfer 2018/19. Felly, mae'n briodol i ni fabwysiadu dull busnes hyfyw wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

**Rheoli ystadau**
Rydym yn rheoli ystad goetir gyhoeddus Cymru ar ran Gweinidogion Cymru, yn unol â'n polisi caffael a gwaredu a'n Strategaeth Fenter. Mae gennym hefyd gynlluniau coedwigaeth ar gyfer yr holl ystad, sy'n nodi sut bydd pob coedwig yn cael ei rheoli er mwyn cyflawni amcanion strategol yn ystod y deng mlynedd nesaf.

Rydym wrthi'n datblygu cynlluniau adnoddau naturiol hefyd, a fydd yn darparu cyfres o gynlluniau a strategaethau lleol a fydd yn llywio'r gwaith o reoli'r ystad a'r asedau ledled Cymru.

Mae'r holl warchodfeydd natur cenedlaethol, gan gynnwys y rhai hynny sy'n eiddo i CNC neu a reolir ganddo, y rhai a reolir trwy drefniadau partneriaeth, a'r rhai a reolir gan drydydd partïon, yn cael eu rheoli yn unol â chynllun rheoli cymeradwy. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys amcanion cadwraeth ar gyfer yr holl nodweddion buddiant cydnabyddedig ac yn nodi'r prosiectau a'r rhaglenni gwaith angenrheidiol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u gwirio gan ein tîm rheoli cadwraeth, trwy raglen dreigl o adolygiadau ac archwiliadau amgylcheddol.

**Pensiynau**
Datgelir y rhwymedigaeth pensiwn yn y Datganiadau Ariannol ar sail Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19. Mae'r rhwymedigaeth ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi gostwng o £42 miliwn i £32 miliwn yn ystod y flwyddyn.

Mae hyn yn wahanol i'r sylfaen a ddefnyddir ar gyfer cyfrifiadau cyllido. Cynhaliwyd yr ailbrisiad ffurfiol diwethaf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2016, a dangoswyd sefyllfa gyllidol gyffredinol o 103%.

**Archwilwyr**
Caiff ein cyfrifon eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2017/18 oedd £171,000. Mae hyn yn cynnwys ffi ychwanegol o £15,000 ar gyfer yr archwiliad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Data corfforaethol**
Ym mis Gorffennaf 2017, dioddefodd CNC ymosodiad gwe-rwydo soffistigedig, a beryglodd nifer bychan o gyfrifon e-bost. Nid oes gennym unrhyw dystiolaeth fod data corfforaethol wedi'i golli, ond rydym wedi cynnal ymchwiliad trylwyr i'r digwyddiad ac rydym wrthi'n rhoi cyfres o argymhellion ar waith i wella ein gwydnwch i ymosodiadau o'r fath yn y dyfodol.

**Data personol**
Roedd rhai o'r cyfrifon a beryglwyd o ganlyniad i'r ymosodiad gwe-rwydo yn ymdrin â gwybodaeth sensitif, ac er nad oes gennym dystiolaeth fod data personol wedi'i golli, penderfynwyd mai'r peth iawn i'w wneud oedd hysbysu nifer fechan iawn o gwsmeriaid o'r posibilrwydd fod eu gwybodaeth wedi'i chymryd. Gwnaethom hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y digwyddiad ac am y camau gweithredu roeddem wedi'u cymryd. Rydym wedi cynnal ymchwiliad trylwyr i'r digwyddiad ac rydym wrthi'n rhoi cyfres o argymhellion ar waith i wella ein gwydnwch i ymosodiadau o'r fath yn y dyfodol.

**Adrodd corfforaethol**
Mae'r adroddiadau blynyddol a chynlluniau canlynol hefyd ar gael ar ein gwefan:

- Cynllun Busnes 2017/18
- Dadansoddi’r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Adroddiad Blynyddol 2017/18 ar Gydraddoldeb
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2018/19
- Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg

**Adrodd amgylcheddol**
Yn ystod y blynyddoedd i ddod, rydym eisiau gosod esiampl yng Nghymru mewn meysydd sy'n cynnwys y ffordd rydym yn rheoli a defnyddio carbon, gwastraff, a dŵr a thir, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol a Chynllun Busnes. Mae adroddiad corfforaethol ar ein heffaith amgylcheddol ein hunain wedi'i gynnwys yn Atodiad 1. Rydym wedi gwneud y canlynol eleni:

- cwrdd â'n targed i leihau ein hôl troed carbon 5% o ran yr ynni a ddefnyddir mewn adeiladau a feddiennir a theithiau busnes
- cadw ein hardystiad gyda Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig am yr ystad goetir rydym yn ei rheoli ar ran Llywodraeth Cymru, yn dilyn archwiliadau a chamau dilysu allanol annibynnol
- cwblhau 67% o'r targed archwilio ar gyfer rheoli gwarchodfeydd natur cenedlaethol a sicrhau bod unrhyw gamau gwella a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith
- prynu 22 o geir sy'n cynhyrchu llai na 100g/km o allyriadau a dau gerbyd trydanol newydd



Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu          Dyddiad: 13 Gorffennaf 2018

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Mae paragraff 23 (1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu datganiad o gyfrifon bob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar ffurf croniadau, a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'r incwm a gwariant, y newidiadau yn ecwiti trethdalwyr, a'r llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.
Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, rhaid iddo wneud y canlynol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu perthnasol a nodwyd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a datgelu ac egluro unrhyw amrywiadau materol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw
- cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad oedd archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol ohoni, a chymryd pob cam i wneud ei hunan yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y dyfarniadau sydd eu hangen i bennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Mae Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, yw sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu mewn modd darbodus ac economaidd; osgoi gwastraff a gorwario; a sicrhau bod yr holl adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon ac effeithiol, fel y nodwyd yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Datganiad llywodraethu**

Mae'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu dirprwyedig ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gyfrifol am gadw system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion. Mae fy rôl hefyd yn cynnwys diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol trwy roi trefniadau priodol ar waith er mwyn llywodraethu ein materion a chyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol.

Cadarnhaf fod yr wybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn ddarlun gwir a theg o sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei swyddogaethau y flwyddyn hon. Cadarnhaf hefyd nad oes unrhyw wybodaeth heb ei chasglu wedi ei dwyn at fy sylw nac unrhyw wybodaeth yr wyf yn ymwybodol ohoni nad yw wedi ei dwyn at sylw Swyddfa Archwilio Cymru.

Disgrifir cwmpas llawn fy nghyfrifoldeb yn y Memorandwm ar gyfer Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a disgrifir cynnwys ychwanegol yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Rwyf wedi amlinellu'r canlynol er mwyn dangos sut rwyf wedi bodloni'r rôl hon:

- Strwythur llywodraethu
- Adolygiad o effeithiolrwydd
- Perfformiad y Bwrdd
- System reoli fewnol
- Fframwaith rheoli risg
- Barn archwiliad mewnol

## Ein strwythur llywodraethu

Penodir aelodau ein Bwrdd gan Weinidogion Cymru, yn unol â'r Cod Ymarfer i Benodiadau Gweinidogaethol mewn Cyrff Cyhoeddus, ac felly mae ein cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. Mae gennym 12 aelod Bwrdd ar hyn o bryd, gan gynnwys fy hunan fel aelod gweithredol o'r Bwrdd. Cawn ein harwain gan ein cadeirydd, Diane McCrea. Mae gweddill y Bwrdd wedi'i gyfansoddi o ddeg aelod anweithredol. Ni fu unrhyw newidiadau i'r penodiadau y flwyddyn hon.

Mae rôl a chyfrifoldeb y Bwrdd fel a ganlyn:

- darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol, gan hybu perfformiad a'n dwyn ni i gyfrif am gyflawni ein cynlluniau strategol a chynlluniau corfforaethol
- sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth weithredu'r corff a sicrhau y cedwir at saith egwyddor bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan)
- sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol a rheoleiddiol, gan ddilyn unrhyw ganllawiau a chyfarwyddyd a roddir gan weinidogion i wneud hynny
- bod yn hyrwyddwr ar gyfer y sefydliad a'i nodau a'i amcanion, yn ogystal â bod yn ddelfryd ymddwyn i staff a rhanddeiliaid
- gweithio'n gydweithredol i feithrin perthnasau â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, busnesau, cymunedau, a staff a'u cynrychiolwyr
- dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ar bob adeg, gan gynnwys defnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i helpu i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill

Rydym yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Arfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi. Rydym yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, gan drawsnewid ein sefydliad trwy weithredu rhaglenni Adolygu Uwch-reolwyr a Dylunio Sefydliadol. Mae gweithredu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) wedi bod yn allweddol i'n gwaith y flwyddyn hon, gyda'r Bwrdd yn goruchwylio cyhoeddiad ein Cynllun Corfforaethol newydd hyd at 2022.

Gwnaethom gynnal chwe chyfarfod deuddydd ledled Cymru y flwyddyn hon, yn ogystal â nifer o sesiynau datblygu eraill. Mae'r eitemau sefydlog ar ein hagenda yn cynnwys y canlynol: llesiant, iechyd a diogelwch; adroddiadau ar gyllid a pherfformiad yn ystod y flwyddyn; a diweddariadau strategol a gweithredol gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Pwyllgorau a Grwpiau’r Bwrdd. Er mwyn cefnogi ein hymrwymiad i weithio mewn modd sy'n agored ac yn hygyrch i bawb, rydym yn cyhoeddi amrywiaeth eang o wybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae holl ddyddiadau cyfarfodydd i ddod ac agendau, papurau a chofnodion blaenorol ar gael ar ein **gwefan**.

### Presenoldeb aelodau bwrdd

| Aelod Bwrdd | Nifer y cyfarfodydd posibl | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Diane McCrea (Cadeirydd) | 6 | 6 |
| Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd) | 6 | 6 |
| Andy Middleton | 6 | 5[1] |
| Ruth Hall | 6 | 5[1] |
| Nigel Reader | 6 | 4[2] |
| Paul Williams | 6 | 5[3] |
| Chris Blake | 6 | 6 |
| Howard C Davies | 6 | 5 |
| Elizabeth Haywood | 6 | 5 |
| Zoe Henderson | 6 | 6 |
| Karen Balmer | 6 | 5 |
| Emyr Roberts (Prif Weithredwr hyd at 31 Hydref 2017) | 3 | 3 |
| Kevin Ingram (Prif Weithredwr dros dro) | 2 | 2 |
| Clare Pillman (Prif Weithredwr o 26 Chwefror 2018) | 1 | 1 |

[1] Roedd Andy Middleton yn bresennol ar Ddiwrnod 1 a Ruth Hall yn bresennol ar Ddiwrnod 2 y cyfarfod ym mis Mawrth 2018

[2] Roedd Nigel Reader yn bresennol ar Ddiwrnod 2 o gyfarfod mis Ionawr 2018 a Diwrnod 2 o gyfarfod mis Mawrth 2018

[3] Roedd Paul Williams yn bresennol ar Ddiwrnod 2 o gyfarfod mis Medi 2017

Mae gan ein Bwrdd bedwar pwyllgor. Mae pob un yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd ac yn cynnwys o leiaf tri aelod arall o'r Bwrdd. Yn ogystal â'r tri phwyllgor ffurfiol, mae'r Bwrdd wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd sefydlog. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebu gan fod ein haelodau'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru. Adolygwyd aelodaeth pob pwyllgor ym mis Ionawr 2016, yn dilyn penodi aelodau newydd o'r Bwrdd. Mae'r cofnodion presenoldeb isod yn amlinellu aelodaeth ein pwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- Pwyllgor Pobl a Chyflogau
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw cynghori'r Bwrdd a chynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu yn y gwaith o fonitro, craffu a herio'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n mynychu pob cyfarfod, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

Y flwyddyn hon, rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sylw i amrediad o faterion, gan gynnwys y canlynol:

- Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2016/17 a'r cynlluniau ar gyfer yr adroddiad hwn ar gyfer 2017/18
- Gwaith craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2015/16, sy'n ymwneud â chontractau pren hirdymor Cyfoeth Naturiol Cymru
- Paratoadau ac adroddiadau ar gyfer archwiliadau allanol a mewnol
- Rheolaethau mewnol seiberddiogelwch

## Presenoldeb aelodau Bwrdd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

| Aelod Bwrdd | Nifer y cyfarfodydd posibl | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Ruth Hall | 5 | 4 |
| Nigel Reader | 5 | 5 |
| Chris Blake | 5 | 5 |
| Karen Balmer | 5 | 4 |
| Madeleine Havard[1] | 2 | 2 |

[1] Gwnaeth Madeleine Havard ddirprwyo mewn dau gyfarfod: un ar gyfer Ruth Hall ac un ar gyfer Karen Balmer

## Pwyllgor Pobl a Chyflogau

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau (PPAC) yn ystyried materion sy'n ymwneud â rheoli pobl, taliadau a newid sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio tâl ac amodau cyflogaeth staff ar y lefel uchaf, strategaeth dâl gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, darparu cynllun pensiwn, llesiant, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu'r Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn rhoi cyngor ar ddatblygu sefydliadol strategol, sicrhau bod strategaeth glir ar waith, cynllunio'r sefydliad mewn modd effeithiol a fforddiadwy, a rheoli mentrau newid pwysig yn effeithiol, gyda'r bwriad o sicrhau gweithlu arloesol, sy'n perfformio'n dda ac yn uchel eu cymhelliant. Mae'r pwyllgor

hefyd, ar ran y Bwrdd, yn goruchwylio'r broses o ymgorffori rhagoriaeth mewn gofal cwsmeriaid, fel elfen allweddol o ddiwylliant y sefydliad.

Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod, ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol dros Ddatblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl a'n Cyfarwyddwr Portffolio Trawsnewid.

Aeth y pwyllgor i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y canlynol:

- Cynllun gwerthuso swyddi
- Llesiant, iechyd a diogelwch
- Newidiadau i gynlluniau pensiwn
- Penodiadau a chyflogau cyfarwyddwyr

### Presenoldeb aelodau Bwrdd y PPAC

| Aelod Bwrdd | Nifer y cyfarfodydd posibl | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Paul Williams (Cadeirydd) | 4 | 4 |
| Nigel Reader | 4 | 4 |
| Zoe Henderson | 4 | 3 |
| Karen Balmer | 4 | 4 |
| Diane McCrea | 1 | 1 |
| Emyr Roberts | 2 | 2 |
| Kevin Ingram | 1 | 1 |
| Clare Pillman | 1 | 1 |

### Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol o ran gwrthwynebiadau i hysbysiadau a chanslad hysbysiadau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig (PAG). Mae aelodau'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig yn cefnogi'r tîm gweithredol a'r Bwrdd llawn hefyd trwy ddarparu cyngor ar faterion ardaloedd gwarchodedig ehangach a gwaith achos strategol.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor gadarnhad un o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd gwrthwynebiadau i'r hysbysiad nad oedd wedi'u datrys.

### Presenoldeb aelodau Bwrdd y PAG

| Aelod Bwrdd | Nifer y cyfarfodydd posibl | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Andy Middleton (Cadeirydd) | 1 | 1 |
| Madeleine Havard | 1 | 1 |
| Paul Williams | 1 | 1 |
| Howard C Davies | 1 | 1 |
| Elizabeth Haywood | 1 | 1 |

## Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd

Grŵp cynghori yw hwn ac mae'n adrodd i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Ei brif gyfrifoldebau yw craffu ar raglenni buddsoddi Rheoli Perygl Llifogydd presennol a rhai ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ac ystyried materion allweddol a allai effeithio ar gyflawni gwaith sy'n ymwneud â Rheoli Perygl Llifogydd yng Nghymru.

Mae'r grŵp yn cynnwys pedwar aelod o'r Bwrdd ynghyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, y Cyfarwyddwr Gweithredol dros Dystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, y Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau a'r Pennaeth Cyllid.

Gwnaeth y grŵp gwrdd ddwywaith yn ystod 2017/18 (Gorffennaf a Hydref), ac adolygodd y meysydd canlynol:

- blaenoriaethu gweithgareddau rheoli perygl llifogydd
- llywodraethu'r rhaglen gyfalaf ar reoli perygl llifogydd
- y cynllun tymor canolig diweddaraf ar gyfer ein rhaglen gyfalaf
- y dangosyddion perfformiad cyfredol sy'n ymwneud â chyflwr yr asedau perygl llifogydd a gedwir gan CNC
- cyfraddau a phraeseptau Ardaloedd Draenio Mewnol ar gyfer 2018/19

Gwnaeth hefyd ymweld â Chynlluniau Lleddfu Llifogydd Crindai sydd ar droed yng Nghasnewydd ar hyn o bryd.

### Presenoldeb aelodau Bwrdd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd

| Aelod Bwrdd | Nifer y cyfarfodydd posibl | Nifer y cyfarfodydd llawn a fynychwyd |
|---|---|---|
| Madeleine Havard (Cadeirydd) | 2 | 2 |
| Nigel Reader | 2 | 1 |
| Elizabeth Haywood | 2 | 2 |
| Karen Balmer | 2 | 2 |

## Grwpiau'r Bwrdd

Y tu allan i'n cyfarfodydd ffurfiol, mae aelodau o'r Bwrdd yn cyfrannu at ddatblygu strategol trwy grwpiau 'gorchwyl a gorffen', gan ddarparu cyngor yn ôl y gofyn ar feysydd gwaith penodol, e.e. ein cynllun taliadau ac adroddiadau perfformiad.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Yn ystod 2017/18, gwnaethom barhau i ddatblygu sgiliau a gwaith y Bwrdd – prif faes y mae angen i'r Bwrdd ei ddatblygu. Gan ddefnyddio gwybodaeth o arolwg effeithiolrwydd y Bwrdd, gwnaethom gynnal sesiynau gweithdy penodol a oedd yn edrych ar y prif feysydd yr oedd angen i'r Bwrdd eu datblygu. Gwnaethom newidiadau i'r ffordd y cynhelir ein cyfarfodydd Bwrdd a sut rydym yn casglu adborth ar ôl pob cyfarfod er mwyn gwella'n barhaus. Gwnaethom ailadrodd arolwg effeithiolrwydd Bwrdd a matrics aeddfedrwydd ym mis Chwefror 2018 - mae hyn wedi caniatáu i ni olrhain y tueddiadau ers yr arolwg diwethaf. Mae'r matrics aeddfedrwydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol o ran nodi meysydd pellach i'w gwella.  Ar ôl pob cyfarfod Bwrdd, cynhelir cyfarfod dal a myfyrio er mwyn nodi

gwelliannau cyflym y gallwn ni eu gwneud, ac mae'r Bwrdd bob amser yn chwilio am ffyrdd i fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni ei ddyletswyddau, ac o ran y cymorth y gall ei ddarparu i'r sefydliad a'r tîm gweithredol.

### Cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig

Mae ein strwythur, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol wedi'u gosod yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig. Mae ein harweinyddiaeth yn gyson gyda rolau a chyfrifoldebau uwch-reoli disgwyliedig; mae gweithdrefnau cefnogol ar waith i sicrhau y gall rolau'r Bwrdd weithredu'n effeithiol; mae ein llwybrau adrodd yn glir er mwyn sicrhau bod atebolrwydd a rheolaethau mewnol allweddol ar waith; caiff cyflogau eu hystyried gan weithwyr anweithredol er mwyn sicrhau annibyniaeth; ac rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'n prif randdeiliaid er mwyn cynnal perthynas waith adeiladol.

### Ein gweithrediaeth

Ein tîm gweithredol sy'n rheoli ein sefydliad o ddydd i ddydd. Rydym yn cyfarfod yn ffurfiol bob tair wythnos. Mae ein cyfarfodydd busnes yn ymdrin â materion cyfredol a materion sy'n codi, ac yn monitro perfformiad y sefydliad; mae cyfarfodydd strategaeth a pholisi'n datblygu strategaeth ar gyfer y sefydliad ac yn argymell safleoedd polisi newydd i'r Bwrdd; ac rydym yn cwrdd fel Bwrdd Rhaglen Newid i dderbyn ac ystyried diweddariadau ar y Portffolio Trawsnewid a'r Prosiect ar Gynllun y Sefydliad.

Mae gan bob cyfarwyddiaeth gynllun cyflenwi cyfarwyddiaeth, sy'n gysylltiedig â thargedau a chanlyniadau corfforaethol o fewn y cynllun busnes blynyddol. Caiff y rhain eu hadolygu bob mis gydag aelodau o'u tîm arweinyddiaeth a'u bwydo i mewn i'r dangosfwrdd perfformiad corfforaethol, a adroddir i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru deirgwaith y flwyddyn.

### Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Rydym wedi derbyn un Cyfarwyddyd Gweinidogol y flwyddyn hon. Ym mis Chwefror 2018, gwnaeth y Gweinidog dros yr Amgylchedd, ar ran ei phortffolio ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, ysgrifennu atom i gymeradwyo'r gwaith o weithredu ein cynllun Gwerthuso Swyddi, ond gydag amod penodol. Roedd y ddwy Weinidog eisiau i'r 'dyfarniad cyflog anghyfunol a gynigiwyd yn ystod 2017/18 gael ei gyfuno yn y cyflogau yn ystod 2018/19’.  Gwnaethom dderbyn y Cyfarwyddyd, ond yn ein hymateb, amcangyfrifwyd y byddai'r gost gylchol ychwanegol o £800,000 y flwyddyn yn siŵr o gyflwyno canlyniadau ariannol a goblygiadau ar gyfer ein cynlluniau gwaith yn y dyfodol, yn ogystal â'n gweithlu.

### Ein fframwaith rheoli risg

Mae ein risgiau bob dydd yn cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli ar nifer o wahanol lefelau. Mae'r tîm gweithredol yn gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol, yn unol â chyflawni amcanion strategol. Mae'r Bwrdd wedi gosod yr archwaeth risg ar gyfer y sefydliad, ac yn defnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i graffu ar ein prosesau rheoli risg, yn ogystal â'u rhannu'n risgiau a phroblemau penodol. Mae aelodau'r tîm gweithredol yn rheoli cofrestri risg y cyfarwyddiaethau, yn unol â chyflawni eu targedau a chanlyniadau yng nghynllun cyflenwi eu cyfarwyddiaeth.

Mae CNC wrthi'n datblygu'r prosesau sy'n bodoli eisoes er mwyn gweithredu newid graddol i ymwreiddio rheoli risg ym mhob rhan o'r sefydliad.  Mae'r tîm gweithredol yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o weithredu'r newidiadau, ac yn adrodd y cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Bwrdd ac er mwyn iddo graffu ar y newidiadau hyn. Ar sail dulliau arfer gorau o reoli risgiau, y prif nod yw sicrhau ein bod yn defnyddio dull gweithredu cyson o nodi, mesur, rheoli, monitro ac adrodd risgiau.

## Sicrwydd gwybodaeth

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu llywodraethu a'u rheoli'n dda, ac rydym wedi parhau i weithio tuag at gyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng didwylledd a diogelwch, gan wneud yn siŵr bod staff a chwsmeriaid yn sicr eu bod yn cael eu hamddiffyn i'r eithaf. Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn parhau i arwain rhaglen waith integredig er mwyn cryfhau ein hymateb i fygythiadau seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth a'n gwydnwch yn erbyn y rhain. Mae Prosiect Gweithredu'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) wedi llwyddo i gyflawni cydymffurfiaeth â'r rheoliadau trwy gyfres o bolisïau a chanllawiau a thrwy gyfathrebu ac ymgysylltu â staff.

## Effeithiolrwydd rheolaeth fewnol

Mae pob aelod o fy nhîm gweithredol wedi llofnodi Tystysgrif Sicrwydd ac wedi cwblhau rhestr wirio rheoli mewnol, a oedd yn gofyn iddo wneud asesiad ar sail tystiolaeth o effeithiolrwydd y fframwaith rheoli sydd ar waith ar gyfer ei gyfarwyddiaeth.

Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau'n parhau i fod yn gadarnhaol y flwyddyn hon, gydag aelodau'r tîm gweithredol yn cadarnhau bod ein fframwaith rheoli'n parhau i ddatblygu ac yn parhau i fod yn gymwys ar draws yr holl feysydd gwaith. Mae polisïau a gweithdrefnau yn parhau i gael eu cyflwyno neu eu hadolygu fel y bo angen er mwyn addasu i newidiadau allanol neu fylchau mewnol a ganfyddir. Mae cysondeb y cymhwysiad yn parhau i fod yn ofid mewn rhai meysydd – er enghraifft, rheoli gwybodaeth – gan fod prosiectau allweddol eraill, megis y cynllun sefydliadol, yn ogystal â gweithgareddau swydd dyddiol, yn parhau i gael blaenoriaeth. Mae'r uwch-reolwyr yn ymwybodol o hyn, a byddant yn ceisio gwella'r cysondeb trwy weithredu'r cynllun sefydliadol, ynghyd â rhaglen ymsefydlu ddiwygiedig y bwriedir ei chyflawni ar gyfer 2018/19.

Mae gennym bolisi a gweithdrefn adrodd twyll a chwythu'r chwiban sefydledig ar waith er mwyn lleisio pryderon difrifol ynghylch camymddygiad neu anweddustra. Mae'r polisi wedi'i adolygu hefyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystod 2017/18, ac nid oes unrhyw ddigwyddiadau chwythu'r chwiban ffurfiol wedi'u hadrodd.

Mae 14 honiad o dwyll wedi dod i law, ac ymdriniwyd â'r rhain yn unol â phroses gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth CNC. Mae'r rhain yn cael eu hadrodd i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, ac ymdriniwyd â nhw gan ddefnyddio ymchwilwyr mewnol hyfforddedig a gweithdrefnau cytunedig.

## Adroddiad archwilio

Mae ein tîm archwilio mewnol wedi cwblhau eu cynllun archwilio blynyddol, gan roi adborth rheolaidd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Dyma farn y Rheolwr Archwilio Mewnol, fel y nodwyd yn ei adroddiad sicrwydd blynyddol: "Gall Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn weddol sicr o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol ei amgylchedd rheoli mewnol, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg, ym mhob maes heblaw am lywodraethu masnachol, oherwydd mae'r lefel sicrwydd yn y maes hwn yn anfoddhaol o ganlyniad i fethiannau o ran llywodraethu a rheoli."

### Rheolaethau mewnol

Mewn ymateb i adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer o welliannau wedi'u gwneud ar draws y sefydliad er mwyn cryfhau'r rheolaethau sydd ar waith, yn enwedig o fewn yr adrannau caffael a chyfreithiol. Y flwyddyn hon, fodd bynnag, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi tynnu sylw'r rheolwyr at fethiannau arwyddocaol mewn perthynas â chontractau pren. Mae hwn, ynghyd â phedwar achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan archwiliad Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd 2017, wedi codi pryderon ynghylch effeithiolrwydd y llywodraethu, gan gynnwys absenoldeb cymhwysiad rheolaethau mewnol neu gymhwysiad gwael o'r rheolaethau hyn yn y rhan honno o'r busnes. Mewn ymateb i archwiliad Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig, mae cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith, sydd wedi caniatáu i ni gadw'r achrediad yn y tymor byr.

### Llywodraethu

Mae cryfhau'r llywodraethu'n rhan fawr o raglen y cynllun sefydliadol, a fydd yn cael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2019. Mae hon wedi'i llunio i gydnabod y bylchau a'r gwendidau yn y trefniadau presennol, gan gynnwys eglurder rolau a chyfrifoldebau byrddau, grwpiau a phwyllgorau amrywiol, craffu ar brosiectau a mentrau, ac atebolrwydd dros reoli risgiau.

### Rheoli risgiau

Er bod enghreifftiau o ddulliau diwyd o reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gweithredol penodol, nid yw rheolaeth risg ledled mentrau Cyfoeth Naturiol Cymru yn aeddfed. Mae hyn wedi'i gydnabod gan y tîm gweithredol ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

### Archwiliad allanol

Cyhoeddwyd y datganiadau ariannol ar gyfer 2015/16 a 2016/17 gyda barn amodol ar reoleidd-dra o ganlyniad i broblemau a amlygwyd wrth osod wyth contract gwerthu pren hirdymor o safon uchel. Cafodd y contractau hyn eu terfynu ar 31 Mawrth 2017, a rhoddwyd nifer o gontractau pontio ar waith i roi amser i gontractau newydd gael eu gosod ar y farchnad agored.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi problemau pellach gyda'r rheoleidd-dra o ran sut mae'r contractau newydd hyn wedi'u gosod a'u rheoli. Rydym yn derbyn y canfyddiadau a difrifoldeb y materion a godwyd. Mae adolygiad annibynnol o'r maes hwn yn cael ei gynnal, a fydd yn arwain at gynllun gweithredu cynhwysfawr, er mwyn

sicrhau na chaiff y materion hyn eu hailadrodd. Bydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn darparu gwaith craffu a goruchwylio manwl wrth fynd ymlaen.

Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2018

## Adroddiad Cyflogau a Staff (wedi'i archwilio)

### Adroddiad Cyflogau

**Polisi cyflogau**
Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Pobl a Chyflogau i ystyried materion sy'n ymwneud â chyflog ac amodau cyflogaeth y staff lefel uchaf a'r strategaeth gyflog gyffredinol ar gyfer yr holl staff a gyflogir gan CNC. Mae'r Pwyllgor Pobl a Chyflogau yn cynnwys pedwar aelod Bwrdd anweithredol. Mae cadeirydd y Bwrdd yn aelod ex officio o'r pwyllgor.

Gosodir cyflogau'r cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae telerau contract cyflogeion uwch (aelodau o'r tîm gweithredol) yn seiliedig ar delerau ac amodau CNC. Ni ellir cydfargeinio'r polisi cyflogau ar gyfer y staff ar y lefel uchaf, a gosodir y pecyn cyflog trwy gyfeirio at gyfres o rolau wedi'u meincnodi yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru ac at sefydliadau cyffelyb yn y DU. Bydd symud rhwng y pwyntiau cyflog yn unol ag asesiad o berfformiad gan y Prif Weithredwr a safoni gan y Pwyllgor Cyflogau. Yr unig fodd o symud y tu hwnt i'r pwynt meincnod yw trwy gyflawni perfformiad rhagorol yn gyson, ac asesir hyn gan y Prif Weithredwr a'i gadarnhau gan y Pwyllgor Cyflogau.

Ni chyflwynwyd cynnig cyflog i'r holl staff yn y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2016 a 30 Mehefin 2017. Cafodd ei ohirio tan fyddai ein cynllun Gwerthuso Swyddi newydd a'r strwythur cyflog a graddfeydd newydd cysylltiedig wedi'u rhoi ar waith.

Mae cytundeb partneriaeth cymdeithasol ar waith gyda phum undeb lafur, a chaiff y telerau ac amodau ar gyfer staff sydd o dan yr aelodau o'r tîm gweithredol eu gosod trwy gyd-gytundeb â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflogau, telerau ac amodau ac yn gosod cylch cyflog y mae'n rhaid i CNC eu cyflawni o'i fewn. Fel rhan o'r cynnig Gwerthuso Swyddi, cytunwyd a gweithredwyd cynnig cyflog anghyfunol o 1% ar gyfer 2017/18. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at y cyflogau o 2018/19 ymlaen.

**Contractau gwasanaeth**
Caiff yr holl benodiadau i'r Bwrdd eu gwneud ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r tîm gweithredol gael eu cyflogi o dan gontractau parhaol. Caiff penodiadau eu gwneud yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n gofyn i benodiad gael ei wneud yn ôl haeddiant ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan yr aelodau o'r tîm gweithredol a gynhwysir yn yr adroddiad hwn benodiadau penagored. Rhaid i'r swyddogion a'r aelodau Bwrdd hyn ddarparu tri mis o rybudd o'u bwriad i adael.

**Cyflog a hawliau pensiwn**
Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion cyflog aelodau'r Bwrdd a chyflogau a buddiannau pensiwn aelodau'r tîm gweithredol. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil nac i dderbyn buddiannau eraill. Pe

bai aelodaeth yn cael ei therfynu'n gynnar, am reswm heblaw am gamymddwyn, byddai'r aelod hwnnw o'r tîm gweithredol yn derbyn iawndal sy'n gyson â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau Bwrdd yr hawl i gael iawndal.

**Cyflogau aelodau Bwrdd**

| Aelod Bwrdd | Contract cyflogaeth | Cyflog 2017/18 (graddfa £5,000) | Cyflog 2016/17 (graddfa £5,000) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Karen Balmer[1,2] | 9-11-17 i 8-11-18 | 15-20 | 10-15 |
| | | | |
| Chris Blake[1] | 9-11-17 i 8-11-18 | 10-15 | 10-15 |
| | | | |
| Howard Davies[1] | 9-11-17 i 8-11-18 | 10-15 | 10-15 |
| | | | |
| Dr Ruth Hall CBE[1] | 1-11-17 i 31-10-18 | 10-15 | 10-15 |
| | | | |
| Dr Madeleine Havard[1,3] (dirprwy gadeirydd) | 1-11-17 i 31-10-18 | 15-20 | 15-20 |
| | | | |
| Elizabeth Haywood[1] | 9-11-17 i 8-11-18 | 10-15 | 10-15 |
| | | | |
| Zoë Henderson[1] | 9-11-17 i 8-11-18 | 10-15 | 10-15 |
| | | | |
| Diane McCrea (cadeirydd) MBE[4] | 1-12-15 i 30-11-18 | 40-45 | 40-45 |
| | | | |
| Andy Middleton[1,5] | 1-11-17 i 31-10-18 | 10-15 | 10-15 |
| | | | |
| Nigel Reader CBE[1,6] | 1-11-17 i 31-10-18 | 10-15 | 15-20 |
| | | | |
| Syr Paul Williams OBE[1,7] | 1-11-17 i 31-10-18 | 15-20 | 15-20 |
| | | | |

[1]Cafodd yr aelodau bwrdd hyn eu hailbenodi am flwyddyn arall. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benodi cyfarwyddwyr anweithredol neu aelodau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, a chânt eu penodi am gyfnodau amrywiol.
[2] Cafodd Karen Balmer ei phenodi fel cadeirydd o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg o 1 Medi 2017. O 1 Ebrill 2017 i 31 Awst 2017, y cyflog cyfwerth am flwyddyn gyfan yw rhwng £10,000 a £15,000. Cyflog cyfwerth cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am flwyddyn gyfan yw rhwng £15,000 ac £20,000.
[3] Madeleine Havard yw dirprwy gadeirydd y Bwrdd a chadeirydd y Grŵp Cynghori ar Reoli Perygl Llifogydd.
[4] Yn ystod 2016/17, ymrwymiad amser Diane McCrea oedd 72 o ddiwrnodau'r flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Awst 2016 a 96 o ddiwrnodau'r flwyddyn rhwng 1 Medi 2016 a 31 Mawrth 2017. Yn ystod 2017/18, ymrwymiad amser Diane McCrea rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Awst 2017 oedd 96 o ddiwrnodau, a 72 o ddiwrnodau rhwng 1 Medi 2017 a 31 Mawrth 2018. Ei chyflog cyfwerth â llawn amser, ar sail 72 o ddiwrnodau'r flwyddyn, yw rhwng £30,000 a £35,000, a rhwng £40,000 a £45,000 ar sail 96 o ddiwrnodau'r flwyddyn.
[5] Andy Middleton yw cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig.
[6] Nigel Reader oedd cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg tan 31 Awst 2017. Cyflog cyfwerth cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am flwyddyn gyfan yw rhwng £15,000 ac £20,000. O 1 Medi 2017, y cyflog cyfwerth â blwyddyn gyfan yw rhwng £10,000 a £15,000.
[7] Syr Paul Williams yw cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chyflogau a'r Grŵp Cynghori ar Drawsnewid.

## Cyflogau'r tîm gweithredol

| Aelod o'r tîm gweithredol | Cyflog (graddfa £5,000) | | Buddiannau mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn[6] (i'r £1,000 agosaf) | | Cyfanswm (graddfa £5,000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 |
| Clare Pillman[1] (Prif Weithredwr) | 10-15 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | 0 | 15-20 | 0 |
| Dr Emyr Roberts[2] (Prif Weithredwr) | 120-125 | 145-150 | 0 | 0 | (8,000) | 26,000 | 115-120 | 170-175 |
| Ceri Davies | 100-105 | 100-105 | 0 | 0 | 7,000 | 40,000 | 105-110 | 140-145 |
| Ashleigh Dunn | 90-95 | 90-95 | 0 | 0 | 36,000 | 36,000 | 125-130 | 125-130 |
| Kevin Ingram[3] | 100-105 | 95-100 | 0 | 0 | 58,000 | 36,000 | 160-165 | 130-135 |
| Tim Jones | 90-95 | 90-95 | 0 | 0 | 20,000 | 13,000 | 110-115 | 100-105 |
| Catherine Love | 75-80 | 75-80 | 0 | 0 | 30,000 | 30,000 | 105-110 | 105-110 |
| Gareth O'Shea | 90-95 | 90-95 | 0 | 0 | 24,000 | 34,000 | 115-120 | 120-125 |
| Niall Reynolds[4] | 80-85 | 75-80 | 0 | 0 | 26,000 | 26,000 | 105-110 | 100-105 |
| Clive Thomas[5] | 0 | 40-45 | 0 | 0 | 0 | 72,000 | 0 | 115-120 |

[1]Cafodd Clare Pillman ei phenodi fel Prif Weithredwr ar 26 Chwefror 2018. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw rhwng £130,000 a £135,000.
[2] Gadawodd Dr Emyr Roberts ar 31 Hydref 2017. Mae'r ffigur cyflog a adroddwyd yn cynnwys taliad o rhwng £35,000 a £40,000, a gafodd ei wneud o dan delerau cytundeb setliad. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw rhwng £145,000 a £150,000.
[3] Bu Kevin Ingram yn gweithredu fel Prif Weithredwr dros dro rhwng 1 Tachwedd 2017 a 25 Chwefror 2018, a'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod y cyfnod hwn oedd rhwng £120,000 a £125,000. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer gweddill y flwyddyn yw rhwng £95,000 a £100,000.
[4] Bu Niall Reynolds yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol rhwng 1 Tachwedd 2017 a 25 Chwefror 2018, a'r cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yn ystod y cyfnod hwn oedd rhwng £85,000 a £90,000. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer gweddill y flwyddyn yw rhwng £75,000 a £80,000.
[5] Gadawodd Clive Thomas ar 31 Hydref 2016. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2016/17 oedd rhwng £75,000 ac £80,000.
[6] Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd pensiwn gwirioneddol wedi'i luosi ag 20, a'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn. Mae'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

### Cyflog
Mae cyflog yn ymwneud â symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser, ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n gymwys o dan drethiant y DU. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad o dreuliau sydd wedi deillio'n uniongyrchol o berfformio dyletswyddau unigolyn.

### Cyflog cysylltiedig â pherfformiad
Mae'r symud rhwng pwyntiau cyflog ar gyfer y tîm gweithredol yn unol ag asesiad o berfformiad gan y Prif Weithredwr a safoni gan y Pwyllgor Pobl a Chyflogau. Yr unig fodd o symud y tu hwnt i'r pwynt meincnod yw trwy gyflawni perfformiad rhagorol yn gyson, ac asesir hyn gan y Prif Weithredwr a'i gadarnhau gan y Pwyllgor Pobl a Chyflogau.

### Buddiannau mewn nwyddau
Mae gwerth ariannol buddiannau mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y cyflogwr ac a ymdrinnir fel enillion y gellir eu trethu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r tîm gweithredol dderbyn buddiannau mewn nwyddau yn ystod 2016/17 a 2017/18.

Ni wnaeth yr un aelod o'r Bwrdd na'r uwch-staff dderbyn unrhyw daliadau eraill ar wahân i'r symiau a ddangosir uchod.

## Buddiannau pensiwn

| Aelod tîm gweithredol | Pensiwn cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/18 | Cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn fel ag yr oedd ar 31/03/18 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oed pensiwn | Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad cronnus ar oed pensiwn | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/18 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/17 | Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Clare Pillman[1] (Prif Weithredwr) | 0-5 | 0 | 0-2.5 | 0 | 21 | 17 | 3 |
| Dr Emyr Roberts[2] (Prif Weithredwr) | 65-70 | 195-200 | 0 | 0 | 1543 | 1476 | (8)[3] |
| Ceri Davies | 35-40 | 65-70 | 0-2.5 | (0-2.5) | 698 | 656 | (6)[3] |
| Ashleigh Dunn | 5-10 | 0 | 0-2.5 | 0 | 106 | 72 | 24 |
| Kevin Ingram | 30-35 | 40-45 | 2.5-5 | 0-2.5 | 442 | 380 | 29 |
| Tim Jones | 35-40 | 115-120 | 0-2.5 | 2.5-5 | 820 | 749 | 17 |
| Catherine Love | 5-10 | 0 | 0-2.5 | 0 | 67 | 48 | 12 |
| Gareth O'Shea | 40-45 | 75-80 | 0-2.5 | (0-2.5) | 672 | 619 | 8 |
| Niall Reynolds | 35-40 | 70-75 | 0-2.5 | 0-2.5 | 701 | 642 | 14 |

[1] O 26 Chwefror 2018.
[2] Hyd at 31 Hydref 2017.
[3] Gan ystyried chwyddiant, mae'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr wedi lleihau mewn termau real.

**Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**
Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar bwynt penodol o amser fel ei fod wedi'i asesu ar sail tybiaethau actwaraidd. Y buddiannau a werthusir yw'r buddiannau a gronnir gan yr aelod ac unrhyw bensiwn priod wrth gefn sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau y mae wedi'u cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth ar y cynllun pensiwn, ac nid ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef yn unig.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar gost i'w hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl i fuddiannau a ddaw yn sgil Treth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gaiff buddiannau pensiwn eu cymryd.

**Cynnydd real mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**
Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant neu gyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

**Iawndal ar gyfer colli swydd**
Gadawodd Emyr Roberts o dan delerau cytundeb setliad ar 31 Hydref 2017. Derbyniodd iawndal o rhwng £35,000 a £40,000.

**Datgelu cyflog teg**
Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr a delir fwyaf yn eu sefydliad a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad. Mae'r cyfanswm cyflog yn cynnwys cyflog a buddiannau mewn nwyddau pan fo'n berthnasol. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr na'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod.

Yn ystod 2017/18, ni wnaeth unrhyw gyflogeion (2016/17: dim) dderbyn cyflog uwch na'r cyfarwyddwr a dalwyd uchaf. Band cyflog y cyfarwyddwr a dalwyd uchaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2017/18 oedd £130,000 i £135,000 (2016/17: £145,000 i £150,000). Roedd hyn bedair gwaith yn fwy (2016/17: 5.2 gwaith yn fwy) na chyflog canolrifol y gweithlu, a oedd yn £32,090 (2016/17: £28,215). Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio o £16,835 i £64,424. Dangosir cyflogau cyfarwyddwyr yn y tabl uchod.

## Adroddiad staff

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth â llawn amser fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2018**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fesul pen** | **Cyfwerth â llawn amser** | **Fesul pen** | **Cyfwerth â llawn amser** | **Fesul pen** | **Cyfwerth â llawn amser** |
| **Pob cyflogai** | 1,221 | 1,127 | 903 | 800 | 2,124 | 1,927 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Tîm arweinyddiaeth | 15 | 15 | 7 | 6 | 22 | 21 |
| Tîm gweithredol | 4 | 4 | 4 | 4 | 8 | 8 |

**Nifer y staff fesul pen a chyfwerth â llawn amser fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2017**

| | Gwryw | | Benyw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Fesul pen** | **Cyfwerth â llawn amser** | **Fesul pen** | **Cyfwerth â llawn amser** | **Fesul pen** | **Cyfwerth â llawn amser** |
| **Pob cyflogai** | 1,190 | 1,096 | 858 | 758 | 2,048 | 1,855 |
| o'r rhain: | | | | | | |
| Tîm arweinyddiaeth | 14 | 14 | 6 | 5 | 20 | 19 |
| Tîm gweithredol | 5 | 5 | 3 | 3 | 8 | 8 |

**Nifer cyfartalog yr unigolion cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn:**

| | | 2017/18 | | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Eraill** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 1,730 | 61 | 1,791 | 1,834 |
| Staff asiantaeth a chontract | 0 | 91 | 91 | 73 |
| **Cyfanswm** | **1,730** | **152** | **1,882** | **1,907** |

Y nifer cyfartalog o staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd ar brosiectau cyfalaf oedd 104.7 (2016/17: 122.6).

**Cost staff**

| | | 2017/18 | | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| | **Staff parhaol** | **Staff eraill** | **Cyfan-swm** | **Cyfan-swm** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Taliadau a chyflogau | 54,930 | 9,375 | 64,305 | 62,051 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 5,633 | 912 | 6,545 | 5,855 |
| Costau pensiwn eraill | 11,702 | 7,040 | 18,742 | 13,260 |
| **Cyfanswm costau cyflogau net** | **72,265** | **17,327** | **89,592** | **81,166** |
| | | | | |
| **Gwariant arall ar gyfer staff** | | **Nodyn** | | |
| Costau pecyn gadael | | | 184 | 4,935 |
| Tâl gwasanaeth ychwanegol Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19 (pensiynau) | | 13 | 10,978 | 8,710 |
| Heb gostau pensiwn ymddeoliad cynnar | | | (18) | (638) |
| Heb gyfraniadau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn ystod y flwyddyn | | | (12,181) | (7,558) |
| Trosglwyddo i ddarparu Taliadau Iawndal Blynyddol | | | 0 | 78 |
| Costau staff eraill | | | 4 | 4 |
| Symudiad mewn cyflog gwyliau a gronnwyd | | | 223 | 16 |
| **Cyfanswm gwariant arall ar gyfer staff** | | | **(810)** | **5,547** |
| Heb symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf | | | (4,651) | (5,208) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **84,131** | **81,505** |

Gellir gweld manylion rhwymedigaethau pensiwn CNC yn Nodyn 13.
Mae manylion cyflogau aelodau'r Bwrdd a chyfarwyddwyr yn yr adroddiad cyflogau.
Mae'r gwasanaethau a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (gwariant arall) yn cynnwys £4.9 miliwn o wariant ar ymgynghorwyr.

**Cynlluniau pensiwn**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun agored, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n

aelod caeedig o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb derbyn cymunedol. Dangosir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn hyn isod.

**Cyfraniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**
Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr na chânt eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) - a elwir yn "Alpha". Fodd bynnag, ni all Cyfoeth Naturiol Cymru nodi ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Gwnaeth actiwari'r cynllun brisio'r PCSPS fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2012. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiynau Sifil yn:
www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/

Ar gyfer 2017/18, roedd £5,794 mil o gyfraniadau cyflogwr yn ddyledus i'r PCSPS (2016/17: £5,658 mil) ar un o bedair cyfradd rhwng oddeutu 20% a 24.5% o enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Fel arfer, mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun llawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu wedi'u gosod er mwyn talu costau'r buddiannau a gronnwyd yn ystod 2017/18, sydd i gael eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr cyfredol.

**Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid**
Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Cafodd £59 mil (2016/17: £44 mil) o gyfraniadau cyflogwr eu talu i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn seiliedig ar oedran ac yn amrywio o 8% i 14.7%. Mae cyflogwyr hefyd yn talu swm sy'n cyfateb â chyfraniadau gweithiwr cyflogedig, hyd at 3% o'i enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd £2 fil o gyfraniadau cyflogwr, 0.5% o'r cyflog pensiynadwy, yn daladwy i PCSPS er mwyn talu cost darpariaeth buddiannau cyfandaliad yn y dyfodol os bydd y cyflogeion hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen, ac ni chafodd unrhyw gyfraniadau eu talu ymlaen llaw.

**Cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (Environment Agency Pensio Fund EAPF) fel yr awdurdod gweinyddu ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Local Government Pension Scheme LGPS) trwy Capita, gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Cynllun pensiwn statudol i'r gwasanaethau cyhoeddus yw'r LGPS, sydd wedi'i ariannu ac sy'n gwneud cyfraniadau diffiniedig. Bob tair blynedd, mae'r EAPF yn prisio'r pensiwn ar y cyd ag actiwari'r cynllun. Ym mis Mawrth 2016, asesodd y prisiad fod sefyllfa ariannol yr EAPF ar lefel ariannu o 103% (2013: 90%). Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu faint bydd cyflogwyr yn cyfrannu at y gronfa yn y dyfodol.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU reoliadau yn 2016 a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gronfeydd LGPS gyfuno buddsoddiadau er mwyn gwella effeithlonrwydd. Crëwyd

Partneriaeth Bensiwn Brunel, a oedd yn cynnwys yr EAPF a naw cronfa LGPS arall, er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth hon.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gytundeb derbyn cymunedol gyda'r EAPF i gymryd rhan yn yr LGPS, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff yr hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a drosglwyddodd i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Cafodd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd o ran swyddogaethau Cymru (pensiynau mewn taliad ac aelodau gohiriedig) eu trosglwyddo hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwarantiad gan yr EAPF i'w hindemnio am unrhyw rwymedigaethau a ddaw yn sgil cyfranogiad CNC yn yr EAPF.

Cyfradd y cyfraniad cyflogwr yn ystod 2017/18 oedd 21.9% (2016/17: 21.2%). Yn ystod 2017/18, talwyd £12,181 mil o gyfraniadau cyflogwr i'r LGPS (2016/17: £7,558 mil), a oedd yn cynnwys taliad ychwanegol i leihau'r balans ar gronfa bensiwn Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 19.

**Pecynnau gadael**

| Cyfanswm nifer y pecynnau gadael yn ôl band cost: | 2017/18 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Dan 10,000 | 2 | 3 |
| £10,001 – £25,000 | 1 | 15 |
| £25,001 – £50,000 | 3 | 43 |
| £50,001 – £100,000 | 1 | 43 |
| £100,001 – £150,000 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **104** |

Cyfanswm cost yr adnoddau ar gyfer 2017/18 oedd £194,000 (2016/17: £4,885 mil)

Ni welwyd dileu swyddi gorfodol yn ystod 2017/18 a 2016/17.

Mae costau gadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Pensiynau 1972. Nid ymdriniwyd ag un pecyn gadael o dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil yn ystod 2017/18. Cyfrifir costau gadael yn llawn yn y flwyddyn y cânt eu cytuno.

Pan gytunodd y cyrff etifeddol ar ymddeoliadau cynnar, cyfrifwyd y costau yn llawn yn y flwyddyn y cawsant eu cytuno, a chafodd darpariaethau eu gwneud ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol. Dengys y taliadau iawndal blynyddol o ran y rhain yn Nodyn 12 (Darpariaethau).

Mae'r cynlluniau pensiwn yn talu am gostau ymddeoliad oherwydd salwch, ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

**Absenoldeb oherwydd salwch (nad yw'n cael ei archwilio)**
Dangosodd cyfradd ein habsenoldebau salwch ar gyfer y flwyddyn dreigl (rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018) y collodd pob cyflogai 7.3 o ddiwrnodau ar

gyfartaledd, sy'n cyfateb i 3.3%. Roedd hyn yn erbyn targed o golli hyd at saith diwrnod ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i 3.1% o ddiwrnodau gwaith sydd ar gael.

**Polisïau anabledd (nad ydynt yn cael eu harchwilio)**
Yn ystod 2017/18, parhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru â'n gwaith ar yr agenda anabledd. Ym mis Awst 2016, gwnaethom ennill statws Cyflogwr Anabledd Hyderus, a ddisodlodd y Cynllun Tic Dwbl. Rydym yn sicrhau cyfweliad i ymgeiswyr swyddi sy'n datgan anabledd ac sy'n bodloni'r meini prawf lleiaf ar gyfer y swydd, ac rydym yn cydymffurfio 100% â'r ymrwymiad hwn.

Mae gennym rwydwaith staff gweithredol, sef y Grŵp Defnyddwyr a Gynorthwyir, sy'n cynnig cyngor a barn ar faterion TG a theleffoni cyfredol a newydd i aelodau o'r staff sydd wedi cael addasiadau rhesymol wedi'u gwneud i'w gweithfannau. Rydym wedi canfod bod y grŵp hwn yn arbennig o ddefnyddiol oherwydd ei allu i brofi mentrau newydd, fel hygyrchedd ein harolygon staff a letyir yn allanol.

Gan fod gennym weithlu sy'n heneiddio, mae'n bwysig i ni ein bod yn adnabod ac yn cefnogi pobl sy'n dioddef o ddementia, ac rydym yn parhau i weithio'n agos â Chymdeithas Alzheimer Cymru er mwyn ennill achrediad yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Mae gennym amcanion cyfeillgar i ddementia yn ein Cynllun Gweithredu Anghydraddoldebau ar gyfer 2018/19.

Y tu allan i'r sefydliad, rydym yn weithredol ar yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ac rydym yn sicrhau bod lleisiau pobl anabl, ynghyd â phob nodwedd warchodedig arall, yn cael eu clywed, bod rhywun yn gwrando arnynt, a bod eu safbwyntiau'n cael sylw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch i bawb.

**Materion cyflogeion eraill (nad ydynt yn cael eu harchwilio)**
Yn ystod 2017/18, gwnaethom orffen ein hymgynghoriad ar ein Cynllun Gwerthuso Swyddi newydd. Mae cryn dipyn o fuddsoddiad wedi mynd i mewn i hwn ac, am y tro cyntaf, mae'n alinio cyflogau a graddau cyflog pob aelod o CNC. Buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r undebau llafur i ddod â'r cynllun hwn i ben.

**Contractau cyflogaeth oddi ar y gyflogres (nad ydynt yn cael eu harchwilio)**
Yn ystod 2012, cyhoeddodd y Trysorlys adolygiad o drefniadau trethu penodeion yn y sector cyhoeddus er mwyn pennu i ba raddau gallai'r trefniadau ganiatáu i

benodeion y sector cyhoeddus dalu llai o drethi. Daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- Rhaid i'r staff uchaf fod ar y gyflogres, heblaw bod amgylchiadau eithriadol dros dro a fyddai'n gofyn am gadarnhad y Swyddog Cyfrifyddu, ac ni allai hwnnw bara am fwy na chwe mis.
- Rhaid i adrannau (a'u cyrff hyd braich) allu gofyn am sicrwydd ffurfiol gan gontractwyr, pan fydd trefniadau oddi ar y gyflogres yn para am fwy na chwe mis ac yn costio mwy na £245 y diwrnod, fod ymrwymiadau treth incwm ac yswiriant gwladol yn cael eu cyflawni. Os na ellir darparu'r sicrwydd hwnnw, dylid terfynu contractau.
- Fel rhan o'u Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol, rhaid i adrannau (a'u cyrff hyd braich) adrodd i'r Senedd ar ganlyniad cymhwyso'r egwyddorion uchod.

Mae'r tablau canlynol yn dangos ein sefyllfa o ran y casgliadau hyn.

| Ar gyfer pob contract cyflogaeth oddi ar y gyflogres fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2018, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n para am fwy na chwe mis | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| Cyfanswm y contractau cyflogaeth cyfredol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2018 | 64 |
| o'r rhain: | |
| Y nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd | 34 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd | 15 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd | 5 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd | 7 |
| Y nifer sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu ragor ar adeg adrodd | 3 |

| Ar gyfer pob contract cyflogaeth newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai hynny sydd wedi cyrraedd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, am fwy na £245 y diwrnod ac sy'n para am hirach na chwe mis | Nifer y contractwyr |
|---|---|
| Nifer y contractau cyflogaeth newydd, neu'r rhai hynny a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, yn ystod y cyfnod hwn | 9 |
| Nifer y contractau cyflogaeth hyn sy'n cynnwys cymalau contractiol sy'n rhoi'r hawl i'r adran ofyn am sicrwydd o ran ymrwymiadau treth incwm ac yswiriant gwladol | 9 |
| Y nifer yr holwyd am sicrwydd | 9 |
| o'r rhain | |
| • Y nifer yr holwyd am sicrwydd a gyflwynodd sicrwydd | 9 |
| • Y nifer yr holwyd am sicrwydd ond na gyflwynodd sicrwydd | 0 |
| Y nifer a derfynwyd o ganlyniad i fethu â darparu sicrwydd | 0 |

## Adroddiad Seneddol ac Archwilio (wedi'i archwilio)

**Colledion a thaliadau arbennig**
Mae rheolau Rheoli Arian Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn gofyn i ni ddatgelu colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori, math a gwerth pan fydd eu cyfanswm yn fwy na £300,000 ac unrhyw eitemau unigol sy'n werth £300,000 neu ragor.

**Colledion unigol o £300,000 neu ragor**
Cafodd taliad o £300,000 ei wneud fel setliad ar gyfer hawliad o golled ariannol o ganlyniad i newidiadau trwyddedu a roddwyd ar waith o dan y rhaglen Adfer Tynnu Dŵr Cynaliadwy.

**Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori**
Mae'r tabl isod yn nodi nifer y ceisiadau am ddiddymu taliadau a thaliadau arbennig a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

| Categori neu fath o golled | 2017/18 Nifer | 2017/18 £'000 | 2016/17 Nifer | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Diddymu dyledion na ellir eu hadennill | 72 | 67 | 59 | 107 |
| Diddymu'r Prosiect Cymunedau a Natur | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Asedau a gollwyd | 20 | 48 | 6 | 66 |
| Colledion eraill (colledion ariannol, taliadau ofer, hawliadau na ellir eu gorfodi, neu anrhegion) | 13 | 30 | 6 | 89 |
| Taliadau arbennig[1] | 9 | 745 | 9 | 825 |
| **Cyfanswm** | **114** | **890** | **80** | **1,087** |

[1] Cyfeiriwch at 'iawndal ar gyfer colli swydd' yn yr Adroddiad Cyflogau a Staff am fanylion un o'r taliadau arbennig.



Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2018

# Tystysgrif ac Adroddiad Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol**

### Barn

Rwy’n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan baragraff 23 yr Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a amlinellir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi cael ei gymhwyso wrth eu paratoi yw’r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi, sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Yn fy marn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018, ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben y pryd hwnnw
- wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012

### Sail fy marn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio'n ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer yr archwiliad yn adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwyf yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm gwaith o archwilio datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth rwyf wedi'i chasglu ar gyfer yr archwiliad yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â’r materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol imi gyflwyno adroddiad ichi amdanynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol dros allu’r corff i barhau i ddefnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o’r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi’r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Y swyddog cyfrifyddu sy'n gyfrifol am wybodaeth arall yn yr adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn perthynas â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr holl wybodaeth arall i nodi unrhyw anghysondebau perthnasol yn y datganiadau ariannol archwiliedig, ac i nodi unrhyw wybodaeth sydd i'w gweld yn anghywir mewn modd perthnasol yn seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad, neu sy'n anghyson mewn modd perthnasol â'r wybodaeth a gafwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn gymwys ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ar wahân i effeithiau posibl y materion a ddisgrifir isod yn y paragraffau 'Sail barn gymwys ar reoleidd-dra', mewn pob ffordd berthnasol mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Sail barn gymwys ar reoleidd-dra

Mae Nodyn 6 y datganiadau ariannol yn cofnodi incwm o bren o £19.5 miliwn yn 2017–18 (£16 miliwn yn 2016–17).

Bu imi oleddfu fy marn ar reoleidd-dra ar gyfer 2015–16 a 2016–17 mewn perthynas â dyfarnu cyfres o wyth contract gwerthu pren rhyng-gysylltiedig. Cafodd y contractau hyn eu terfynu ar 31 Mawrth 2017 a gosodwyd 59 o gontractau gwerthu pren gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2017–18 i reoli ei broses o adael yr wyth contract. Yn 2017–18, bu i Cyfoeth Naturiol Cymru dderbyn £2.8 miliwn o incwm o bren mewn perthynas â'r 59 o gontractau gwerthu pren hyn.

Rwyf wedi goleddfu fy marn ar reoleidd-dra ar gyfer 2017–18 mewn perthynas â dyfarnu'r 59 o gontractau gwerthu pren fel a ganlyn:

Wrth osod y 59 o gontractau gwerthu pren, bu i Cyfoeth Naturiol Cymru fethu â dangos rheswm da dros wyro oddi wrth ei bolisi ei hun o werthu pren ar y farchnad agored. Hefyd, ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ddogfennu'n gywir y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu'r contractau trosiannol yn gyffredinol, na'r broses o wneud penderfyniad ynghylch y cyfaint trosiannol yn benodol. O ganlyniad, rwy'n teimlo cryn ansicrwydd ynghylch a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus ac rwyf wedi goleddfu fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

O dan fframwaith awdurdod Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n ofynnol atgyfeirio unrhyw weithgareddau sydd i'w gweld yn newydd, yn gynhennus a/neu ag ôl-effeithiau i'w adran noddi o fewn Llywodraeth Cymru. Ni wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru atgyfeirio ei benderfyniad i osod y 59 o gontractau gwerthu pren, sydd, yn fy marn i, yn

newydd, yn gynhennus a/neu ag ôl-effeithiau, i'w adran noddi. Hefyd, ni chafodd 13 o'r contractau eu hawdurdodi yn unol â Chynllun Dirprwyo Cyfoeth Naturiol Cymru. Felly, rwy'n ystyried y trafodion sy'n gysylltiedig â'r contractau hyn yn anghyfreithlon ac wedi goleddfu fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried pris y farchnad am y pren a oedd yn cael ei werthu o fewn y 59 o gontractau gwerthu pren pan oedd yn gwneud penderfyniad ynghylch prisiau'r contract. Felly, mae gennyf gryn ansicrwydd ynghylch a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gydymffurfio â gofynion ei orchymyn sefydlu ei hun a rheolau cymorth gwladwriaethol, ac rwyf wedi goleddfu fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

Mae manylion pellach ynglŷn â'r materion hyn yn cael eu hamlinellu yn fy adroddiad cysylltiedig ar dudalennau 59–62.

**Adroddiad ar ofynion eraill**

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae rhan yr  Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r adroddiad a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad Blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru

**Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth ynglŷn â'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn cyflwyno adroddiad ichi amdanynt os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad yw gwybodaeth a amlinellir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â thaliadau cydnabyddiaeth a thrafodion eraill yn cael ei datgelu.

Ar wahân i wybodaeth mewn perthynas â'r trafodion eraill y cyfeiriwyd atynt yn y paragraffau 'Sail barn gymwys ar reoleidd-dra', rwyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Gorchymyn Corff Adnoddau Cymru (Sefydlu) 2012, a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru o dan y gorchymyn hwnnw, ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyfrifyddu i alluogi'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n berthnasol materion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni yr ystyrir hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'm hadroddiad archwilydd.

### Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Rwy'n casglu digon o wybodaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
16 Gorffennaf 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

*Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.*

*Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi eu gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan am y tro cyntaf.*

## Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru
## Contractau gwerthu pren

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd at ddibenion sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn:
   - cael eu cynnal mewn modd cynaliadwy
   - cael eu gwella mewn modd cynaliadwy
   - cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy [1]
2. Daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn weithredol ar 1 Ebrill 2013, gan dderbyn y cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru gynt.
3. O dan baragraff 23 Atodlen 1 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol (Sefydlu) 2012 (y 'Gorchymyn Sefydlu'), mae'n ofynnol imi archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiad cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae fy nhystysgrif archwilio ar dudalennau 55–58 yn cynnwys fy marn fod y datganiadau ariannol yn rhoi 'darlun cywir a theg'.
4. Mae hefyd yn cynnwys fy marn ar 'reoleidd-dra', h.y. fy marn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm a ddangosir yn y cyfrifon wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Rydym wedi goleddfu fy marn ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015–16 a 2016–17 yn seiliedig ar y ffaith nad oedd wyth contract gwerthu pren rhyng-gysylltiedig gyda gweithredwr melin lifio (y gweithredwr melin lifio) yn cydymffurfio â'r fframwaith awdurdod roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu dano. Hefyd, yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'i broses gwneud penderfyniadau, nid oeddwn chwaith yn gallu bod yn fodlon fod y penderfyniad i gytuno ar y contractau hynny'n gyfreithiol ac nad oedd yn gyfartal â rhoi cymorth gwladwriaethol.
5. Eleni, rwyf wedi goleddfu fy marn ar reoleidd-dra ar gyfer cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–18. Mae hyn yn ymwneud â Cyfoeth Naturiol Cymru yn dyfarnu 59 o gontractau gwerthu pren newydd i'r gweithredwr melin lifio, cwmni cynaeafu pren mae'r gweithredwr melin lifio'n berchen arno a chwmni cynaeafu pren arall. Mae'r rhesymau dros fy ngoleddfu wedi'u hamlinellu ym mharagraff 13.

### Cefndir

6. Ym mis Mai 2014, cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â'r gweithredwr melin lifio. Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ymwneud ag wyth contract gwerthu pren tymor hir rhyng-gysylltiedig.

[1] Bu i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddiwygio diben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru i'r canlynol: 'Rhaid i'r corff geisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy mewn perthynas â Chymru, a chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'u cyflawni mewn modd priodol.'

7. O dan delerau ac amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (a gafodd eu hadlewyrchu yn rhai o'r contractau hefyd, ond nid pob un), cytunodd y gweithredwr melin lifio i adeiladu a gweithredu llinell lifio newydd yn ei felin lifio erbyn 31 Mawrth 2016 (cafodd y dyddiad hwn ei estyn trwy gytundeb wedi hynny i 31 Mawrth 2017). O dan delerau ac amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, pe na bai'r llinell lifio newydd wedi cael ei hadeiladu ac yn cael ei gweithredu erbyn y dyddiad hwn, byddai'r contractau'n cael eu diddymu. Ym mis Chwefror 2017, dywedodd y gweithredwr melin lifio nad oedd yn bwriadu adeiladu'r llinell lifio newydd.
8. Ym mis Mawrth 2017, dechreuodd Cyfoeth Naturiol Cymru drafodaethau â'r gweithredwr melin lifio gyda'r nod o roi trefniadau contract trosiannol ar waith i ddod i rym ar 31 Mawrth 2017, pan ddaeth y contractau tymor hir i ben. Y bwriad oedd cynnig contractau tymor byr i'r gweithredwr melin lifio i gynnwys y cyfnod trosiannol rhwng terfynu'r contractau tymor hir a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailfasnachu cyfaint y pren yn y contractau tymor hir a oedd wedi cael eu terfynu. Byddai'r contractau newydd hyn yn cael eu dyfarnu heb geisio cystadleuaeth gan y farchnad.
9. Erbyn 31 Mawrth 2017, daeth Cyfoeth Naturiol Cymru i gytundeb mewn egwyddor gyda'r gweithredwr melin lifio. Fodd bynnag, ar y dyddiad hwnnw, cysylltwyd â Cyfoeth Naturiol Cymru gan gwmni cynaeafu pren a oedd wedi gweithredu fel asiant cynaeafu ar y contractau tymor hir a oedd wedi cael eu terfynu (y cwmni cynaeafu pren). Gofynnodd y cwmni cynaeafu pren, sy'n sefydliad hollol ar wahân i'r gweithredwr melin lifio, i gael ei gynnwys yn y trefniadau contract a fyddai'n cael eu rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2017. Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru i ddyfarnu rhai o'r contractau trosiannol i'r cwmni cynaeafu pren.
10. Daeth y contractau tymor hir i ben ar 31 Mawrth 2017, ac yn ystod 2017–18 cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 59 o gontractau trosiannol. Cafodd 21 o'r contractau trosiannol eu dyfarnu i'r gweithredwr melin lifio (a chwmni cynaeafu pren y mae'n berchen arno).

    Dyfarnwyd y 38 o gontractau eraill i'r cwmni cynaeafu pren.
11. Mae datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–18 yn cofnodi i Cyfoeth Naturiol Cymru dderbyn incwm o £2.76 miliwn mewn perthynas â'r 59 o gontractau trosiannol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhagweld y bydd yn derbyn £0.18 miliwn arall yn 2018–19. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli pris gwerthu'r pren ar ôl i gostau contractwyr am gynaeafu a chludo gael eu tynnu.

## Casgliadau

12. Wrth archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–18, bûm yn ystyried rheoleidd-dra'r trafodion yn y cyfrifon hynny mewn perthynas â'r contractau trosiannol. Mae gennyf amheuaeth ynghylch a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu yn unol â'i ddyletswyddau statudol, egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheolau cymorth gwladwriaethol wrth ddyfarnu 59 o gontractau gwerthu pren i dri chontractwr yn 2017–18. O ganlyniad, nid wyf yn gallu cadarnhau'n bendant fod y trafodion yn natganiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–18 yn cydymffurfio â fframwaith yr awdurdod sy'n eu rheoli. Felly, rwyf wedi goleddfu fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

13. Mae fy rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn fel a ganlyn:

- Er mwyn i benderfyniad gan gorff cyhoeddus fod yn gyfreithlon, mae'n rhaid ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Rhaid i gyrff cyhoeddus (a) ystyried a (b) dilyn y polisïau perthnasol, oni bai fod ganddynt reswm da dros wyro oddi wrthynt. O leiaf, mae'n rhaid eu bod wedi datgan rhesymau clir dros y gwyriadau. Bu i Cyfoeth Naturiol Cymru wyro oddi wrth ei bolisi ei hun, fel y'i hamlinellir yn y Cynllun Masnachu Pren a gyhoeddwyd ganddo ar gyfer 2017–22, pan gytunodd ar 59 o gontractau gwerthu pren heb farchnata'r pren ar y farchnad agored. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llwyddo i ddangos bod ganddo reswm da dros wyro oddi wrth ei bolisi datganedig.
- Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl ffactorau perthnasol a diystyru’r holl ffactorau amherthnasol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau. Un ffordd mae cyrff cyhoeddus yn gallu dangos eu bod wedi cydymffurfio â'r egwyddor hon yw trwy ddogfennu'n llawn yr holl ffactorau maent wedi'u hystyried. Bu i Cyfoeth Naturiol Cymru fethu dogfennu'n briodol y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu'r contractau trosiannol yn gyffredinol, a'r broses o wneud penderfyniad ynghylch y cyfaint trosiannol yn benodol. Mae hyn yn golygu bod gennyf bellach gryn ansicrwydd ynghylch a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried yr holl ffactorau perthnasol a diystyru'r holl ffactorau amherthnasol.
- Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gydymffurfio â'i Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sydd gyda'i gilydd yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru atgyfeirio unrhyw gynigion newydd, cynhennus a/neu ag ôl-effeithiau i Lywodraeth Cymru. Rwyf o'r farn fod y cynnig i gytuno ar y contractau trosiannol yn newydd, yn gynhennus a/neu ag ôl-effeithiau. Cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y contractau trosiannol heb wneud atgyfeiriad i Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad rwyf o'r farn na fodlonodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gofyniad hwn.
- Bu i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wneud Cynllun Dirprwyo o dan ddarpariaethau Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y Gorchymyn). Mae’r Cynllun Dirprwyo hwn yn rhoi pwerau dirprwyedig i ddeiliaid swydd penodol Cyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ar gontractau gwerthu pren ar ei ran. Ni chafodd 13 o'r contractau trosiannol eu hawdurdodi yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, ac felly rwyf o'r farn na chytunwyd arnynt yn gyfreithlon.
- Mae Erthygl 8 y Gorchymyn yn dweud, wrth ystyried a ddylid arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddo gan neu o dan unrhyw ddeddfiad, fod yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried costau a manteision tebygol arfer neu beidio ag arfer y pŵer hwnnw. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried pris y farchnad am y pren a oedd yn cael ei werthu o fewn y contractau trosiannol wrth wneud penderfyniad ynghylch prisiau'r contract. O ganlyniad, nid wyf yn

fodlon i Cyfoeth Naturiol Cymru gydymffurfio ag Erthygl 8 y Gorchymyn, nac ystyried yr holl ffactorau perthnasol pan oedd yn gwneud ei benderfyniadau.

- Mae'n ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol. Rwyf o'r farn na ddilynodd Cyfoeth Naturiol Cymru weithdrefnau priodol i fodloni ei hun fod ei weithgareddau'n cydymffurfio â rheolau cymorth gwladwriaethol pan gytunodd ar y contractau trosiannol. Ni cheisiodd sicrwydd fod y prisiau yn y contractau ar brisiau'r farchnad, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun wedi cyfaddef na wnaeth ystyried ei gyngor cyfreithiol ei hun, a oedd wedi tynnu sylw at risg y gallai'r trefniadau trosiannol fod â goblygiadau o ran cymorth gwladwriaethol.

14. Er bod fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–18 yn canolbwyntio ar y materion mewn perthynas â rheoleidd-dra sy'n cael eu hamlinellu ym mharagraff 10, yn fy marn i mae gwersi ehangach y mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru eu dysgu.

15. Ym mis Chwefror 2017, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn wynebu sefyllfa lle y byddai contractau pren sylweddol iawn yn dod i ben erbyn diwedd mis Mawrth 2017. Roedd angen trefniadau eraill i sicrhau na fyddai’r contractau hyn yn dod i ben yn cael effaith andwyol ar broseswyr a chwsmeriaid pren, yn ogystal ag incwm Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun. Roedd yn rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu’n gyflym, ond, wrth ruthro, ni ddilynodd brosesau dyledus ac anwybyddodd egwyddorion llywodraethu da. Daeth fy archwiliad i'r casgliad:

- bod y gwaith o ddogfennu'r broses gwneud penderfyniadau yn hollol annigonol
- ei bod yn aneglur pwy oedd wedi gwneud y penderfyniadau a beth oedd y sail resymegol ar gyfer y penderfyniadau hynny
- bod gweithrediadau contractiol yn dechrau cyn i gontractau ysgrifenedig gael eu llofnodi
- bod cyfathrebiadau mewn perthynas â'r trefniadau trosiannol, yn fewnol ac â Llywodraeth Cymru, yn anghyflawn ac ar rai adegau yn anghywir
- bod y cynnig i gytuno ar drefniadau trosiannol yn sylweddol ac o bosibl yn gynhennus ond nid oedd yn destun proses graffu briodol Hefyd, ni wnaed unrhyw adroddiadau i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru na'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg mewn perthynas â'r mater hwn.

16. Pan adroddais ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015–16, roedd gennyf bryder nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru i'w weld pe bai'n llawn dderbyn fy meirniadaeth o'i weithredoedd a’i fod yn ceisio bychanu ei harwyddocâd. Mae'r ffaith fod y problemau a godwyd yn fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017–18 yn debyg i'r rhai yn fy adroddiad ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015–16 wedi cadarnhau na roddodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw dyledus i ganfyddiadau fy adroddiad 2015–16.

17. Fodd bynnag, rwyf wedi cael fy nghalonogi gan y ffaith fod ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru, pan hysbysodd fy archwilwyr ynghylch canfyddiadau cychwynnol yr archwiliad hwn, yn gadarnhaol, bod difrifoldeb y materion a godwyd yn cael ei dderbyn, a bod ymrwymiad i sicrhau bod camau cadarn yn

cael eu cymryd i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu gwella a bod problemau diwylliannol ac ymddygiadol yn derbyn sylw.

18. Nid wyf wedi ceisio dod i gasgliad ynghylch a oedd y contractau y cytunwyd arnynt gan Cyfoeth Naturiol Cymru
yn 2017–18 yn rhoi gwerth am arian. Nid yw archwiliad o'r fath i werth am arian yn rhan o fy archwiliad ariannol o'r datganiadau ariannol, sy'n cael ei gynnal yn unol â deddfwriaeth a safonau archwilio'r DU a bennir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.
19. Rydym wedi darparu memorandwm ategol i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gyda manylion pellach ynghylch y rhesymau dros imi oleddfu fy marn ar reoleidd-dra ar gyfer datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru 2017–18.

# DATGANIADAU ARIANNOL
# a
# NODIADAU AR Y CYFRIFON

## ar gyfer 2017/18

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr
### Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 2017/18 £'000 | 2016/17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Costau staff | 3 | 84,131 | 81,505 |
| Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn | 4 | 23,599 | 19,402 |
| Gwariant arall | 5 | 84,280 | 81,344 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | 192,010 | 182,251 |
| Incwm taliadau | 6 | (37,597) | (36,065) |
| Incwm masnachol ac arall | 6 | (27,986) | (25,147) |
| Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall | 6 | (890) | (1,681) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | (66,473) | (62,893) |
| **Gwariant gweithredu net** | | **125,537** | **119,358** |
| Cyllido asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 13.3 | 1,088 | 1,651 |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **126,625** | **121,009** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Ailfesuriadau actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | 13.3 | (9,848) | (6,657) |
| **Ailbrisio** | | | |
| Enillion net ar ailbrisio | | (10,656) | (5,356) |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **106,121** | **108,996** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 101 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

**Ar 31 Mawrth 2018**

| | Nodyn | 31 Mawrth 2018 £'000 | *Ailddatganwyd 31 Mawrth 2017 £'000 | *Ailddatganwyd 1 Ebrill 2016 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau tymor hir** | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7.1 | 814,430 | 764,935 | 745,211 |
| Asedau treftadaeth | 7.1 | 6,432 | 6,432 | 6,432 |
| Asedau biolegol | 7.1 | 113,125 | 105,643 | 102,450 |
| Asedau anniriaethol | 7.2 | 14,809 | 14,939 | 13,340 |
| Asedau ariannol | | 95 | 140 | 140 |
| **Cyfanswm asedau tymor hir** | | 948,891 | 892,089 | 867,573 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Asedau a ddelir i'w gwerthu | | 451 | 938 | 180 |
| Rhestrau eiddo | | 798 | 805 | 759 |
| Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill | 9 | 13,821 | 12,249 | 16,496 |
| Arian parod ac arian parod cyfatebol | 10 | 43,539 | 26,801 | 22,735 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | 58,609 | 40,793 | 40,170 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **1,007,500** | **932,882** | **907,743** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | |
| Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill | 11 | (22,970) | (14,484) | (19,568) |
| Darpariaethau | 12 | (1,227) | (823) | (1,582) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | (24,197) | (15,307) | (21,150) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **983,303** | **917,575** | **886,593** |
| **Rhwymedigaethau tymor hir** | | | | |
| Rhwymedigaethau pensiwn | 13.3 | (32,484) | (42,465) | (46,957) |
| Rhwymedigaethau ariannol | 8 | (39,992) | (39,998) | (39,991) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau tymor hir** | | (72,476) | (82,463) | (86,948) |
| **Asedau llai rhwymedigaethau** | | **910,827** | **835,112** | **799,645** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill** | | | | |
| Cronfa gyffredinol | DoNET | 216,830 | 203,289 | 197,532 |
| Cronfa ailbrisio | DoNET | 726,481 | 674,288 | 649,070 |
| Cronfa pensiynau | DoNET | (32,484) | (42,465) | (46,957) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **910,827** | **835,112** | **799,645** |

* Fe ailddatganwyd y sefyllfa ariannol ar 31ain Mawrth 2017 a 1af Ebrill 2016 i adlewyrchu newid i'r gwerth a roddwyd ar yr ystâd goedwig. Ceir manylion ar yr ailddatganiad yn Nodyn 1.10

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 101 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Clare Pillman
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 13 Gorffennaf 2018

## Datganiad o lif arian

### Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | DoWNC | (125,537) | (119,358) |
| Addasiad ar gyfer trafodion anariannol | | 22,568 | 19,344 |
| (Cynnydd) / Gostyngiad mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill | 9 | (1,612) | 4,310 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill | 11 | 7,921 | (5,077) |
| Gostyngiad mewn darpariaethau | 12 | (149) | (132) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(96,809)** | **(100,913)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 7.1 | (3,386) | (3,218) |
| Prynu asedau anniriaethol | 7.2 | (2,526) | (4,042) |
| Elw ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | 1,086 | 1,165 |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(4,826)** | **(6,095)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | DoNET | 118,373 | 111,074 |
| **Ariannu net** | | **118,373** | **111,074** |
| **Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerthoedd arian yn y cyfnod** | | **16,738** | **4,066** |
| **Arian parod chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod** | | **26,801** | **22,735** |
| **Arian parod a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod** | 10 | **43,539** | **26,801** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 101 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

## Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

| | Cronfa gyffredinol | Cronfa ailbrisio | Cronfa pensiynau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans agoriadol (Ailddatganwyd)** | **203,289** | **674,288** | **(42,465)** | **835,112** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (106,121) | 0 | 0 | **(106,121)** |
| **Symudiad o fewn y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | 0 | 63,463 | 0 | **63,463** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 11,270 | (11,270) | 0 | **0** |
| Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (9,848) | 0 | 9,848 | **0** |
| Gostyngiad mewn rhwymedigaeth pensiwn | (133) | 0 | 133 | **0** |
| **Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn** | **1,289** | **52,193** | **9,981** | **63,463** |
| **Ariannu** | | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | 118,373 | 0 | 0 | **118,373** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **216,830** | **726,481** | **(32,484)** | **910,827** |

Cronfa gyffredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronnus y gwariant net a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.
Cronfa ailbrisio - yn adlewyrchu balans cronnol ailbrisio a mynegeio asedau tymor hir.
Cronfa bensiwn - yn adlewyrchu sefyllfa gronnus rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 72 i 101 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 (Ailddatganwyd)

| | Cronfa gyffredinol | Cronfa ailbrisio | Cronfa pensiynau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans agoriadol** | **197,532** | **655,860** | **(46,957)** | **806,435** |
| Cywiriad i'r balans agoriadol | 0 | (6,790) | 0 | **(6,790)** |
| **Balans agoriadol (Ailddatganwyd)** | **197,532** | **649,070** | **(46,957)** | **799,645** |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (108,996) | 0 | 0 | **(108,996)** |
| **Symudiad o fewn y flwyddyn** | | | | |
| Ailbrisiad yn y flwyddyn | 0 | 33,349 | 0 | **33,349** |
| Cywiriad i ailbrisiad yn y flwyddyn | 0 | 40 | 0 | **40** |
| Ailbrisiad a wireddwyd | 8,171 | (8,171) | 0 | **0** |
| Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn | (6,657) | 0 | 6,657 | **0** |
| Cynnydd mewn rhwymedigaeth pensiwn | 2,165 | 0 | (2,165) | **0** |
| **Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn** | **3,679** | **25,218** | **4,492** | **33,389** |
| **Ariannu** | | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | 111,074 | 0 | 0 | **111,074** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017 (Ailddatganwyd)** | **203,289** | **674,288** | **(42,465)** | **835,112** |

## Nodyn 1 Polisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2017/18 a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi ac â'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu haddasu neu eu dehongli yn gyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sy'n fwyaf priodol i roi darlun cywir a theg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r polisïau a fabwysiadwyd yn cael eu disgrifio isod ac yn yr amrywiol nodiadau ar y cyfrifon. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn faterol berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am wneud amryw o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar bolisïau cyfrifyddu a symiau a adroddwyd. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu ar sail barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, tybiaethau ynglŷn â digwyddiadau yn y gorffennol a rhagolygon o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r meysydd mwyaf arwyddocaol o ran amcangyfrif a dyfarniadau critigol yn cael eu dangos yn erbyn y nodiadau perthnasol. Sylwch y gall y canlyniadau gwirioneddol yn y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

### 1.2 Arferion cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail croniadau, o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau tymor hir anniriaethol i werth teg fel y pennwyd gan y safon cyfrifo berthnasol.
Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u seilio ar egwyddor busnes hyfyw.

### 1.3 Cymorth grant

Mae cymorth grant a grantiau eraill a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbyniwyd gan barti rheoli.  Mae'r derbyniadau hyn yn cael eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol ac nid drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.4 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan mae taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn, ar wahân i ffioedd incwm opsiynau a dderbyniwyd gan weithredwyr ffermydd gwynt sy'n cael ei gynnwys yn y flwyddyn y cânt ei dderbyn. Yn gyfatebol i driniaeth cyfrifeg Llywodraeth Cymru, mae gwerth net y ffioedd incwm opsiynau ffermydd gwynt, wedi tynnu'r taliad i Lywodraeth Cymru, yn ymddangos o fewn Incwm o ynni adnewyddadwy yn Nodyn 6.

Mae incwm a dderbyniwyd cyn i'r gwaith gael ei wneud yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

Lle mae incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw'r arian parod wedi ei dderbyn na'i dalu, mae swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Lle mae posibilrwydd na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y symiau derbyniadwy ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm a allai beidio â chael ei gasglu.

Mae pob cyfraniad grant arall a dderbyniwyd wedi cael eu cydnabod fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.5 Treth ar Werth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddosbarthu fel corff sydd yn gymwys i adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 ac yn unol â hynny mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â busnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, lle codir treth wrth werthu, neu lle mae treth wrth brynu yn adenilladwy, mae'r symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael eu nodi heb gynnwys TAW.

### 1.6 Rhanbarthau draenio mewnol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n rhedeg pedair ar ddeg o ardaloedd draenio yng Nghymru. Mae'r gwaith a wnaed ym mhob ardal yn cael ei ariannu gan gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar feddianwyr tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol o ran tir an-amaethyddol.

Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan adran 40 o Ddeddf Draenio Tir 1991, bennu cyfraddau draenio a chan reoliad 7 o Reoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992 gyhoeddi ardollau arbennig cyn 15fed Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Gosodwyd y cyfraddau draenio, yr ardollau arbennig a'r praeseptau ar gyfer 2017/18 gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn yn cael ei gynnwys yn Nodyn 6.

### 1.7 Mabwysiadu dehongliadau newydd a diwygiedig o Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) neu Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM)

**Mewn grym yn y datganiadau ariannol hyn**

Mae'r holl Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), dehongliadau a newidiadau mewn grym yn ystod y cyfnod y adrodd hwn wedi eu mabwysiadu yn y datganiadau ariannol hyn.

**Mewn grym ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol**

Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 8 'Polisïau Cyfrifyddu, Newidiadau i Amcangyfrifon cyfrifyddu a Gwallau' yn gofyn am ddatgelu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) newydd, digwyddiadau a dehongliadau sy'n berthnasol, neu a fydd yn berthnasol ar ôl y cyfnod adrodd. Bydd nifer o Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), newidiadau a dehongliadau sydd wedi eu cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol mewn grym mewn cyfnodau adrodd yn y dyfodol. Mae manylion y rheiny sy'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hamlinellu isod. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mabwysiadu unrhyw Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) yn gynnar a bydd yn rhoi'r safonau yn ar waith pan gânt eu eu mabwysiadu yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM).

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15 - Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid

Bydd y safon hon yn disodli'r holl ganllawiau Safonau Adrodd Ariannol Rhynglwadol (IFRS) blaenorol ynglŷn â chydnabod refeniw.  Bydd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018 ac mae wedi ei chynnwys o fewn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 18/19.  Egwyddor graidd i Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 15 yw bod endid yn cydnabod nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid mewn swm sydd yn adlewyrchiad o'r tâl y mae'r endid yn disgwyl bod â hawl iddo yn gyfnewid am y nwyddau neu wasanaethau hynny.  Mae hefyd yn cyflwyno gofynion datgelu sy'n sylweddol fwy er mwyn mynd i'r afael â diffygion y safonau blaenorol (Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 1 a Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 18).  Mae effaith y safon hon ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hasesu ar hyn o bryd.

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 - Offerynnau ariannol

Mae'r safon hon yn cynnwys nifer o welliannau i Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 39, gyda'r bwriad o symleiddio adrodd ar offerynnau ariannol er mwyn darparu gwybodaeth fwy defnyddiol i ddefnyddiwyr am golledion credyd endid ar bob adeg.  Daeth i rym ar 1 Ionawr 2018 ac mae wedi ei chynnwys o fewn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2018/19.  Mae effaith y safon hon ar ddatganiadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei hasesu ar hyn o bryd.

Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 - Prydlesiau

Mae'r safon hon yn dod i rym 1 Ionawr 2019.  Bydd yn disodli pob Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) gyfredol ar brydlesiau.  Yn ôl pob tebyg, bydd yn arwain at gysoni'r gyfundrefn gyfrifyddu ar gyfer pob prydles, gan gael gwared ar y gwahaniaeth rhwng prydlesiau gweithredol a chyllid.  Disgwylir i Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 gael effaith ar adrodd ariannol, a bydd yr effaith hon yn cael ei hasesu yn fanylach pan ddaw cyfarwyddyd pellach i law gan Drysorlys ei Mawrhydi.

### 1.8 Darpariaethau Ariannol (Safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer yr holl safleoedd tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn y gellir rhoi trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn cychwyn gweithrediadau gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo eu hangen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n destun y gyfarwyddeb tirlenwi.

Y canlynol yw'r prif fecanweithiau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu derbyn i ddangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (a ddangosir yn nodyn 11)
- Adneuon arian parod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (a ddangosir yn nodyn 11)
- Cyfrifon escrow
- Cytundebau gweithredoedd Awdurdodau Lleol
- Gwarantau rhiant-gwmnïau
- Cytundebau ymbarél (yn cwmpasu nifer o safleoedd)

### 1.9 Nodiadau ar y cyfrifon

Mae Nodyn 2 yn rhoi dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredol.
Mae Nodiadau 3 -13 yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol a adroddwyd yn y datganiadau o wariant net cynhwysfawr, y sefyllfa ariannol a llifau arian parod.
Mae Nodiadau 14-20 yn ymwneud â ffigyrau nad ydynt wedi eu datgelu mewn mannau eraill yn y cyfrifon hyn.

## 1.10 Ailddatgan cyfnodau blaenorol

Darganfuwyd gwall mewn adroddiad a roddwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru gan brisiwr annibynnol sydd yn cael effaith ar werth eiddo, peiriannau a chyfarpar o fewn Asedau tymor hir ar 31 Mawrth 2016 ac ar 31 Mawrth 2017. Roedd hyn o ganlyniad i roi gwerth tir a oedd yn £6,750k yn rhy uchel ar gyfer un rhan o'r ystâd goedwig. Mae'r gwall wedi ei gywiro drwy ailddatgan eitemau llinell pob datganiad ariannol a effeithwyd ar gyfer y blynyddoedd blaenorol fel a ganlyn:

### Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

| | 31 Mawrth 2017 £'000 | 1 Ebrill 2016 £'000 |
|---|---|---|
| **Asedau tymor hir** | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar Adroddwyd | 771,685 | 752,001 |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar Cywiriad | (6,750) | (6,790) |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar Ailddatganwyd | 764,935 | 745,211 |
| **Cronfa ailbrisio** | | |
| Adroddwyd | 681,038 | 655,860 |
| Cywiriad | (6,750) | (6,790) |
| Ailddatganwyd | 674,288 | 649,070 |

### Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr
### Ffigyrau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017

| | Balans ar ddiwedd y flwyddyn 2016/17 £'000 | Balans agoriadol 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **Cronfa ailbrisio** | | |
| Adroddwyd | 681,038 | 655,860 |
| Cywiriad 15/16 | (6,790) | (6,790) |
| Cywiriad 16/17 | 40 | 0 |
| Ailddatganwyd | 674,288 | 649,070 |

## 2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment

**Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018**

| | Datblygiad Sefydliadol a Rheoli Pobl | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau Y Gogoledd a'r Canolbarth | Gweithredau'r De | Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu | Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Adroddwyd yn ôl segmentau** | | | | | | | | |
| Gwariant | 1,880 | 36,964 | 64,390 | 29,690 | 40,188 | 3,873 | 15,025 | 192,010 |
| Incwm | 0 | (35,691) | (29,515) | (2,157) | (1,584) | 0 | 2,474 | (66,473) |
| **Cyfanswm** | 1,880 | 1,273 | 34,875 | 27,533 | 38,604 | 3,873 | 17,499 | 125,537 |
| **Gwariant cyfalaf** | 0 | 4,396 | 1,772 | 174 | 129 | 0 | 0 | 6,471 |

Mae'r segmentau hyn yn elfennau y mae gwybodaeth ariannol yn cael ei reoli a'i adrodd yn fewnol ar eu cyfer.
Roedd incwm a gwariant a ddangosir uchod wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r segmentau.

**Disgrifiad o'r segmentau**

| | |
|---|---|
| **Datblygiad Sefydliadol a Rheoli Pobl** | Mae'n darparu datblygiad sefydliadol a rheolaeth ar adnoddau staff. |
| **Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol** | Mae'n darparu cefnogaeth ariannol, TGCh a chaffael. Mae'n rheoli adeiladau a fflyd Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| **Gweithrediadau Y Gogoledd a'r Canolbarth** | Mae'n darparu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar lefel weithredol o fewn gogledd a chanolbarth Cymru. Mae hefyd yn darparu rheolaeth rhaglen gyfalaf a gweithrediadau masnachol dros Gymru gyfan. |
| **Gweithredau'r De** | Mae'n darparu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn siroedd De Cymru. Mae hefyd yn darparu gwasanaethau cynllunio a gwasanaethau morwrol dros Gymru gyfan. |
| **Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu** | Mae'n rheoli swyddogaethau cynllunio strategol, amgylcheddol a gofodol, trwyddedu a rheolaeth risg llifogydd ac arfordirol. |
| **Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid** | Mae Swyddfa'r Prif Weithredwr yn cynnwys trefn lywodraethu, archwilio a sicrwydd risg, ysgrifennyddiaeth, cysylltiadau a chyfathrebu allanol, canolfan cyswllt cwsmeriaid a thrawsnewid. |
| **Rheolir yn ganolog** | Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac na ddyrannir i'r un gyfarwyddiaeth. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr coed a dorrwyd, croniadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau. |

Er bod adroddiadau i'r rheolwyr yn dangos y Prif Weithredwr, Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu, a Thrawsnewid ar wahan, maent o fewn yr un gyfarwyddiaeth (Swyddfa'r Prif Weithredwr), ac felly wedi cael eu dangos o dan yr un pennawd yma. Mae'r gwariant yn y Swyddfa'r Prif Weithredwr yn 2% o gyfanswm y gwariant.

## Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

### Ffigyrau cymharol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 (Ailddatganwyd)

| | Datblygiad Sefydliadol a Rheoli Pobl | Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol | Gweithrediadau Y Gogoledd a'r Canolbarth | Gweithredau'r De | Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu | Swyddfa'r Prif Weithredwr a Thrawsnewid | Rheolir yn ganolog | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Adroddwyd yn ôl segmentau** | | | | | | | | |
| Gwariant | 7,185 | 29,238 | 58,069 | 29,598 | 36,727 | 4,049 | 17,385 | 182,251 |
| Incwm | 0 | (35,423) | (25,873) | (2,269) | (1,697) | (77) | 2,446 | (62,893) |
| **Cyfanswm** | 7,185 | (6,185) | 32,196 | 27,329 | 35,030 | 3,972 | 19,831 | 119,358 |
| | | | | | | | | |
| **Gwariant cyfalaf** | 0 | 6,315 | 211 | 376 | 358 | 0 | 0 | 7,260 |

## 3. Costau staff

Mae mwy o fanylion costau a niferoedd y staff yn cael eu datgelu yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 51.

| | 2017/18 | | | 2016/17 |
|---|---|---|---|---|
| | Staff Parhaol £'000 | Staff Arall £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 |
| Cyflog a phae | 54,930 | 9,375 | 64,305 | 62,051 |
| Costau nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 5,633 | 912 | 6,545 | 5,855 |
| Costau pensiwn eraill | 11,702 | 7,040 | 18,742 | 13,260 |
| **Cyfanswm costau cyflog net** | **72,265** | **17,327** | **89,592** | **81,166** |
| Gwariant arall i staff | | | (810) | 5,547 |
| Llai symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf | | | (4,651) | (5,208) |
| **Cyfanswm costau staff** | | | **84,131** | **81,505** |

## 4. Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn

| | 2017/18 | 2016/17 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|
| **Categorïau** | Gwirioneddol £'000 | Gwirioneddol £'000 | Ymrwymedig £'000 | Ymrwymedig £'000 |
| Gwaith gweithredol | 21,922 | 17,431 | 7,316 | 14,323 |
| Grantiau cyfalaf | 1,677 | 1,971 | 209 | 692 |
| **Cyfanswm** | **23,599** | **19,402** | **7,525** | **15,015** |

Mae gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n waith cyfalaf o ran ei natur ond lle nad yw CNC yn cadw'r risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth neu lle nad oes modd amcangyfrif yn ddibynadwy beth yw oes ddefnyddiol yr ased.

**Mae gwaith gweithredol yn cynnwys:**

- Gweithio i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu cadw yn y cyflwr priodol a'u hadfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Creu, gwella neu gynyddu uchder argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr er mwyn lleihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n rhoi gwybodaeth am lifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr ar gyfer Cymru, ac yn cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd hynny.
- Gosod pyst ar hyd glannau'r afonydd i'w cryfhau a chadw'r tir cyfagos yn ddiogel ac atal tirlithriadau i'r afon gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn i raddau helaeth o dan y ddaear.
- Trwsio neu ailosod cwlferi o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwelliannau i'r sianeli sy'n cynorthwyo llif y cyrsiau dŵr.
- Datblygu strategaethau i ddarparu opsiynau perygl llifogydd yn y tymor hir i gwmpasu ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau unigol i reoli perygl llifogydd yn cael eu datblygu.
- Paratoi Cynlluniau Rheoli Lefelau Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd, gwelliannau i lociau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod.
- Gwelliannau i gronfeydd lle bydd y Ddeddf Cronfeydd 1975 yn gosod y cyfrifoldeb hynny ar berchennog y gronfa. Cymerwyd y camau hyn er lles diogelwch yn benodol.

**Grantiau cyfalaf**

Mae'r rhain yn grantiau, i Awdurdodau Lleol yn bennaf, sy'n ariannu gwaith cyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru, y Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy, a hefyd grantiau i gynorthwyo gyda phrynu tir.

## 5. Gwariant arall

| | 2017/18 £'000 | Ailddatganwyd 2016/17 £'000 |
|---|---|---|
| **Eitemau arian parod** | | |
| Gwasanaethau a brynwyd i mewn | 17,064 | 17,811 |
| Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr | 8,281 | 5,542 |
| Costau TGCh | 4,837 | 3,572 |
| Deunyddiau ac offer | 4,072 | 3,843 |
| Costau cynnal swyddfeydd | 3,604 | 3,727 |
| Cytundebau Lefel Gwasanaeth | 3,545 | 6,493 |
| Costau fflyd | 3,325 | 3,506 |
| Cynnal a chadw rhwydwaith ffyrdd y goedwig | 2,775 | 3,320 |
| Grantiau | 2,663 | 3,251 |
| Rhenti | 2,241 | 2,089 |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 2,034 | 2,075 |
| Cytundebau cydweithredol | 1,753 | 2,421 |
| Teithio a chynhaliaeth | 1,155 | 1,146 |
| Ardrethi | 834 | 840 |
| Ffioedd a chostau llys | 760 | 1,064 |
| Colledion a thaliadau arbennig | 738 | 914 |
| Costau gweithredol | 549 | 630 |
| Ffioedd archwilio statudol | 171 | 185 |
| Grantiau Ewropeaidd | 76 | 100 |
| Llog ar brydlesi cyllid | 14 | 33 |
| **Is-gyfanswm** | **60,491** | **62,562** |
| | | |
| **Gwariant nad yw'n arian parod** | | |
| Gwerth coed a dorrwyd | 11,971 | 7,935 |
| Dibrisiant, amoriteiddio ac amhariad | 11,702 | 11,246 |
| Colledion | 115 | 173 |
| Symudiad ar ddarpariaethau eraill | 553 | (705) |
| Symudiad ar y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus | (27) | (63) |
| (Ennillion)/Colled ar waredu assedau | (525) | 196 |
| **Is-gyfanswm** | **23,789** | **18,782** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **84,280** | **81,344** |

Mae manylion y dyledion sy'n cael eu dileu a'r taliadau arbennig yn cael eu dangos yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 57.

Fe ailddatganwyd y ffigyrau ar gyfer costau'r fflyd a chostau gweithredol ar gyfer 2016/17 yn dilyn newidiadau i'r broses ailddosbarthu costau fflyd yn 2017/18. Roedd costau yswiriant cerbydau a pheiriannau yn £303k yn 2016/17 ac maent bellach yn ymddangos o fewn y ffigwr ar gyfer costau fflyd yn hytrach nac o fewn costau gweithredol.

## 6. Dadansoddiad o incwm

### Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

| | 2017/18<br>£'000 | 2016/17<br>£'000 |
|---|---|---|
| Taliadau tynnu dŵr | 19,349 | 17,988 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,364 | 6,560 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,078 | 3,043 |
| Rheoleiddio niwclear | 2,458 | 1,783 |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,294 | 2,311 |
| Trwyddedau pysgota | 1,244 | 1,161 |
| Taliadau eraill i ddiogelu'r amgylchedd | 1,101 | 1,058 |
| Gwastraff peryglus | 657 | 1,013 |
| Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr | 632 | 620 |
| Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon | 307 | 266 |
| Trwyddedu morol | 113 | 262 |
| **Incwm o daliadau** | **37,597** | **36,065** |
| Incwm o bren | 19,534 | 16,070 |
| Incwm o ynni adnewyddadwy | 3,640 | 3,336 |
| Incwm o ystadau | 2,374 | 2,720 |
| Incwm ardaloedd draenio mewnol | 1,265 | 1,617 |
| Darparu gwybodaeth a gwasanaethau | 726 | 920 |
| Adennill costau cyfreithiol ac incwm o'r Ddeddf Elw Trosedd | 303 | 264 |
| Incwm amrywiol | 103 | 164 |
| Llog derbyniadwy | 35 | 43 |
| Incwm tuag at gostau glanhau safleoedd | 6 | 13 |
| **Incwm masnachol ac arall** | **27,986** | **25,147** |
| Incwm Ewropeaidd+ | 656 | 487 |
| Grantiau a chyfraniadau | 234 | 1,194 |
| **Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall** | **890** | **1,681** |
| **Cyfanswm yr incwm** | **66,473** | **62,893** |

+ Gan gynnwys incwm a hawliwyd drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru neu Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

## 6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

| Blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018 | Incwm a gafodd ei filio £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Difyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau tynnu dŵr | 19,098 | 19,349 | **(251)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,455 | 6,364 | **91** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,093 | 3,078 | **15** |
| Rheoleiddio niwclear | 2,460 | 2,458 | **2** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,140 | 2,294 | **(154)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,244 | 1,244 | **0** |
| Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill | 1,081 | 1,101 | **(20)** |
| Gwastraff peryglus | 904 | 657 | **247** |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano | 632 | 632 | **0** |
| Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon | 296 | 307 | **(11)** |
| Trwyddedau morol | 113 | 113 | **0** |
| **Cyfanswm** | **37,516** | **37,597** | **(81)** |

| Ffigurau cymharol - y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 | Incwm a gafodd ei filio £'000 | Gwariant £'000 | Gwarged/ (Difyg) £'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau tynnu dŵr | 18,219 | 17,988 | **231** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr | 6,643 | 6,560 | **83** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau | 3,090 | 3,043 | **47** |
| Rheoleiddio niwclear | 1,758 | 1,783 | **(25)** |
| Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff | 2,177 | 2,311 | **(134)** |
| Trwyddedau pysgota | 1,161 | 1,161 | **0** |
| Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill | 966 | 1,058 | **(92)** |
| Gwastraff peryglus | 1,006 | 1,013 | **(7)** |
| Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano | 620 | 620 | **0** |
| Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon | 262 | 262 | **0** |
| Trwyddedau morol | 280 | 266 | **14** |
| **Cyfanswm** | **36,182** | **36,065** | **117** |

Mae incwm o daliadau ar gyfer rheoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau.

Mae gwargedion a diffygion cronedig yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu ar a yw'r cynllun codi tâl mewn gwarged neu ddiffyg. Mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig dim ond lle mae disgwyliad y bydd y balansau yn rhai y bydd modd eu hadennill dros gyfnod rhesymol o amser. Mae'r balansau yn cael eu hystyried wrth bennu ffioedd a thaliadau blynyddoedd i ddod, er mwyn i sefyllfa o adennill costau gael ei chyflawni dros gyfnod rhesymol o amser, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd i fod yn dair blynedd.

Mae'r tabl uchod o ffioedd a thaliadau yn wahanol i incwm a adroddwyd yn nodyn 6 oherwydd y polisi a nodir uchod. Mae'r diffygion a'r gwargedion cronnus yn cael eu cynnwys mewn incwm cronedig a gohiriedig yn nodiadau 9 a 11 yn y drefn honno.

Mae costau a ariennir gan gymorth grant wedi cael eu heithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19 gan nad yw'r costau/buddion hyn yn cael eu trosglwyddo i rai sy'n talu taliadau. Yr amcan ariannol yw adennill costau llawn gan gynnwys dibrisiad costau cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob ardal yn cael eu rhestru isod:

• Taliadau tynnu dŵr - codi tâl ar fusnesau sy'n defnyddio tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddwyd hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.

• Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr - incwm i adennill costau am ymdrechion CNC ar gyfer adnoddau dŵr, megis costau gweithredol yn nalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.

• Trwyddedau Pysgota - codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.

• Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol:  ansawdd dŵr - codi tâl am ollyngiadau gan fusnesau i'r amgylchedd.

• Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol:  gosodiadau - caniatáu i reoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol

• Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol:  gwastraff - trwyddedu rheoli gwastraff ac eithriadau.

• Gwastraff peryglus - trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo, neu dderbyn gwastraff peryglus.

• Masnachu allyriadau ac ymrwymiad i leihau carbon - rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.

• Rheoleiddio niwclear  - rheoleiddio safleoedd niwclear a di-niwclear, a safleoedd niwclear newydd.

• Trwyddedau morol - codi tâl ar unigolion am drwyddedau cychod.

• Gwarchodaeth arall ar yr amgylchedd - trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr a broceriaid gwastraff, cludiadau trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb y cynhyrchydd ar gyfer gwastraff offer electroneg a thrydanol, cerbydau diwedd oes, biffenylau polyclorinedig a rheoleiddio busnesau dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

## 7. Asedau tymor hir

Mae dau gategori o asedau tymor hir - asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2.

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu beth bynnag yw ei werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill gydag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gall eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 gael eu grwpio fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000 ac mae'r asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bydd y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol yn cael eu bodloni, mae'n debygol y bydd buddion economaidd ychwanegol yn llifo i GNC ac y gall cost y gwariant gael ei fesur yn ddibynadwy. Bydd costau dilynol ychwannegol yn cael eu cynnwys o fewn swm cario'r ased neu eu cydnabod fel ased ar wahan, os yw'n briodol.

**Mesur**

Mae'r holl asedau tymor hir ac eithrio asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu hadrodd naill ai ar y gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ar hyn o bryd neu ar y gwerth teg yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau sy'n cael eu dosbarthu fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gynnal i gefnogi diben Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd natur amrywiol y tir a ddelir a diffyg gwerthoedd cymharol ar y farchnad, mae CNC yn ystyried y byddai cael prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Mae asedau treftadaeth, felly, yn cael eu cynnal yn ôl y gwerth cost. Mae costau cadwraeth (y gwariant sydd ei angen i warchod yr ased treftadaeth) yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu talu. Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn Nodyn 7.1.2.

Mae asedau sydd wedi'u cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cario ar y gost uniongyrchol briodoledig i ddod a'r ased i'r lleoliad a'r cyflwr angenrheidiol iddo allu gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr. Ni fyddant yn cael eu hailbrisio a byddant yn cael e'u trosglwyddo i'r categori asedau tymor hir priodol pan fyddant wedi eu cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

**Mynegeio ac Ailbrisio**

Mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (a adroddwyd o fewn strwythurau gweithredol) yn ddarostyngedig i ailbrisio proffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cafodd yr asedau hyn eu hailbrisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2016 gan syrfewyr siartredig a'u llofnodi gan brisiwr cofrestredig. Y syrfewyr siartredig oedd John Clegg & Co, Cooke and Arkwright, Lambert Smith Hampton, Llewellyn Humphreys, Williams Rural & Commercial, Strutt & Parker, Bidwells ac asiantau tir mewnol.

Mae pob un o'r priswyr a wnaeth yr ailbrisiad pum mlynedd, yn aelodau o'r RICS ac yn Briswyr Cofrestredig yn unol â Chynllun Cofrestru Priswyr RICS, ar wahân i'r priswyr hynny sydd wedi ymgymryd â rhai prisiadau seilwaith penodol ar asedau treftadaeth. Sicrhawyd ansawdd y prisiadau hynny gan Brif Syrfëwr Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol am y farchnad benodol, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i wneud y prisiad yn fedrus.

Cafodd ein holl swyddfeydd rhydd-ddaliadol a phrydlesol a'r eiddo masnachol eu prisio ar 31 Mawrth 2016 gan y priswyr allanol, Elizabeth Hill ac Alan Jones o Syrfewyr Siartredig Cooke & Arkwright.

Cafodd prisiadau tir, strwythurau cyhoeddus ac asedau arbenigol eraill eu trefnu gan ein tîm mewnol o Syrfewyr Siartredig, o dan gyfarwyddyd y Prif Syrfëwr. Ar gyfer yr asedau hynny lle mae gennym incwm rhent yn y dyfodol ar ein tir defnyddiwyd syrfewyr proffesiynol allanol. Prisiwyd Fferm Wynt Cefn Croes gan Bidwells a'r portffolio telathrebu gan Strutt & Parker.

Ar gyfer asedau arbenigol lle nad oes unrhyw beth i'w gymharu ar y farchnad, amcangyfrifwyd y gwerth teg gan ddefnyddio dull cost adnewyddu dibrisiedig.

Defnyddir strwythurau gweithredol wrth ddarparu gwasanaeth CNC ac maent yn benodol o ran eu natur, lleoliad neu swyddogaeth. Nid yw'n bosibl ailbrisio'r asedau hyn yn effeithiol gan ddefnyddio ffigurau cymharol y farchnad neu brisiadau proffesiynol. Mae gwaith rheoli risg llifogydd megis gorsafoedd medryddu neu asedau adnoddau dŵr megis dyfrdyllau yn enghreifftiau o'r math yma o asedau. Mae'r asedau hyn yn gynwysedig yn y Datganiad o'r sefyllfa ariannol gan ddefnyddio cost adnewyddu dibrisiedig.

Rhwng ailbrisiadau proffesiynol, caiff yr ystâd goedwig, tir, adeiladau, strwythurau gweithredol ac asedau biolegol eu mynegeio'n flynyddol gan ddefnyddio indecs addas.

Pan fydd symud yn y mynegeion ar gyfer offer a pheiriannau, technoleg gwybodaeth ac asedau anniriaethol yn faterol berthnasol, caiff yr asedau hyn eu hailbrisio o dan y confensiwn cost hanesyddol ag addaswyd.

Mae addasiadau o ganlyniad i'r mynegeio ac ailbrisiadau yn cael eu cymryd i'r gronfa wrthgefn ar gyfer ailbrisio oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi cael ei ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbrisio tuag i lawr, ac os felly mae'r symudiad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth eu trosglwyddo i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**Dibrisiant ac amorteiddiad**

Nid yw tir (Yr ystâd goedwig a thir nad yw'n goedwig) na hawl anniriaethol i diroedd yn cael ei ddibrisio, oni bai ei fod yn ffurfio elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr.

Mae cerbydau a ddangosir yn y categori offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio ar sail balans sy'n gostwng ar gyfradd o 21%. Mae'r holl asedau eraill yn cael eu dibrisio / hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwyliedig. Caiff dibrisiant ei godi yn y mis y caiff ased ei waredu i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, ond nid yn y mis y caiff ased ei gaffael.

Caiff bywydau asedau wedi'u hamcangyfrif eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar bob dyddiad adrodd. Mae'r prif fywydau economaidd a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant fel a ganlyn:

| **Categori o Asedau** | **Prif fywyd economaidd** |
|---|---|
| **Asedau diriaethol** | |
| Adeiladau ac anheddau | 10 - 60 o flynyddoedd |
| Offer a pheiriannau | 4 - 25 o flynyddoedd |
| Technoleg Gwybodaeth | 3 - 10 o flynyddoedd |
| Strwythurau gweithredol | 5 - 100 o flynyddoedd |
| **Asedau anniriaethol** | |
| Trwyddedau meddalwedd | 5 - 25 o flynyddoedd |
| Trwyddedau eraill | 5 - 100 o flynyddoedd |
| Datblygu meddalwedd | 3 - 10 o flynyddoedd |
| Gwefan | 5 - 10 o flynyddoedd |

Mae'r ystod yn y bywydau economaidd yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o fathau o asedau o fewn y categorïau o asedau.

**Gwarediadau**

Pan fydd ased yn cael ei waredu, mae ei swm cario yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu golled ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell hefyd. Caiff unrhyw enillion ailbrisio cronedig ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

**Y gronfa ailbrisio**

Mae'r gronfa ailbrisio yn dangos yr enillion a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth asedau tymor hir. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- Eu hailbrisio tuag at i lawr neu pan gaiff eu gwerth ei leihau a chollir yr enillion.
- Eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu colli trwy ddibrisiant.
- Eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Caiff swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar yr asedau a ailbrisir a'r hyn a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r asedau wedi'u dangos ar gost ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol.

**Amhariad**

Mae asedau tymor hir yn destun adolygiadau amhariad blynyddol. Caiff amhariadau eu cydnabod pan fydd y swm y gellir ei adennill o asedau tymor hir yn disgyn islaw eu gwerth llyfr net, o ganlyniad i naill ai ostyngiad mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad neu golled mewn budd economaidd neu ostyngiad i botensial gwasanaeth. Mae ailbrisiadau tuag i lawr o ganlyniad i newidiadau yn y gwerth ar y farchnad yn arwain at amhariad dim ond lle mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn is na'i swm cario cost hanesyddol. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol i effaith yr ailbrisio tuag i lawr gael ei osod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbrisio. Mae unrhyw swm sy'n ychwanegol at hyn yn cael ei gydnabod fel amhariad trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff unrhyw golled o fudd economaidd ei gydnabod yn llawn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae swm hyd at werth yr amhariad yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

**Asedau tymor hir a ddelir i'w gwerthu**

Dosberthir asedau tymor hir yn asedau a ddelir i'w gwerthu os caiff y swm cario ei adennill yn bennaf drwy werthu'r asedau yn hytrach na thrwy barhau i'w defnyddio ac mae'n debygol iawn y bydd y gwerthiant hynny'n digwydd o fewn 12 mis o ddyddiad yr adroddiad hwn. Mae'r rheolwyr wedi ymrwymo i werthu'r asedau hyn ac maent yn cael eu marchnata yn eu cyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'u cyflwr presennol.
Daw'r broses ddibrisio i ben ar unwaith ar ôl i'r asedau gael eu dosbarthu'n rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Maent yn cael eu datgan ar yr isaf o'u swm cario a gwerth teg llai costau gwerthu. Maent yn cael eu cofnodi fel asedau cyfredol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 7.1 Asedau tymor hir diriaethol

| | Yr ystâd goedwig | Tir arall | Adeiladau | Offer a pheiriannau | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2017 (Ailddatganwyd)** | 626,724 | 54,418 | 14,484 | 22,153 | 13,320 | 72,855 | 818 | **804,772** | 105,643 | 6,432 | **916,847** |
| Ychwanegiadau | 0 | 280 | 190 | 1,490 | 0 | 1,070 | 482 | **3,512** | 0 | 0 | **3,512** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 521 | 96 | 66 | (635) | **48** | 0 | 0 | **48** |
| Gwarediadau a datgydnabod | (1) | (231) | (137) | (2,577) | (186) | (43) | 0 | **(3,175)** | 0 | 0 | **(3,175)** |
| Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu | (28) | 317 | 231 | (114) | 0 | 0 | 0 | **406** | 0 | 0 | **406** |
| Torri coed | (8,802) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(8,802)** | (3,162) | 0 | **(11,964)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 53,252 | 3,834 | 1,121 | 0 | 0 | 6,534 | 0 | **64,741** | 10,644 | 0 | **75,385** |
| Ailddosbarthu | 0 | (6) | 0 | 0 | 50 | (36) | 6 | **14** | 0 | 0 | **14** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | 671,145 | 58,612 | 15,889 | 21,473 | 13,280 | 80,446 | 671 | **861,516** | 113,125 | 6,432 | **981,073** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017 (Ailddatganwyd)** | 0 | 0 | 694 | 15,352 | 10,205 | 13,586 | 0 | **39,837** | 0 | 0 | **39,837** |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 | 820 | 1,629 | 3,114 | 3,188 | 0 | **8,751** | 0 | 0 | **8,751** |
| Gwarediadau a datgydnabod | 0 | 0 | (4) | (2,454) | (186) | (11) | 0 | **(2,655)** | 0 | 0 | **(2,655)** |
| Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu | 0 | 0 | 6 | (87) | 0 | 0 | 0 | **(81)** | 0 | 0 | **(81)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 48 | 0 | 0 | 1,173 | 0 | **1,221** | 0 | 0 | **1,221** |
| Ailddosbarthu | 0 | 0 | 0 | 0 | 48 | (35) | 0 | **13** | 0 | 0 | **13** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | 0 | 0 | 1,564 | 14,440 | 13,181 | 17,901 | 0 | **47,086** | 0 | 0 | **47,086** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2017 (Ailddatganwyd)** | **626,724** | **54,418** | **13,790** | **6,801** | **3,115** | **59,269** | **818** | **764,935** | **105,643** | **6,432** | **877,010** |
| **Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2018** | **671,145** | **58,612** | **14,325** | **7,033** | **99** | **62,545** | **671** | **814,430** | **113,125** | **6,432** | **933,987** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Ariannu Asedau** | | | | | | | | | | | |
| Wedi'u perchnogi | 625,316 | 53,486 | 14,325 | 6,882 | 99 | 62,545 | 671 | **763,324** | 113,125 | 6,432 | **882,881** |
| Wedi'u prydlesu | 45,829 | 5,126 | 0 | 151 | 0 | 0 | 0 | **51,106** | 0 | 0 | **51,106** |
| **Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2018** | **671,145** | **58,612** | **14,325** | **7,033** | **99** | **62,545** | **671** | **814,430** | **113,125** | **6,432** | **933,987** |

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £291k. Swyddfeydd a lleoliadau gwaith yw'r adeiladau eraill.
Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2018 oedd £725,645k (£673,299k ar 31 Mawrth 2017 - ailddatganwyd)

## Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 (Ailddatganwyd)

| | Yr ystâd goedwig | Tir arall | Adeiladau | Offer a pheiriannau | Technoleg gwybodaeth | Strwythurau gweithredol | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer | Asedau biolegol | Asedau treftadaeth | Cyfanswm asedau diriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | 611,803 | 53,918 | 12,782 | 24,373 | 12,894 | 67,654 | 3,185 | **786,609** | 102,450 | 6,432 | **895,491** |
| Cywiriad i'r balans agoriadol | (6,122) | (668) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(6,790)** | 0 | 0 | **(6,790)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016 (Ailddatganwyd)** | 605,681 | 53,250 | 12,782 | 24,373 | 12,894 | 67,654 | 3,185 | **779,819** | 102,450 | 6,432 | **888,701** |
| Ychwanegiadau | 0 | 2 | 1,282 | 1,030 | 0 | 304 | 600 | **3,218** | 0 | 0 | **3,218** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 4 | 0 | 1,212 | 426 | 884 | (2,355) | **171** | 0 | 0 | **171** |
| Gwarediadau a datgydnabod | 0 | (180) | (234) | (4,201) | 0 | (82) | (612) | **(5,309)** | 0 | 0 | **(5,309)** |
| Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu | 0 | (519) | (365) | (75) | 0 | 0 | 0 | **(959)** | 0 | 0 | **(959)** |
| Torri coed | (5,872) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **(5,872)** | (2,109) | 0 | **(7,981)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 26,667 | 2,099 | 1,019 | 0 | 0 | 4,081 | 0 | **33,866** | 5,302 | 0 | **39,168** |
| Cywiriad i'r ailbrisio o fewn y flwyddyn | 248 | (208) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **40** | 0 | 0 | **40** |
| Ailddosbarthu | 0 | (30) | 0 | (186) | 0 | 14 | 0 | **(202)** | 0 | 0 | **(202)** |
| **Ar 31 Mawrth 2017 (Ailddatganwyd)** | 626,724 | 54,418 | 14,484 | 22,153 | 13,320 | 72,855 | 818 | **804,772** | 105,643 | 6,432 | **916,847** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | 0 | 0 | 315 | 17,586 | 6,063 | 10,644 | 0 | **34,608** | 0 | 0 | **34,608** |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 0 | 0 | 579 | 1,814 | 4,142 | 2,512 | 0 | **9,047** | 0 | 0 | **9,047** |
| Gwarediadau a datgydnabod | 0 | 0 | (61) | (3,884) | 0 | (40) | 0 | **(3,985)** | 0 | 0 | **(3,985)** |
| Symudiad o / (i) asedau a ddelir i'w gwerthu | 0 | 0 | (139) | (60) | 0 | 0 | 0 | **(199)** | 0 | 0 | **(199)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 464 | 0 | **464** | 0 | 0 | **464** |
| Ailddosbarthu | 0 | 0 | 0 | (104) | 0 | 6 | 0 | **(98)** | 0 | 0 | **(98)** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | 0 | 0 | 694 | 15,352 | 10,205 | 13,586 | 0 | **39,837** | 0 | 0 | **39,837** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2016 (Ailddatganwyd)** | **605,681** | **53,250** | **12,467** | **6,787** | **6,831** | **57,010** | **3,185** | **745,211** | **102,450** | **6,432** | **854,093** |
| **Swm a gariwyd ar 31 March 2017 (Ailddatganwyd)** | **626,724** | **54,418** | **13,790** | **6,801** | **3,115** | **59,269** | **818** | **764,935** | **105,643** | **6,432** | **877,010** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Ariannu Asedau** | | | | | | | | | | | |
| Wedi'u perchnogi (Ailddatganwyd) | 583,800 | 49,578 | 13,790 | 6,351 | 3,115 | 59,269 | 818 | **716,721** | 105,643 | 6,432 | **828,796** |
| Wedi'u prydlesu (Ailddatganwyd) | 42,924 | 4,840 | 0 | 450 | 0 | 0 | 0 | **48,214** | 0 | 0 | **48,214** |
| **Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2017 (Ailddatganwyd)** | **626,724** | **54,418** | **13,790** | **6,801** | **3,115** | **59,269** | **818** | **764,935** | **105,643** | **6,432** | **877,010** |

Mae adeiladau'n cynnwys anheddau gyda swm cario o £290k. Swyddfeydd a lleoliadau gwaith yw'r adeiladau eraill.
Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2017 oedd £673,299k (Ailddatganwyd)

### 7.1.1 Yr ystad goedwig

Cafodd perchnogaeth gyfreithiol Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru ei roi i Weinidogion Cymru. Mae wedi ei gynnwys yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn cario'r risg ariannol a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â'r ystâd ac yn ymgymryd â holl weithgareddau rheoli ystadau. Mae'r stad yn cynnwys tir a choed sy'n tyfu.  Mae perchnogaeth gyfreithiol y pren, gan gynnwys coed heb eu torri, yn cael ei roi i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu dal a'u rheoli'n bennaf i fodloni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Goetiroedd i Gymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gall eu pwrpas gael ei rannu rhwng pwrpas economaidd (cyfraniad at economi Gymreig ffyniannus a chynaliadwy) a phwrpasau eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan Safon Archwilio Ryngwladol (IAS) 41 (Amaethyddiaeth), rhaid i bren a dyfir ar gyfer pwrpas economaidd gael ei ddosbarthu fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir gwaelodol, yn cael ei ddosbarthu fel eiddo, offer a chyfarpar a chyfeirir ato fel yr ystâd goedwig.

Dangosir yr asedau yn y ddau gategori yn ôl eu gwerth teg.  Mae priswyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad o'r ystâd bob pum mlynedd. Penodwyd John Clegg a'i Gwmni fel priswyr ar gyfer y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2016. Yn unol â Gwerthusiad a Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch), mae'r ystâd yn cael ei phrisio fel y bo'n briodol ar gyfer cael gwerth teg.  Yn y blynyddoedd rhyngddynt, defnyddir mynegeion arfer a ddarparwyd gan John Clegg a'i Gwmni i ailddatgan gwerthoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i briswyr proffesiynol allanol wedi datblygu prosesau, gan gynnwys rhagdybiaethau allweddol, sy'n cynhyrchu amcangyfrif rhesymol o brisiad cydffurfiol.

Cymerir addasiadau sy'n deillio o ailbrisio'r ystad goedwig i'r gronfa ailbrisio ac maent yn cael eu rhyddhau i'r Gronfa Gyffredinol pan wneir enillion wrth dorri coed. Mae addasiadau sy'n deillio o ailbrisio asedau biolegol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn yr ailbrisio.

**Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a barnau**

Mae elfennau o'r prisiad, ac felly'r cyfrifyddu ar gyfer yr asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Ystyrir na fyddai’n gost effeithiol cynnal prisiad proffesiynol allanol bob pum mlynedd sy’n cwmpasu pob ardal o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr â chymwysterau proffesiynol, ystyrir y gellir cael prisiad rhesymol drwy brisio hapsampl o eiddo sy’n cynrychioli rhwng 8 a 10 y cant o’r ystad goedwig ac allosod y rhain ar gyfer yr ystad goedwig gyfan, gan ddefnyddio ffactorau lleoliad, rhywogaethau, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd y ceir y dystiolaeth fwyaf priodol o werth sy’n seiliedig ar y farchnad o’r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd sydd ag arwynebedd o fwy na 50 hectar. Cydnabyddir, serch hynny, y gall gwerthoedd amrywio’n fawr ac y gall y barnau hyn fod braidd yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu i ryw raddau ar farn broffesiynol. Wedyn mae’r priswyr allanol yn pennu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir y bydd gwerth tir prydlesol 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Cafodd y gwaith o ddosrannu coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, peiriannau ac offer ei wneud gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio barnau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a oedd yn cael ei dal yn bennaf ar gyfer pwrpas economaidd a defnyddiwyd y ganran i bennu gwerth coed a oedd wedi'u dosbarthu fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid cyffredinol yn ein daliad tir o'r ystad goedwig o 10 y cant neu fwy, byddai adolygiad interim o'r asesiad yn cael ei gynnal. Nid oedd unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2018. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 26% ar gyfer asedau biolegol a 74% ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar. Fel sy'n ofynnol o dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau gan amcangyfrif o'r costau gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn yn bump y cant o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu goedwig.

**Cynllun coedwigo ar y cyd Llyn Efyrnwy**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli coedwig yn ardal Llyn Efyrnwy o dan gynllun coedwigo ar y cyd gyda Severn Trent Water. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn derbyn incwm ac yn mynd i gostau. Gwneir taliad blynyddol sy'n cyfateb i 50% o'r gwarged gweithredu i Severn Trent Water. Dengys Cyfoeth Naturiol Cymru werth 50% o'r coed sy'n tyfu ar gyfer yr ardal hon o goedwig yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi'i rannu rhwng yr ystâd goedwig ac asedau biolegol. Nid yw gwerth y tir o dan y goedwig sydd yn eiddo i Severn Trent Water yn gynwysedig.

### 7.1.2 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir heb fod yn weithredol o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwyllt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir yn cael ei ddal ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) o Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 16 (Eiddo, Offer a Chyfarpar) mae'r asedau hyn wedi cael eu cyfalafu ar sail cost.

Ar 31 Mawrth 2018 roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 58 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (GNF). Ni fu unrhyw bryniant sylweddol o dir yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf

Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth a pholisïau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gaffael, cadwraeth, rheolaeth, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth i'w gweld ar ein gwefan yn:

http://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/wildlife-and-biodiversity/find-protected-areas-of-land-and-seas/national-nature-reserves/?lang=cy

## 7.2 Asedau tymor hir anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant ar ddatblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | 6,790 | 2,456 | 11,796 | 472 | 1,661 | **23,175** |
| Ychwanegiadau | 174 | 0 | 388 | 5 | 2,392 | **2,959** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 1,613 | 0 | (1,661) | **(48)** |
| Gwarediadau a datgydnabod | (45) | 0 | (92) | 0 | 0 | **(137)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthu | 1,220 | (102) | (1,132) | 0 | 0 | **(14)** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | 8,139 | 2,354 | 12,573 | 477 | 2,392 | **25,935** |
| **Amorteiddiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | 3,359 | 83 | 4,699 | 95 | 0 | **8,236** |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,233 | 9 | 1,583 | 126 | 0 | **2,951** |
| Gwarediadau a datgydnabod | (47) | 0 | (1) | 0 | 0 | **(48)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthu | 225 | (60) | (178) | 0 | 0 | **(13)** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | 4,770 | 32 | 6,103 | 221 | 0 | **11,126** |
| **Swm a gariwyd ar 1 April 2017** | **3,431** | **2,373** | **7,097** | **377** | **1,661** | **14,939** |
| **Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2018** | **3,369** | **2,322** | **6,470** | **256** | **2,392** | **14,809** |
| **Ariannu Asedau** | | | | | | |
| Wedi'u perchnogi | 3,369 | 2,322 | 6,470 | 256 | 2,392 | 14,809 |
| **Swm a gariwyd at 31 Mawrth 2018** | **3,369** | **2,322** | **6,470** | **256** | **2,392** | **14,809** |

Y swm a ddelir yn y Gronfa Ailbrisio ar gyfer yr asedau hyn ar 31 Mawrth 2018 oed £836k (£989k ar 1 Ebrill 2017)

### Ffigurau cymharol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2017

| | Trwyddedau meddalwedd | Trwyddedau eraill | Gwariant ar ddatblygu meddalwedd | Gwefan | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm asedau anniriaethol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Cost neu Brisiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | 5,895 | 2,419 | 4,392 | 161 | 6,461 | **19,328** |
| Ychwanegiadau | 124 | 16 | 2,551 | 189 | 1,162 | **4,042** |
| Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn | 643 | 0 | 4,853 | 122 | (5,789) | **(171)** |
| Gwarediadau a datgydnabod | (44) | (9) | 0 | 0 | (173) | **(226)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthu | 172 | 30 | 0 | 0 | 0 | **202** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | 6,790 | 2,456 | 11,796 | 472 | 1,661 | **23,175** |
| **Amorteiddiad** | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | 2,257 | 56 | 3,643 | 32 | 0 | **5,988** |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,048 | 30 | 1,058 | 63 | 0 | **2,199** |
| Gwarediadau a datgydnabod | (44) | (3) | (2) | 0 | 0 | **(49)** |
| Mynegeio ac ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthu | 98 | 0 | 0 | 0 | 0 | **98** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | 3,359 | 83 | 4,699 | 95 | 0 | **8,236** |
| **Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2016** | **3,638** | **2,363** | **749** | **129** | **6,461** | **13,340** |
| **Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2017** | **3,431** | **2,373** | **7,097** | **377** | **1,661** | **14,939** |
| **Ariannu Asedau** | | | | | | |
| Wedi'u perchnogi | 3,431 | 2,373 | 7,097 | 377 | 1,661 | **14,939** |
| **Swm a gariwyd at 31 Mawrth 2017** | **3,431** | **2,373** | **7,097** | **377** | **1,661** | **14,939** |

## 8. Rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol

### 8.1 Rhwymedigaeth ariannol

Mae'r rhwymedigaeth ariannol o £39,992k a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys £39,844k o rwymedigaeth o gytundebau gweithredu cronfeydd dŵr.

Yn 1989, er mwyn ei gwneud yn bosibl i breifateiddio ddigwydd, negododd Llywodraeth EM gytundebau gweithredu cronfeydd gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeio yn flynyddol ar y Mynegai Prisiau Manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru Welsh Water.

Gan fod cyfanswm y rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo fel bythol-daliadau ar sail cost amorteiddiedig ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio mewn achos annhebygol lle bydd y cytundeb yn dod i ben. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu adennill llawn gost cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr, gan gynnwys y mynegeio blynyddol drwy ei daliadau ar gyfer tynnu dŵr.

Talwyd £5,544k i Ddŵr Cymru yn ystod 2017/18 (£5,332k yn 2016/17) ar gyfer y taliadau sefydlog wedi'u mynegeio. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys gyda thaliadau eraill o dan y cytundebau gweithredu cronfeydd yn Nodyn 5

### 8.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad arian parod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei fodloni yn bennaf drwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff yn y sector nad yw'n gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei amlygu i ddim ond ychydig o risg o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.

## 9. Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm cronedig | 5,572 | 3,367 |
| Dyledwyr masnachol | 3,835 | 3,700 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus | (323) | (350) |
| TAW derbyniadwy | 2,617 | 3,763 |
| Rhagdaliadau | 1,692 | 1,607 |
| Derbyniadau eraill | 222 | 139 |
| Blaendaliadau | 206 | 23 |
| **Cyfanswm** | **13,821** | **12,249** |

## 10. Arian parod a chyfwerthoedd arian

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Balans agoriadol | 26,801 | 22,735 |
| Newid net mewn arian a chyfwerthoedd arian yn y cyfnod | 16,738 | 4,066 |
| **Cyfanswm** | **43,539** | **26,801** |
| | | |
| Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 35,078 | 18,906 |
| Cyfrifon banc eraill | 8,460 | 7,894 |
| Arian mewn llaw | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **43,539** | **26,801** |

Mae arian parod a chyfwerthoedd arian yn cynnwys arian mewn llaw a darpariaethau ariannol (gweler Nodyn 1.8) sydd mewn cyfrifon Gwasanaeth bancio'r llywodraeth neu Fanc Barclays. Nid yw darpariaethau ariannol ar gael at ddefnydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 11. Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Credydwyr masnachol cronedig | 10,698 | 3,867 |
| Incwm gohiriedig | 6,671 | 6,687 |
| Tâl gwyliau | 1,845 | 1,622 |
| Credydwyr masnachol | 1,671 | 291 |
| Bondiau a blaendaliadau | 1,421 | 1,425 |
| Prydlesi cyllid | 487 | 458 |
| Symiau taladwy eraill | 177 | 134 |
| **Total** | **22,970** | **14,484** |

## 12. Darpariaethau

| | Costau ymadael yn gynnar | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2017** | 205 | 618 | 823 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 1,116 | 1,116 |
| Rhyddhawyd yn y flwyddyn | 0 | (40) | (40) |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (149) | (523) | (672) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | **56** | **1,171** | **1,227** |
| | | | |
| **Amcangyfrif o amseriad llifau arian wedi'u disgowntio** | | | |
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn | 31 | 1,171 | 1,202 |
| Yn ddyledus rhwng un a phum mlynedd | 25 | 0 | 25 |
| **Cyfanswm** | **56** | **1,171** | **1,227** |

Yn unol â gofyniad Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 37 (Darpariaethau, rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol), lle mae hynny'n faterol berthnasol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd, mae'n debygol y bydd gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru setlo'r rwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif ariannol yn ddibynadwy.

Mae darpariaeth ar gyfer costau gadael yn gynnar yn cynnwys taliadau iawndal blynyddol i gyn-staff a adawodd o dan raglenni ymddeol yn gynnar cyrff etifeddol.

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys £917k o'r cynigion grant i ariannu gwaith sydd i'w wneud hyd at 31 Mawrth 2018, ond na fydd yn cael ei hawlio tan fis Mehefin 2018 ac £254k ar gyfer hawliadau eraill. Disgwylir y bydd pob un o'r rhain yn cael eu talu o fewn y deuddeg mis nesaf.

Dangosir costau'r darpariaethau eraill ychwanegol yn nodyn 5. Mae cyfanswm y darpariaethau a nodwyd uchod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o dan rhwymedigaethau. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer dyledion amheus, a ddangosir hefyd yn nodyn 5, yn cael ei chynnwys yng nghyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn nodyn 9 a'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan asedau a dderbynnir.

## 13. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn aelod o ddau gynllun pensiwn, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) yn agored i weithwyr newydd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwn, fe ymunodd pob gwas sifil a benodwyd o'r newydd a mwyafrif y rhai oedd eisoes mewn gwasanaeth ac alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny wedi eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gallai aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu ag arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion mewn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60ain o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae classic plus yn gynllun hybrid yn ei hanfod gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel yn y premium. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion mewn alpha yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai'r gyfradd gronnol yw 2.32%. Ym mhob achos, gallai aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% ac 14.75% (yn ddibynnol ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu dros oedran pensiwn.  Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha.  (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alpha - fel y bo'n briodol.  Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedrannau).

Gellir cael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan: [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) eu trosglwyddo i Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Chynllun Trosglwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr AAC yn parhau'n aelodau o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff a dderbyniwyd.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig statudol, a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau trosiannol, cynilion a newid) 2014.  Mae mwy o fanylion am y gronfa bensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ar wefan EAPF, [www.eapf.org.uk.](http://www.eapf.org.uk)

Cyfanswm y tâl pensiwn ar gyfer CNC oedd £10.978 miliwn. Cafodd y tâl pensiwn yn ymwneud â'r cynllun ei asesu yn unol â chyngor actwari cymwysedig annibynnol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol o brisio i gyfrifo costau gwasanaeth.

Cynhaliwyd y prisiad actiwaraidd bob tair blynedd diweddaraf yr EAPF ar 31 Mawrth 2016. Roedd yr asedau a gymerwyd ar werth y farchnad (£2.7 biliwn) yn ddigon i dalu am 103% o werth y rhwymedigaethau o ran buddion gwasanaeth blaenorol a oedd wedi cronni i'r aelodau. Mae CNC wedi derbyn argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraidd bob tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2019 ac fe'i defnyddir i bennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau 1 Ebrill 2020.

Mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF yn adrodd bod ganddo ddigon o asedau i gwrdd ag 102% o'i rwymedigaethau disgwyliedig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2018 ar sail gyllido barhaus. Cyfrifir cyfran CNC o rwymedigaethau'r EAPF fel yr adroddwyd yn y datganiadau ariannol hyn gan ddefnyddio tybiaethau actiwarïaid, sy'n ofynnol gan IAS19, sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn adroddiad blynyddol yr EAPF. Mae hyn yn arwain at lefel ariannu gwahanol i'r hyn a nodwyd gan yr EAPF.

Y prif wahaniaeth yn y dybiaeth yw'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF yn seiliedig ar enillion tymor hir bondiau llywodraeth y DU ac yn cymryd yn ganiataol lefel o orberfformiad o ran asedau yn y dyfodol gan y bondiau sy'n eiddo i'r EAPF. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn, fel sy'n ofynnol gan IAS 19 yn seiliedig ar enillion bondiau corfforaethol o safon uchel, heb unrhyw ragdybiaeth ychwanegol am berfformiad asedau. Mae'r gyfradd ddisgownt gwirioneddol yn y datganiadau ariannol hyn, felly yn 1.1% yn is na'r gyfradd a ddefnyddiwyd yn natganiadau ariannol y EAPF.  Mae'r gyfradd ddisgownt is yma yn arwain at werth uwch yn cael ei roi ar rwymedigaethau.  Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn nodyn 13.4 yn dangos sensitifrwydd rhwymedigaethau'r gronfa i wahaniaeth yn y gyfradd ddisgownt.

Mae nifer o ragdybiaethau yn cael eu gwneud fel rhan o broses y prisiant actiwarïaid. Nid yw'r tybiaethau actiwarïaid darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn am yr hyn y gallai symudiadau cyflog yn y dyfodol fod. Tybiwyd y bydd pensiynau presennol ac yn y dyfodol sy'n cael eu talu yn cynyddu ar gyfradd o 2.1% y flwyddyn. Y cyfraniad amcangyfrifedig sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfandaliadau dewisol, ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 fydd tua £2.289 miliwn.

Mae'r nodiadau isod yn nodi gofynion datgelu IAS 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â chyfranogiad CNC yn yr EAPF. Mae'r holl gyfrifiadau wedi'u gwneud gan actwari annibynnol cymwys ac fe'u seiliwyd ar y prisiad actiwarïaid diweddaraf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2016 a ddiweddarwyd hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'r tybiaethau sy'n sail i'r cyfrifiad o rwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2018 yn cael eu defnyddio yn unig at ddibenion cyfrifyddu fel sy'n ofynnol o dan IAS 19. Nid oes unrhyw ofyniad i'r rhwymedigaeth net a adroddwyd gael ei fodloni fel cyfandaliad. Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan CNC i'r gronfa bensiwn yn parhau i gael eu gosod drwy gyfeirio at dybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd o'r cynllun a gynhelir bob tair blynedd.

## 13.1 Tybiaethau ariannol a thybiaethau o ran hirhoedledd

| Y cyfnod a ddaeth i ben | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | % p.a. | % p.a. |
| Y gyfradd cynnydd mewn pensiwn | 2.10% | 2.10% |
| Y gyfradd cynnydd mewn cyflogau | 2.40% | 2.40% |
| Y gyfradd ddisgowntio | 2.70% | 2.60% |

| Disgwyliad oes yn 65 oed yn y dyfodol, ar gyfartaledd | Dynion | Merched |
|---|---|---|
| Pensiynwyr presennol | 22.6 blynedd | 24.4 blynedd |
| Pensiynwyr yn y dyfodol (Pobl a fydd yn 65 oed ymhen 20 mlynedd) | 24.3 blynedd | 26.7 blynedd |

## 13.2 Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2018

| Categori o asedau | 31 Mawrth 2018 (£'000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Wedi'u dyfynnu | Heb eu dyfynnu | Heb eu penderfynnu | Cyfanswm | % |
| **Gwarannau Ecwiti:** | | | | | |
| Stoc Gyffredin | 82,482 | 166 | 0 | 82,648 | 24% |
| Stoc a Ffefrir | 26 | 0 | 0 | 26 | 0% |
| Hawliau / Gwarantau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0% |
| Asedau Ecwiti Eraill | 276 | 0 | 0 | 276 | 0% |
| **Gwarannau Dyledion:** | | | | | |
| Bondiau Llywodraeth y DU | 0 | 33,902 | 0 | 33,902 | 10% |
| Bondiau Corfforaethol | 0 | 29,442 | 0 | 29,442 | 9% |
| Arall | 0 | 1,698 | 315 | 2,013 | 1% |
| **Cyfryngau Buddsoddiad Cyfunol:** | | | | | |
| Ecwitïau | 0 | 0 | 40,940 | 40,940 | 12% |
| Bondiau | 27,659 | 0 | 32,798 | 60,457 | 18% |
| Cronfeydd - Stoc Gyffredin | 2,269 | 0 | 26,019 | 28,288 | 8% |
| Cronfeydd - Eiddo Tirol | 422 | 1,763 | 9,360 | 11,544 | 3% |
| Cronfeydd - Cyfalaf Mentro | 0 | 44 | 0 | 44 | 0% |
| **Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:** | | | | | |
| Partneriaethau ac Eiddo Tirol | 0 | 42,558 | 0 | 42,558 | 12% |
| **Buddsoddiad arall** | | | | | |
| Gwarannau wedi'u Staplo | 458 | 0 | 0 | 458 | 0% |
| **Contractau Deilliadol:** | | | | | |
| Deilliadau Ecwiti - Dyfodolion | (43) | 0 | 0 | (43) | 0% |
| Blaengontractau FX | 0 | 87 | 0 | 87 | 0% |
| **Arian parod a chyfwerth arian** | | | | | |
| Pob un | 0 | 0 | 8,502 | 8,502 | 3% |
| **Cyfansymiau** | 113,548 | 109,659 | 117,934 | 341,141 | 100% |

## 13.3 Newid yng ngwerth teg asedau'r cynllun, y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig a'r rhwymedigaeth net

| Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2018 | Asedau | Ymrwymiadau | (Rhwymedig-aethau) / Asedau net |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 323,540 | 0 | 323,540 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | 0 | 366,005 | (366,005) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| **Y Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2017** | **323,540** | **366,005** | **(42,465)** |
| Cost y gwasanaeth | | | |
| - Cost gyfredol y gwasanaeth * | 0 | 10,978 | (10,978) |
| - Cost flaenorol y gwasanaeth (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | 0 |
| - Effaith setliadau | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm cost y gwasanaeth** | **0** | **10,978** | **(10,978)** |
| Llog net | | | |
| - Incwm o log ar asedau'r cynllun | 8,502 | 0 | 8,502 |
| - Cost llog ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig | 0 | 9,590 | (9,590) |
| - Effaith terfyn uchaf asedau ar log net | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y llog net** | **8,502** | **9,590** | **(1,088)** |
| **Cyfanswm cost budd diffiniedig a gydnabyddir mewn Elw neu (Golled)** | **8,502** | **20,568** | **(12,066)** |
| Llifau arian parod | | | |
| - Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun | 1,962 | 1,962 | 0 |
| - Cyfraniadau'r cyflogwr | 12,199 | 0 | 12,199 |
| - Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| - Buddion a dalwyd | (6,710) | (6,710) | 0 |
| - Buddion heb eu hariannu a dalwyd | 0 | 0 | 0 |
| Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa cau ddisgwyliedig** | **339,493** | **381,825** | **(42,332)** |
| Ailfesuriadau | | | |
| - Newid mewn tybiaethau demograffig | 0 | 0 | 0 |
| - Newid mewn tybiaethau ariannol | 0 | (8,200) | 8,200 |
| - Profiad arall | 0 | 0 | 0 |
| - Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net | 1,648 | 0 | 1,648 |
| - Newidiadau i derfyn uchaf asedau | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr ailfesuriadau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)** | **1,648** | **(8,200)** | **9,848** |
| Gwahaniaethau cyfnewid | 0 | 0 | 0 |
| | | | |
| Gwerth teg asedau'r cyflogwr | 341,141 | 0 | 341,141 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir | 0 | 373,625 | (373,625) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2018** | **341,141** | **373,625** | **(32,484)** |

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.6% o'r gyflogres.

## 13.4 Dadansoddiad o sensitifrwydd

| Newid mewn tybiaethau ar 31 Mawrth 2018: | % bras o'r cynnydd i ymrwymiad y cyflogwr | Swm ariannol bras (£000) |
|---|---|---|
| Gostyngiad o 0.5% yn y Gyfradd Ddisgowntio Wirioneddol | 11% | 42,946 |
| Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Cyflogau | 2% | 9,134 |
| Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Pensiwn | 9% | 33,181 |

## 13.5 Hyd rhwymedigaethau buddion diffiniedig

Amcangyfrifwyd gan yr actwari yn ystod y prisiad bob tair blynedd diweddaraf ar 31 Mawrth 2016 bod hyd y rhwymedigaethau buddion diffiniedig (h.y. cyfartaledd pwysol yr amser hyd at dalu allan) ar gyfer aelodau o'r cynllun yn 20.4 mlynedd.

## 14. Ymrwymiadau cyfalaf

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Eiddo, peiriannau a chyfarpar** | | |
| Offer a pheiriannau | 77 | 312 |
| Offer trafnidiaeth | 82 | 0 |
| Strwythurau gweithredol | 1,311 | 481 |
| **Cyfanswm** | **1,470** | **793** |
| | | |
| **Asedau anniriaethol** | | |
| Technoleg gwybodaeth - trwyddedau meddalwedd | 0 | 6 |
| Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd | 351 | 195 |
| **Cyfanswm** | **351** | **201** |

## 15. Ymrwymiadau o dan brydlesi

Mae penderfynu a yw trefniant yn, neu'n cynnwys, prydles yn seiliedig ar sylwedd y trefniant hwnnw. Mae trefniant sy'n dibynnu ar y defnydd o ased penodol ac sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased, yn cael ei ystyried fel prydles.
Mae prydles gyllid yn un sy'n trosglwyddo risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased i'r prydlesai i raddau sylweddol. Prydles weithredol yw unrhyw brydles nad yw'n brydles gyllid. Caiff prydlesi eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 17 (Prydlesi). Nid yw tir sy'n cael ei ddal o dan brydles gyllid yn cael ei ddibrisio.
Mae costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles ac yn cael eu dangos yn Nodyn 5.
Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar y dechrau ar yr isaf o werth teg yr ased a brydlesir neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf. Caiff dyled gyfatebol sy'n ddyledus i'r prydleswr ei chofnodi. Caiff ffioedd ariannol eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff cerbydau sy'n cael eu dal o dan brydles cyllid eu dibrisio dros dymor y brydles.

### 15.1 Prydlesi gweithredu

Nodir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | 31 Mawrth 2018 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir | Adeiladau | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu yw:** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 79 | 1,397 | 248 | 1,724 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 196 | 2,258 | 449 | 2,903 |
| Ar ôl pum mlynedd | 1,760 | 191 | 0 | 1,951 |
| **Cyfanswm gwerth yr ymrwymiadau** | **2,035** | **3,846** | **697** | **6,578** |

| | 31 Mawrth 2017 (Ailddatganwyd) * | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir | Adeiladau | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu yw:** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 109 | 1,787 | 394 | 2,290 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 267 | 3,433 | 687 | 4,387 |
| Ar ôl pum mlynedd | 1,684 | 202 | 0 | 1,886 |
| **Cyfanswm gwerth yr ymrwymiadau** | **2,060** | **5,422** | **1,081** | **8,563** |

* Yn dilyn adolygiad o brydlesi tir ac adeiladau yn ystod y flwyddyn, fe ail ddosbarthwyd rhai o'r prydlesi ac fe gywirwyd y cymal torri ar gyfer un arall. Fe ailddatganwyd y cyfanswm ar gyfer 31 Mawrth 2017 o £10,595k i £8,563k.

### 15.2 Prydlesi Cyllid

| | 31 Mawrth 2018 | | |
|---|---|---|---|
| | Tir | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Ymrwymiadau o dan brydlesi cyllid yw:** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| O fewn blwyddyn | 13 | 68 | 81 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 41 | 0 | 41 |
| Ar ôl pum mlynedd | 365 | 0 | 365 |
| **Cyfanswm gwerth yr ymrwymiadau** | **419** | **68** | **487** |

| | 31 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|---|
| | Tir | Cerbydau | Cyfanswm |
| **Ymrwymiadau o dan brydlesi cyllid yw:** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| O fewn blwyddyn | 13 | 129 | 142 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 38 | 69 | 107 |
| Ar ôl pum mlynedd | 209 | 0 | 209 |
| **Cyfanswm gwerth yr ymrwymiadau** | **260** | **198** | **458** |

## 16. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu canslo nas adroddir amdanynt mewn man arall. Cyfanswm y taliadau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo iddynt ar 31 Mawrth 2018 yw:

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| O fewn blwyddyn | 11,606 | 8,033 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 16,712 | 20,734 |
| Ar ôl pum mlynedd | 268 | 201 |
| **Cyfanswm** | **28,586** | **28,968** |

## 17. Yr hyn y gellir ei dderbyn o brydlesi

Caiff asedau (tir ac adeiladau) a brydlesir i bartïon allanol o dan brydles weithredu eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu asedau tymor hir fel yr amlinellwyd yn Nodyn 7. Cyfrifir am incwm prydles gweithredu ar sail llinell syth ac mae'r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol y gellir eu derbyn o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

| | | Ailddatganwyd* |
|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
| | **£'000** | **£'000** |
| O fewn blwyddyn | 1,035 | 1,112 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 3,362 | 3,615 |
| Ar ôl pum mlynedd | 12,643 | 12,926 |
| **Cyfanswm** | **17,040** | **17,653** |

* Yn dilyn adolygiad o'r hyn y gellir ddisgwyl ei dderbyn o brydlesi yn ystod y flwyddyn, mae cytundebau Rhaglenni Darparu Ynni nawr yn gynwysedig ac mae'r cyfanswm ar gyfer 31 Mawrth 2017 wedi ei ailddatgan o £9,310k i £17,653k.

## 18. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y rhwymedigaethau digwyddiadol canlynol:

| | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Hawliadau Atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus | 151 | 111 |
| Hawliad Sifil | 225 | 0 |
| **Cyfanswm** | 376 | 111 |

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau digwyddiadol yn unol a Safon Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 37.

Mae wyth hawliad atebolrwydd gan weithwyr a'r cyhoedd wedi eu cyflwyno yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru a datgelir y symiau uchod.  Hawliadau am iawndal ac anaf personol yw'r rhain.  Mae achos ffurfiol wedi ei gyflwyno am hawliad sifil gan drydydd parti am y defnydd o gerrig gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac un o'i gyrff rhagflaenol.

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau digwyddiadol canlynol: -

**Archwiliad Cyllid a Thollau EM (CThEM)**
Mae archwiliad CThEM o'r ffordd mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn trin gweithwyr o dan Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) ac oddi ar y gyflogres yn mynd rhagddo a bydd yn parhau yn ystod 2018/19.  Yn unol â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 37, datgelir rhwymedigaeth digwyddiadol anfesuradwy, fel cydnabyddiaeth o'r posibilrwydd y bydd rhwymedigaethau am ddiffyg cydymffurfiad yn codi o'r archwiliad.

**Cwynion Gwerthuso Swyddi**
Yn ystod 2018/19, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried cwynion gan staff ynglŷn â'r broses gwerthuso swyddi. Bydd hyn yn cael effaith ar wariant sy'n gysylltiedig â staff os bydd unrhyw rai o'r cwynion hynny yn cael eu cadarnhau.

**Adolygiadau Barnwrol**
Cyflwynwyd dau adolygiad barnwrol yn erbyn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y flwyddyn.

Y cyntaf o'r rhain oedd gan Sundorne Products (Llanidloes) Limited, is-gwmni i Potter's Waste Management Limited, parthed hysbysiad atal dros dro a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 18 Ionawr 2018 mewn perthynas â gweithrediad y cwmni o safle tirlenwi ym Mryn Posteg, Llanidloes yn unol â thrwydded amgylcheddol. Ystyriwyd bod yr hysbysiad o atal dros dro a gyflwynwyd, yn unol â rheoliadau 37(1) a (6) Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) yn angenrheidiol gan fod y gweithredwr wedi derbyn gwastraff i'r safle a oedd yn sylweddol fwy nag a ganiateir, gan beri perygl llygredd oherwydd nwyon tirlenwi, aroglau, allyriadau i ddŵr daear a dŵr wyneb, a newidiadau i sadrwydd y gladdfa sbwriel.  Mae'r hysbysiad yn gofyn i'r cwmni gymryd camau i ddileu'r risg honno.

Cyflwynwyd yr ail adolygiad barnwrol gan Atlantic Recycling Limited parthed hysbysiad statudol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 20 Chwefror 2018, yn unol ag Atodlen 5, Rhan 3, Paragraff 10 o Reoliadau Cludo Gwastraff ar Longau Trawsffiniol 2007, a oedd yn gofyn i wastraff a gludwyd i Wlad Pwyl rhwng 5 Mai a 5 Gorffennaf 2017 gael ei ddychwelyd.  Roedd y gwastraff yn cynnwys 1,204.6 tunnell o "danwydd yn deillio o sbwriel" / "gwastraff trefol cymysg".  Mae'r mater yn gymhleth ac yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, yr awdurdod cymwys perthnasol yng Ngwlad Pwyl a'r cwmni Pwylaidd a dderbyniodd y gwastraff, sydd i gyd bellach wedi dod yn rhan o'r achos fel cyfranogwyr.

## 19. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Nid oes unrhyw ddigwyddiad i'w adrodd ar ôl y cyfnod adrodd.

## 20. Partïon cysylltiedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae CNC wedi cynnal trafodion perthnasol sylweddol â Llywodraeth Cymru fel rhan o'i fusnes arferol (cofnodir y cymorth grant a'r grantiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr) ac ag endidau eraill yr ystyrir mai Llywodraeth Cymru yw eu rhiant-adran, sef Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru.

At hynny, mae CNC wedi cynnal gwahanol drafodion perthnasol ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrff eraill llywodraeth ganolog. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn ac Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a CThEM.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd CNC, fel rhan o'i fusnes arferol, y trafodion canlynol â'r sefydliadau canlynol yr oedd gan Aelodau'r Bwrdd neu Aelodau Gweithredol neu bartïon cysylltiedig eraill fuddiant ynddynt. Nid yw Aelodau'r Bwrdd na'r Aelodau Gweithredol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r trafodion â'r partïon cysylltiedig hyn. Rydym wedi dangos trafodion ar gyfer y flwyddyn lawn, gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu wedi gadael yn ystod y flwyddyn.

| Sefydliad | Aelod | Natur y berthynas | Cyfanswm taliadau £'000 | Cyfanswm incwm £'000 | Swm dyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Swm dyledus i CNC ar 31 Mawrth 2018 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Aberystwyth | Emyr Roberts | Aelod o'r Cygnor a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd | Ruth Hall | Aelod o'r Bwrdd yng Nghymru a'r Cyngor Cenedlaethol | 0 | 23 | 0 | 0 |
| Prifysgol Caerdydd (Sefydliad Polisi i Gymru) | Ruth Hall | Llywodraethwr / Is-Gadeirydd | 8 | 11 | 0 | 0 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Syr Paul Williams | Cymrawd Mynegol | 0 | 1 | 0 | 0 |
| DEFRA gan gynnwys: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a'r Cwmni Cefnogol | Diane McCrea / Madeleine Havard | Aelod o Fwrdd JNCC & Chyfarwyddwr Anweithredol o'r Cwmni Cefnogol | 8 | 3 | 0 | 0 |
| | Nigel Reader | Aelod anibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg JNCC | | | | |
| DEFRA Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | Nigel Reader | Aelod yn rhinwedd ei swydd (Aelod o Fwrdd a Phwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Natural England) | | | | |
| Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion | Nigel Reader | Aelod anweithredol o'r Bwrdd ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | | | | |
| Leonard Cheshire Disability | Elizabeth Haywood | Aelod o'r Bwrdd ac Ymddiriedolwr | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol | Howard Davies | Prif Weithredwr | 33 | 0 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Ruth Hall | Aelod o'r Cyngor | 201 | 14 | 0 | 0 |
| Natural England | Nigel Reader | Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio | 106 | 0 | 0 | 0 |
| Wild Ground (North East Wales Wildlife Ltd gynt) | Karen Balmer | Ymddiriedolwr | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru | Howard Davies | Ymddiriedolwr ac Is-lywydd Anrhydeddus | 190 | 0 | 0 | 0 |
| SP Energy Network Holdings Ltd | Elizabeth Haywood | Cyfarwyddwr Anweithredol | 16 | 30 | 0 | 0 |
| Prifysgol Abertawe | Emyr Roberts | Athro Anrhydeddus | 282 | 4 | 244 | 0 |
| TGV Hydro Ltd | Chris Blake | Cyfarwyddwr | 37 | 0 | 6 | 0 |

# Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

## Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol System Rheoli Amgylcheddol 2017/18

## Ein Gweledigaeth

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

## Ein Diben

Drwy'r ddeddf newydd, sef Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i ni

- geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

...wrth gyflawni ein swyddogaethau.

### Cyflwyniad

Mae ein System Rheoli Amgylcheddol yn helpu i ddatblygu CNC yn sefydliad rhagorol trwy gynnal ein hardystiad ISO14001:2015 a'n hardystiad coedwigaeth yn erbyn Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig, a thrwy leihau ein heffaith amgylcheddol a'n hôl troed carbon ein hunain.

Rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol y flwyddyn hon:

- lleihau ein hôl troed carbon – datgarboneiddio
- cyflawni cydymffurfiaeth â Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig
- gwella statws nodweddion dynodedig, mynediad a dehongliad ar y safleoedd gwarchodedig rydym yn eu rheoli
- lleihau cyfartaledd allyriadau ceir yn fflyd Cyfoeth Naturiol Cymru – datgarboneiddio

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, ar wahân i'r camau gweithredu neu'r canlyniadau cynaliadwyedd ehangach. Gellir dod o hyd i adroddiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd ehangach trwy gydol ein Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol wrth weithio tuag at adrodd integredig.

## Crynodeb o berfformiad

Rydym wedi gwneud y canlynol eleni:

- cyflawni ein targed i leihau ein hôl troed carbon 5% o ran adeiladau a feddiennir, yr ynni a ddefnyddir a theithiau busnes
- cadw ein hardystiad gyda Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig am yr ystad goetir rydym yn ei rheoli ar ran Llywodraeth Cymru, yn dilyn archwiliadau a chamau dilysu allanol annibynnol
- cwblhau 67% o'r targed archwilio ar gyfer rheoli gwarchodfeydd natur cenedlaethol a sicrhau bod unrhyw gamau gwella a nodwyd yn cael eu rhoi ar waith
- prynu 22 o geir sy'n cynhyrchu llai na 100g/km o allyriadau a dau gerbyd trydanol newydd

**Tabl 1: Tabl crynhoi'r Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol**

| 2015/16 | Unedau | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| Allyriadau nwyon tŷ gwydr [2] | defnydd ($tCO_2e$) | 6,021 | 5,115 | 4,387 |
| Ynni ystad | defnydd (m kWh) | 6.9 | 6.3 | 6.0 |
| | gwariant (£mil) | 657 | 776 | 618 |
| Gwastraff ystad | cynhyrchu (tunellau) | 864 | 1,424 | 1,141 |
| | gwariant (£mil) | 205 | 225 | 273 |
| Dŵr ystad | defnydd ($m^3$) | 78,395 | 76,283 | 50,908 |
| | gwariant (£mil) | 39 | 32 | 25 |

Mae Tabl 1 yn dangos y newid cymharol ar gyfer meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y rhain o fewn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.


I grynhoi:

- gwelwyd gostyngiad o 14.2% mewn allyriadau carbon yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gwelwyd gostyngiad o 4.7% yn yr ynni a ddefnyddiwyd yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gwelwyd gostyngiad o 19.9% yn y gwastraff a gynhyrchwyd yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gwelwyd gostyngiad o 33.3% yn y dŵr a ddefnyddiwyd yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

[2] (Cwmpas 1, 2 a 3, gan gynnwys teithio ar awyren/trên a heb gynnwys allyriadau y tu allan i'r cwmpasau)

## Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Amlinellir ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr isod:




Gwelwyd gostyngiad o 14.2% mewn allyriadau carbon yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gwelwyd gostyngiad o 13.0% mewn allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1, o ganlyniad i ddefnyddio llai o danwydd mewn cerbydau a pheiriannau â bathodyn a rhai gweithredol.

Gwelwyd gostyngiad o 20.8% mewn allyriadau ynni anuniongyrchol Cwmpas 2, o ganlyniad i ddefnyddio llai o drydan mewn adeiladau a feddiennir a safleoedd di-griw.

Gwelwyd gostyngiad o 2.3% mewn allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill, o ganlyniad i leihau'r milltiroedd a deithiwyd mewn cerbydau llwyd a cheir hurio.

**Tabl 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr**

| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|
| Cwmpas 1: allyriadau uniongyrchol ($tCO_2e$) | 2,999 | 2,835 | 2,466 |
| Cwmpas 2: allyriadau ynni anuniongyrchol ($tCO_2e$) | 2,048 | 1,662 | 1,317 |
| Cwmpas 3: allyriadau anuniongyrchol eraill ($tCO_2e$) | 974 | 617 | 603 |
| **Cyfanswm gros allyriadau nwyon tŷ gwydr ($tCO_2e$)** | **6,021** | **5,115** | **4,387** |
| *Y tu allan i'r cwmpasau (h.y. biomas)* | 253 | 220 | 208 |

Nodyn 1: Data heb ei ddilysu'n allanol – sicrwydd cyfyngedig.

Nodyn 2: Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill yn cynnwys: teithiau trên, teithiau awyren, teithiau fflyd llwyd, teithiau car hurio, dŵr a gwastraff.

Nodyn 3: Nid yw'r allyriadau Cwmpas 3 a ddaw yn sgil prynu nwyddau a gwasanaethau, defnyddio agregau mewn gwaith adeiladu a defnyddio pren wedi'u cynnwys.

## Ynni

Mae cyfanswm yr ynni rydym yn ei ddefnyddio (sy'n cynnwys trydan, prif gyflenwad nwy, LPG, olew gwresogi a biomas), mewn adeiladau a feddiennir ac adeiladau gwag, wedi gostwng 4.7% ar sail data'r flwyddyn flaenorol.

Defnyddiwyd 9.6% yn llai o drydan mewn adeiladau a feddiennir, a defnyddiwyd 0.8% yn llai o drydan ar safleoedd di-griw.

Gwelwyd gostyngiad yn y biomas a'r LPG a ddefnyddiwyd yn bennaf oherwydd gosodiad boeler biomas newydd yn ein canolfan ymwelwyr yng Nghoed y Brenin.

Gwelwyd ychydig o gynnydd yn y prif gyflenwad nwy (1.0%) a'r olew gwresogi (3.5%) a ddefnyddiwyd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynyddu maint yr ynni rydym yn ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy yn ein hadeiladau a feddiennir, o 1.4% i 2.2%. Daeth y cynnydd yn bennaf yn sgil gosod cynllun ynni dŵr yn ein canolfan ymwelwyr yng Ngarwnant.

Ym mis Mawrth 2018, gwnaethom osod paneli ffotofoltäig ar bum safle, a byddwn yn gweld budd yr ynni a gynhyrchwyd yn ystod 2018/19. Gwnaethom hefyd osod deuodau allyrru golau ar 13 o safleoedd yn ystod 2017/18. Ariannwyd y paneli ffotofoltaïg a'r deuodau allyrru golau gan gynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru.

Gwelwyd mwy na'r disgwyl o arbedion allyriadau carbon gan fod ffactor trosi nwyon tŷ gwydr DEFRA ar gyfer trydan y DU wedi gostwng ymhellach yn ystod 2017. Daeth hyn yn sgil gostyngiad sylweddol mewn trydan a gynhyrchir gan lo a chynnydd mewn nwy ac ynni adnewyddadwy a gynhyrchir.

**Tabl 3: Ynni a ddefnyddiwyd**

| **Adnodd a ddefnyddiwyd – ynni'r ystad** | **Unedau** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|---|
| Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd a feddiennir | defnydd (kWh) | 5,550,100 | 5,209,072 | 4,918,340 |
| | defnydd (t$CO_2$e) | 2,011 | 1,723 | 1,436 |
| Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd gwag | defnydd (kWh) | 1,319,745 | 1,131,651 | 1,122,103 |
| | defnydd (t$CO_2$e) | 610 | 466 | 395 |
| Ynni adnewyddadwy: Hunan-gynhyrchu | cynhyrchu (kWh) | 81,713 | 76,649 | 106,856 |
| | defnydd (% o ynni a ddefnyddiwyd) | 1.4% | 1.4% | 2.2% |
| **Ynni a ddefnyddiwyd: Cyfanswm** | **defnydd (kWh)** | **6,869,845** | **6,340,723** | **6,040,443** |
| | **defnydd (tCO2e)** | **2,621** | **2,189** | **1,830** |
| | **gwariant (£mil)** | **657** | **777** | **618** |

## Dŵr

Defnyddiwyd 368 metr ciwbig yn llai o ddŵr o'r prif gyflenwad yn ein swyddfeydd (6.2%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae dwysedd y dŵr rydym yn ei ddefnyddio ar 3.1 ($m^3$/FTE), sy'n is na'r cyfartaledd o 4.0 am ddŵr a ddefnyddir,[3] ac rydym wedi gosod targed i leihau hyn ymhellach yn ystod 2018/19.

Gwelwyd cynnydd o 851 metr ciwbig (15.5%) yn y dŵr o'r prif gyflenwad a ddefnyddiwyd ar ein safleoedd heb swyddfeydd, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i fwy o ddŵr o'r prif gyflenwad yn cael ei ddefnyddio yn ein canolfan ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian (473 metr ciwbig o gynnydd) ac mewn nifer o flociau toiled yn Nhregaron, Geirionydd a Niwbwrch (362 metr ciwbig o gynnydd gyda'i gilydd). Defnyddiwyd mwy o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r safleoedd priodol.

Y swm mwyaf o ddŵr a dynnwyd gennym y flwyddyn hon oedd 36,721 metr ciwbig, a defnyddiwyd hwn i weithredu safle ein deorfa bysgod. Roedd hwn, fodd bynnag, yn ostyngiad o 25,968 metr ciwbig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y defnydd hwn oedd y brif ffactor yn y ffaith fod cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd wedi gostwng 25,375 metr ciwbig (33.3%).

**Tabl 4: Dŵr a ddefnyddiwyd**

| **Adnodd a ddefnyddiwyd – dŵr yr ystad** | **Unedau** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|---|
| Dŵr a gyflenwyd – at ddefnydd swyddfa:<br>- prif gyflenwad<br>- tynnu dŵr | defnydd ($m^3$)<br>defnydd ($m^3$) | 6,830<br>3 | 5,923<br>15 | 5,555<br>22 |
| Dŵr a gyflenwyd – nid at ddefnydd swyddfa:<br>- prif gyflenwad<br>- tynnu dŵr | defnydd ($m^3$)<br>defnydd ($m^3$) | 5,555<br>65,981 | 5,488<br>64,850 | 6,339<br>39,014 |
| Dwysedd y dŵr a ddefnyddiwyd (at ddefnydd swyddfa) | $m^3$ yr FTE | 3.4 | 3.3 | 3.1 |
| **Dŵr a gyflenwyd: Cyfanswm** | **Defnydd ($m^3$)** | **78,395** | **76,283** | **50,908** |
| | **Gwariant (£mil)** | **39** | **32** | **25** |
| | **Defnydd ($tCO_2e$)** | **27** | **26** | **18** |

## Teithio

Mae ein hanghenion teithio'n cynnwys: teithio i reoli safleoedd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, ymdrin â llifogydd, cyfarfodydd safle a theithio rhwng swyddfeydd.

Yn ystod 2017/18, gwnaethom deithio 7,269,097 o filltiroedd, sy'n ostyngiad o 889,230 o filltiroedd (10.9%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

[3] Cyfartaledd = $4m^3$ yr FTE (Ffynhonnell: Dangosyddion perfformiad allweddol a meincnodau dŵr ar gyfer swyddfeydd a gwestai. C657 CIRIA www.ciria.org

Daeth hyn yn bennaf yn sgil teithio 623,867 (10.3%) yn llai o filltiroedd mewn cerbydau â bathodyn. Mae hyn yn cyfateb i arbed 133 $tCO_2e$ o garbon ac arbed £50,000 mewn costau.

Byddwn yn parhau i deithio llai rhwng swyddfeydd gan ddefnyddio ein coeden penderfynu teithio a thrwy ddefnyddio mwy o gynadledda Skype, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach.

**Tabl 5: Manylion teithio**

| **Teithio mewn cerbyd** | **Unedau** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|---|
| Cerbydau â bathodyn | milltiroedd a deithiwyd | 5,833,839 | 6,064,812 | 5,440,945 |
| | gwariant (£mil) | 800 | 768 | 749 |
| Cerbydau a huriwyd | milltiroedd a deithiwyd | 1,649,345 | 191,730 | 0 |
| | Gwariant (£mil) | 162 | 18 | 0 |
| Cerbydau llwyd[4] | milltiroedd a deithiwyd | 552,343 | 639,064 | 590,998 |
| | gwariant (£mil) | 244 | 287 | 266 |
| Hurio | milltiroedd a deithiwyd | 256,654 | 322,505 | 261,039 |
| | gwariant (£mil) | 59 | 74 | 88 |
| Trên | milltiroedd a deithiwyd | 865,693 | 864,366 | 938,418 |
| | gwariant (£mil) | 221 | 223 | 183 |
| Awyren | milltiroedd a deithiwyd | 18,898 | 71,057 | 33,661 |
| | gwariant (£mil) | 6 | 19 | 9 |
| Beic | milltiroedd a deithiwyd | 1,944 | 2,346 | 2,301 |
| | gwariant (£mil) | < 1 | < 1 | < 1 |
| Beic modur | milltiroedd a deithiwyd | 4,475 | 2,447 | 1,735 |
| | gwariant (£mil) | 1 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm teithio cerbydau** | **Milltiroedd a deithiwyd** | **9,183,191** | **8,158,327** | **7,269,097** |
| | **Gwariant (£mil)** | **1,493** | **1,390** | **1,291** |

## Lleihau a rheoli gwastraff

Yn gyffredinol, cynhyrchwyd 19.9% yn llai o wastraff yn ystod 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Aeth 11.6% yn llai o wastraff swyddfa i safleoedd tirlenwi, ond gwelwyd cynnydd o 28.6% yn y gwastraff a gafodd ei dipio'n anghyfreithlon. Tipio anghyfreithlon yw unrhyw wastraff a waredir yn anghyfreithlon gan drydydd partïon ar dir rydym yn ei reoli. Pan gaiff ei waredu ar ein tir, ni wedyn yw'r perchennog a ni sy'n gyfrifol am gael gwared arno ac am y costau cysylltiedig.

Roedd yr allyriadau carbon yn uwch na'r disgwyl gan fod ffactor trosi nwyon tŷ gwydr DEFRA ar gyfer gwastraff i safleoedd tirlenwi wedi cynyddu yn ystod 2017. Newid i'r fethodoleg gyfrifo oedd yn gyfrifol am hyn, ac ni ellir ei gymharu â blynyddoedd blaenorol.

[4] Cerbydau llwyd yw cerbydau preifat y staff eu hunain

**Tabl 6: Gwastraff a gynhyrchwyd**

| Gwastraff a gynhyrchwyd | Unedau | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|---|
| Gwastraff swyddfa a aeth i safle tirlenwi | defnydd (tunellau) | 266 | 241 | 213 |
| | defnydd ($tCO_2e$) | 122 | 101 | 125 |
| | gwariant (£mil) | 25 | 22 | 24 |
| Gwastraff swyddfa a ailgylchwyd/ailddefnyddiwyd | defnydd (tunellau) | 451 | 934 | 600 |
| | defnydd ($tCO_2e$) | 9 | 20 | 28 |
| Gwastraff swyddfa a losgwyd | defnydd (tunellau) | 14 | 15 | 27 |
| | defnydd ($tCO_2e$) | < 1 | < 1 | < 1 |
| Gwastraff a gafodd ei dipio'n anghyfreithlon | defnydd (tunellau) | 133 | 234 | 301 |
| | defnydd ($tCO_2e$) | 32 | 65 | 135 |
| **Cyfanswm y gwastraff** | **Defnydd (tunellau)** | **864** | **1,424** | **1,141** |
| | **Defnydd ($tCO_2e$)** | **164** | **186** | **274** |
| | **Gwariant (£mil)** | **205** | **225** | **273** |

## Caffael cynaliadwy

Gweledigaeth CNC ar gyfer Caffael yw "sicrhau ein bod dim ond yn prynu'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom mewn gwirionedd, er mwyn cael y gwerth gorau am ein harian ac i gael yr effaith orau posibl ar yr amgylchedd, ar bobl ac ar yr economi leol”.

Rydym wedi datblygu Cynllun Dull Marchnad, sy'n caniatáu i gaffaelwyr gwestiynu’r angen i brynu, ac i roi ystyriaeth ymarferol i effaith yr hyn y maen nhw'n ei brynu a'r holl opsiynau sydd ar gael cyn ymrwymo i gontract. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys yr Asesiad Effaith Cynaliadwyedd, sy'n archwilio effaith y pryniant ar gost gydol oes ac yn nodi rheolaethau lliniaru.

Mae'r dull yn sicrhau ein bod yn cysylltu ein dewisiadau cyflenwad â'n blaenoriaethau ac amcanion polisi, gan wneud y dewisiadau cywir i helpu i leihau'r adnoddau sylfaenol rydym yn eu defnyddio, defnyddio deunyddiau sy'n cael llai o effaith negyddol ar yr amgylchedd, a rhoi camau monitro perfformiad a thryloywder effeithiol ar waith.

## Newid ymddygiad

Fel rhan o'n gwaith o ymwreiddio ein System Rheoli Amgylcheddol yn niwylliant ein sefydliad, rydym wedi darparu nifer o gyrsiau hyfforddi ar gyfer y staff. Mae'r meysydd hyfforddi wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o'n prif weithdrefnau amgylcheddol, rheoli gwastraff, caffael pren, ac ymateb i ddigwyddiadau.

## Digwyddiadau amgylcheddol

Mae 15 o ddigwyddiadau amgylcheddol wedi codi oherwydd ein gwaith ni neu waith ein contractwyr.  Mae hyn yn cymharu â deg digwyddiad amgylcheddol yn ystod y

flwyddyn flaenorol.  Gwnaeth un digwyddiad amgylcheddol categori uchel ddigwydd yn ystod 2017/18, pan wnaeth ddŵr môr fynd i mewn i ffos dŵr croyw, gan arwain at farwolaeth pysgod. Ni fydd unrhyw gamau gorfodi'n cael eu cymryd oherwydd achoswyd y digwyddiad gan fethiant ased o ganlyniad i ymyrraeth gan drydydd parti. Pan fydd digwyddiadau'n digwydd oherwydd ein gwaith ni (neu waith ein contractwyr), rydym yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag achos gwraidd y digwyddiad.

### Llywodraethu ac adrodd

Rydym yn adrodd ar ein hôl troed carbon fel rhan o'n fframwaith perfformiad, a bydd y tîm gweithredol yn adrodd hwn i'r Bwrdd (mewn sesiwn gyhoeddus agored) deirgwaith y flwyddyn.

Rydym yn casglu'r data a ddefnyddir o fewn yr Adroddiad Cynaliadwyedd hwn trwy gyfuniad o ddarlleniadau mesuryddion (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. pryniannau ar gerdyn tanwydd), data cyflenwyr (e.e. milltiroedd ar drên) a data cyllid, ac yn defnyddio'r ffynhonnell/ffynonellau mwyaf cywir sydd ar gael i ni.  Rydym hefyd yn edrych ar leihau'r defnydd o unrhyw ddata amcangyfrifol yn ein hadroddiadau, ac rydym yn ymdrechu i wella yn y maes hwn.

### Prosiect Carbon Bositif

Ariannwyd Prosiect Carbon Bositif CNC gan Lywodraeth Cymru er mwyn dangos arweinyddiaeth mewn datgarboneiddio yn sector cyhoeddus Cymru a thu hwnt. Mae wedi edrych ar sut gall ein sefydliad roi sylw i'w effaith garbon ar draws adeiladau, trafnidiaeth, tir ac asedau gweithredol ac wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r prosiect yn edrych y tu hwnt i'r allyriadau carbon rydym yn adrodd arnynt ar hyn o bryd fel rhan o'n System Rheoli Amgylcheddol, er mwyn deall ein statws carbon net ehangach (balans ein hallyriadau a'r carbon rydym yn dal a storio). Mae'r prosiect wedi cyfrifo statws carbon net CNC, gan ystyried allyriadau nwyon tŷ gwydr a dal a storio carbon ar draws ystad gyfan CNC. Mae'r cyfrifiad yn adeiladu ar yr wybodaeth a ddaw o'n System Rheoli Amgylcheddol er mwyn deall allyriadau'r sefydliad yn ei gyd-destun ehangach, gan gynnwys, er enghraifft, allyriadau o brynu nwyddau a gwasanaethau, cynhyrchu pren ac adeiladu, a nodi rôl yr ystad a reolir gan CNC ar gyfer carbon. Bydd adroddiad sy'n nodi'r dull a'r cyfrifiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2018.

Roedd y prosiect hefyd yn gwerthuso amrediad o fesurau lliniaru posibl i leihau ein heffaith garbon fel sefydliad, gan geisio mewnbwn gan staff a sefydliadau eraill. Mae'r gwerthusiad yn nodi'r amrediad eang o fesurau posibl sydd ar gael i CNC ac yn cofnodi'r costau a ragwelir, y budd carbon a'r buddion ehangach y gallai'r mesurau hyn eu darparu i CNC, yn ogystal ag archwilio i ba raddau y gellid eu mabwysiadu ar draws y sefydliad.

Er mwyn treialu rhai o'r mesurau hyn, cyflwynodd y prosiect gyfres o brosiectau arddangos, gan gynnwys: cerbydau trydanol a seilwaith costau; paneli ffotofoltäig solar ar adeiladau ac asedau gweithredol; adfer mawndiroedd a phlannu coetiroedd; a threialu offer cynllunio carbon mewn fframweithiau caffael mawr. Gwnaeth y rhain

helpu i hysbysu'r dichonoldeb, y costau a'r buddion y gallai CNC eu gweld o fabwysiadu'r mesurau arfaethedig.

Bydd y cyfleoedd a nodir drwy werthuso opsiynau lliniaru'n helpu i adeiladu rhaglen gyflenwi strategol, flaenoriaethol ac wedi'i phrisio er mwyn i CNC roi sylw i'w effaith garbon yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf, i lywio datgarboneiddio yn CNC wrth symud ymlaen, ac i ymwreiddio rheolaeth garbon ar draws y sefydliad. Bydd y cynllun hwn at ddefnydd mewnol yn bennaf a bydd yn cael ei orffen yn ystod 2018.

Mae'r prosiect yn parhau i rannu ei ddull a'i brofiadau er mwyn lledaenu arferion gorau a gwersi a ddysgwyd wrth reoli carbon ledled sector cyhoeddus Cymru, ac i gynorthwyo yn y gwaith o gyflawni uchelgais Cymru i gael sector cyhoeddus carbon niwtral yng Nghymru erbyn 2030.

## Strategaeth ar gyfer y dyfodol

Rydym eisiau gwneud y canlynol y flwyddyn nesaf:

- lleihau ein hôl troed carbon ymhellach a gosod targed i leihau ein hallyriadau carbon deuocsid ($tCO_2e$) o adeiladau a feddiennir, y teithio a wneir a'r dŵr a ddefnyddir 5%, ar sail data 2017/18
- cadw ardystiad yn erbyn Safon Sicrwydd Coetiroedd y Deyrnas Unedig a safon amgylcheddol ISO14001:2015
- gwella statws nodweddion dynodedig, mynediad a dehongliad ar safleoedd gwarchodedig a reolir gennym
- datblygu dulliau teithio llesol fel hoff ddewis teithio cymudwyr CNC ac ar gyfer teithiau busnes priodol – datgarboneiddio
- gwella perfformiad amgylcheddol y sefydliad ymhellach

**Carl Wannop BSc(Anrh) DipEM PIEMA**
Rheolwr Systemau Amgylcheddol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Ffôn: 03000 654 930
e-bost: Carl.Wannop@naturalresourceswales.gov.uk

**Yn falch o arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
Ffoniwch ni ar **03000 65 3000** (24 awr) i adrodd digwyddiadau amgylcheddol

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8yb – 6yh)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw.